RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
63/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/09/2021

# Dull Integredig o Wella Deilliannau Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-982-7

Teitl: Dull Integredig o Wella Deilliannau Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru
Is-deitl: Adroddiad Terfynol

Awdur(on): Rowan Foster, Kelsey Beninger, Siv Svanaes, Christa Downing

Adroddiad Ymchwil Llawn: Foster, R; Beninger, K; Svanaes, S; Downing, C (2021). *Dull Integredig o Wella Deilliannau Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 63/2021.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/dull-integredig-o-wella-deilliannau-addysgol-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal

Barn yr ymchwilydd ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Y Tîm Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

## Mynegai

Rhestr Ffigurau .......... 4
Geirfa .......... 5
1.Cyflwyniad .......... 7
2.Amcanion yr ymchwil .......... 8
3.Methodoleg .......... 9
4.Adeiladu ar strwythurau ac arferion presennol .......... 13
5.Heriau mewn strwythurau ac arferion presennol .......... 30
6.Barn ynghylch Ysgolion Rhithwir a'r Pennaeth Ysgol Rithwir .......... 50
7.Egwyddorion a chydrannau i danategu dull integredig i Gymru .......... 63
8.Argymhellion .......... 73
Atodiad .......... 80
Atodiad A - Methodoleg .......... 82
Atodiad B - Mesur deilliannau .......... 95
Atodiad C - Rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir .......... 103
Atodiad Ch - Canllawiau ar Gynlluniau Peilot a Gwerthuso .......... 106

**Rhestr Ffigurau**

Ffigur 1 Achos enghreifftiol ar gyfer integreiddio adrannol ....................................... 19
Ffigur 2 Achos enghreifftiol ar gyfer cydleoli a rhannu rheolwr llinell ......................... 20
Ffigur 3 Achos enghreifftiol ar gyfer paneli aml-asiantaeth ....................................... 22
Ffigur 4 Achos enghreifftiol - llwyfan gyffredin ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol . 25
Ffigur 5 Achos enghreifftiol ar gyfer ysgolion sy'n gyfeillgar i Blant sy'n Derbyn Gofal ........................................................................................................... 26
Ffigur 6 Achos enghreifftiol ar gyfer cyswllt llesiant i blant sy'n derbyn gofal ............ 29
Ffigur 7 Dull integredig o wella deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal .............. 65
Ffigur 8 Egwyddorion sy'n sail i ddull integredig o wella deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal ........................................................................................................... 68

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). | Nod y rhaglen trawsnewid ADY yw trawsnewid y systemau ar wahân ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion, ac anawsterau ac/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach, i greu system unedig er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY o 0 hyd at 25 oed. |
| Unigolyn/pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal (CEYP) | Mae'r term 'profiad o fod mewn gofal' fel arfer yn cyfeirio at unrhyw un sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal, neu o gefndir gofal ar unrhyw bryd yn eu hoes, gan gynnwys plant mabwysiedig a oedd gynt yn derbyn gofal. |
| Unigolyn Dynodedig | Mae'n ofynnol i ysgolion benodi Unigolyn Dynodedig i gydgysylltu cymorth ac eiriol dros ddisgyblion sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt wireddu eu potensial addysgol llawn. |
| Cynllun Datblygu Unigol (CDU). | Bydd CDU yn raddol yn disodli'r Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig presennol ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dysgwyr 0 i 25 oed. Cynllun sengl ar ffurf gyffredin fydd y CDU, a ddatblygir drwy ddefnyddio dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. |
| Plant sy'n Derbyn Gofal. | Ar hyn o bryd mae plant a phobl ifanc yn derbyn gofal o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. |
| Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE). | Mae gan bob awdurdod lleol Gydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989 a 2004, mae gan awdurdodau cyfrifol ymarferydd arbenigol (y Cydgysylltydd LACE) i gydgysylltu cynllun addysg y plentyn ac ymdrin ag anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn ardal yr awdurdod lleol. Diffinnir union rolau Cydgysylltwyr |

| | |
|---|---|
| | LACE gan awdurdodau lleol, a gallant amrywio ledled Cymru. |
| Grant Datblygu Disgyblion (PDG) | Darperir y PDG gan Lywodraeth Cymru i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig rhag gwireddu eu potensial llawn. Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal, a phlant fu'n derbyn gofal ac sydd bellach wedi'u mabwysiadu o ofal neu sy'n destun gorchymyn preswylio neu warcheidwad arbennig ac sy'n 3-15 oed, hawl i'w dderbyn. |
| Cynllun Addysg Personol (CAP) | Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal ganddo CAP effeithiol o ansawdd uchel. Cofnod o addysg a hyfforddiant y plentyn yw'r CAP. Dylai gofnodi'r camau y cytunwyd arnynt i'w helpu i wireddu eu potensial llawn, ac adlewyrchu unrhyw gynlluniau addysg sy'n bodoli eisoes (er nad oes angen dyblygu'r cynlluniau hynny) fel datganiad o anghenion addysgol arbennig. |
| Consortia Addysg Rhanbarthol (CARh). | Mae'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru yn gweithio gydag ysgolion i godi safonau mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, gan gynnig ystod o gymorth sy'n cynnwys rhaglenni datblygiad proffesiynol ac ymyrraeth. Mae gan bob consortiwm addysg rhanbarthol gydgysylltydd arweiniol ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG-LAC). Mae'r cydgysylltydd arweiniol PDG-LAC yn gyfrifol am wneud defnydd strategol o gyllid y grant i gefnogi plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, ac a fu'n derbyn gofal, mewn addysg o fewn eu rhanbarth. |
| Ysgol Rithwir (VS) / Model Ysgol Rithwir (VSM) | Dull yr ysgol rithwir yw gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal ac, mewn rhai achosion, pobl ifanc mewn darpariaeth ôl-16 fel pe baent yn perthyn i un ysgol, a chodi cyrhaeddiad addysgol, gwella presenoldeb a gwella sefydlogrwydd addysgol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban wedi dewis penodi pennaeth ysgol rithwir (neu rywun â theitl tebyg) i gyflawni'r rôl hon. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd IFF Research gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag OB3 Research a Clifton VSS, i gynnal adolygiad annibynnol o'r posibilrwydd o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan yr Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad, Syr Alasdair Macdonald yn 2020 a'i adroddiad 'Dull Integredig o Wella Deilliannau Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru.'

1.2 Mae adroddiad Syr Alasdair yn amlinellu rhai o'r arferion da sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, a hefyd yn canolbwyntio ar rannau o'r system lle mae cyfleoedd i wella. Mae hyn yn cynnwys amrywio rhwng awdurdodau lleol o ran y modd y maent yn cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal, ac amrywio o ran statws rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE). Mae'r adroddiad yn cynnwys pum argymhelliad i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu opsiynau arfaethedig am fodel newydd i Gymru, sy'n debyg i'r model ysgol rithwir a ddefnyddir yn Lloegr, yr Alban ac mewn gwledydd eraill.

1.3 Ceir amrywiaeth eang o argymhellion, ac mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar awdurdodau lleol er mwyn bwrw ymlaen â hwy. Cyflawnwyd y gwaith ymchwil hwn er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i greu cynllun ar gyfer dull Cymru a dechrau gweithredu'r cynllun hwnnw.

## 2. Amcanion yr ymchwil

2.1 Nod y gwaith ymchwil hwn yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru i lunio cyfeiriad polisi i'r dyfodol ar gyfer cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal, er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol, a gwella deilliannau addysg. Bydd yr ymchwil o gymorth i ganfod sut y gall model newydd adeiladu ar arfer gorau a systemau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, sut y gellir gweithredu model newydd i Gymru, ac effaith cyflwyno model newydd.

2.2 Er mwyn cyflawni'r nod hwn, roedd pedwar amcan bras i'r gwaith ymchwil:

- datblygu dealltwriaeth ynghylch sut i wella deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drwy archwilio pob un o argymhellion Syr Alasdair
- deall strwythurau ac arferion sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, ac awgrymu opsiynau i awdurdodau lleol (ALlau) a Llywodraeth Cymru er mwyn mesur deilliannau plant sy'n derbyn gofal
- gweithio gyda grŵp bach o ALlau i ystyried manteision, anfanteision a goblygiadau cyllido model (neu fodelau) newydd
- llunio argymhellion am flociau adeiladu i greu model/modelau newydd i'w dreialu a'i werthuso/i’w treialu a’u gwerthuso cyn rhoi model cenedlaethol ar waith.

## 3. Methodoleg

3.1 Er mwyn cael dealltwriaeth ddofn o'r dulliau cyfredol o gefnogi plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, ac yn dilyn hynny yr anghenion y dylai model newydd ymdrin â hwy, mabwysiadwyd ymagwedd ansoddol ddofn at yr ymchwil rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021. Roedd yr ymagwedd yn cynnwys:

- Cam cwmpasu gyda thrafodaethau â rhanddeiliaid ac ymchwil ddesg i drafod dulliau rhyngwladol o roi cymorth integredig i blant sy'n derbyn gofal, a data ar gyrhaeddiad a chynnydd. Ceir trosolwg llawn yn yr atodiad o'r dogfennau a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad.
- Trafodaethau ansoddol â rhanddeiliaid allweddol â rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â chefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg ym mhob un o'r 22 o ALlau, gan gynnwys Cydgysylltwyr LACE a'u rheolwyr llinell. Yn y cyfweliadau archwiliwyd testunau fel y strwythur a'r dull cyfredol o ddarparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal, hyfforddiant i'r staff sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal, gwaith partneriaeth, casglu a monitro data, cyllid, a safbwyntiau ynghylch yr argymhellion yn adroddiad Syr Alasdair. Gweler Atodiad A am ganllawiau testun enghreifftiol.
- Chwe astudiaeth achos fanwl mewn ALl, i gael dealltwriaeth fanylach o dulliau cyfredol o gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn yr ardaloedd hynny. Roedd yr astudiaethau achos hyn yn adeiladu ar drafodaethau â Chydgysylltwyr LACE a'u rheolwyr llinell, ac yn cynnwys cyfweliadau ychwanegol â staff fel cyfarwyddwyr Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant, a staff sy'n ymwneud â chasglu a monitro data.
- Cyfweliadau ag wyth arweinydd ysgol (pum ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd) er mwyn cael dealltwriaeth well o'r cymorth a gynigir i blant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol, sut mae ysgolion yn gweithio gyda chydweithwyr o'r ALl, ac er mwyn casglu safbwyntiau ynghylch yr argymhellion yn adroddiad Syr Alasdair.
- Drwy drafodaeth grŵp â phobl ifanc sydd wedi profi gofal, er mwyn cael dealltwriaeth well o'u profiadau o addysg, a sut yr hoffent wella cymorth i blant sy'n derbyn gofal.

- Pedwar gweithdy gyda chyfarwyddwyr addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, y Consortia Addysg Rhanbarthol a'r Grŵp Blaenoriaethau Addysg er mwyn archwilio cyfleoedd i adeiladu ar arfer da ac ymdrin â heriau.

3.2 Ceir trosolwg o gyfanswm y sampl a gafwyd yn Atodiad A.

3.3 Cafodd yr holl drafodaethau a gweithdai ansoddol eu hwyluso gyda chymorth canllawiau testun lled-strwythuredig a thechnegau i annog mewnwelediadau manylach, er enghraifft dwyn i gof dan arweiniad, cwestiynau ymchwiliol a thaflunio.

3.4 Cynhaliwyd yr ymchwil yn ystod pandemig COVID-19, gan gynnal y gwaith maes o bell er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfweliadau drwy'r dull yr oedd y cyfranogwr yn ei ffafrio, gan gynnwys Teams, Zoom a thros y ffôn. Gan ein bod yn defnyddio dulliau o bell a bod yr ymgysylltu'n digwydd dros gyfnod hir, bu modd cynnwys ystod eang o randdeiliaid, ar adeg lle'r oeddent yn arbennig o brysur yn ymateb i COVID-19.

3.5 Roedd ein dull o ddadansoddi yn cyfuno proses ailadroddus â phroses strwythuredig. Defnyddiwyd y broses fwy ailadroddus i gydnabod y ffaith bod angen mewnwelediad cyflym i oleuo penderfyniadau i ddiwygio’r ffocws yng nghamau dilynol y gwaith ymchwil. Roedd y broses hon yn cynnwys:

- Sesiynau dadansoddi wythnosol lle'r oedd ymchwilwyr yn rhannu eu profiadau, eu myfyrdodau a'u mewnwelediadau, a oedd yn creu dealltwriaeth gyffredin cyn cynnal gwaith maes a sesiynau dadansoddi grŵp dilynol.
- Ar ddiwedd pob cam o'r gwaith maes, byddai'r tîm ymchwil yn ymgynnull i ddadansoddi'r dystiolaeth yn fanwl. Cyn y cyfarfod, byddai'r ymchwilwyr wedi gwneud gwaith dadansoddi targededig ar gwestiynau ymchwil cytunedig, a chyfeirio at nodiadau gwaith maes ac yn dwyn gwaith maes i gof er mwyn nodi themâu allweddol.

3.6 Roedd y gwaith dadansoddi strwythuredig yn cynnwys:

- Codio cyfweliadau, gan eu cofnodi'n systematig drwy ddefnyddio 'mapiau matrics' yn Excel. Dyma broses ddadansoddi gyfarwydd sy'n cynnwys

datblygu fframwaith dadansoddi ac ynddo themâu sydd o ddiddordeb, fel bo modd priodoli data o bob grŵp neu unigolyn i'r themâu hyn, ac fel bo modd llunio cymariaethau neu ddod i gasgliadau ynghylch mynychder safbwyntiau unigol. Mae'r dull hwn yn addas iawn ar gyfer prosiectau ymchwil ansoddol graddfa fwy, gan fod modd canfod tebygrwydd a gwahaniaethau oddi mewn grwpiau a rhyngddynt, ac ar draws gwahanol gamau ymchwil.
- Asesiad ffurfiol o ansawdd tystiolaeth uniongyrchol ac eilaidd (ee, priodoldeb, manwl gywirdeb a therfynau).
- Dadansoddwyd yr holl dystiolaeth, cyn ei chymharu/chyferbynnu. Drwy driongli bu modd i'r tîm ymchwil graffu ymhellach ar ansawdd y dystiolaeth. Lle bu modd, aethom ati i chwilio am dystiolaeth bellach er mwyn llenwi bylchau neu esbonio canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg.

**Cynnwys ac ystyriaethau'r adroddiad**

3.7 Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u trefnu o dan bedair thema gyffredinol:

- arfer da presennol ymhlith ALlau, er mwyn adeiladu arnynt yn rhan o fodel newydd
- arferion a strwythurau anghyson, y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy mewn model newydd
- safbwyntiau ynghylch y model a'r Pennaeth Ysgol Rithwir
- egwyddorion a chydrannau angenrheidiol ar gyfer system newydd i Gymru, ac argymhellion.

3.8 Cynhaliwyd trafodaeth ag awdurdodau lleol yn fuan yn 2021. O ran cyd-destun, mae'n bwysig nodi bod y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei lansio ym mis Medi 2021, felly roedd hynny ar flaen meddyliau llawer o randdeiliaid. Er nad oedd ymchwilio i'r rhaglen trawsnewid ADY o fewn cwmpas y gwaith ymchwil hwn, ceir cyfeiriadau digymell at ddiwygiadau ADY a goblygiadau hynny o ran unrhyw fodel newydd posibl drwy gydol yr adroddiad.

3.9 Cynhaliwyd y gwaith ymchwil yn ystod pandemig COVID-19, a oedd yn gyfnod eithriadol o brysur i ALlau. Mae'r cyfweliadau, ac felly'r adroddiad

hwn, yn rhoi cyfrif am systemau ac arferion cyn-COVID-19, ond hefyd yn cynnwys myfyrdodau ar y modd y mae arferion gwaith wedi newid yn sgil y pandemig.

Mae adroddiad Syr Alasdair yn argymell symud oddi wrth y term 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a defnyddio 'Pobl Ifanc â Phrofiad o fod Mewn Gofal" (CEYP) yn lle hynny. Mae 'profiad o fod mewn gofal' y cyfeirio at unrhyw un sydd yn derbyn gofal ar hyn o bryd, wedi derbyn gofal, neu o gefndir gofal, gan gynnwys plant mabwysiedig a oedd gynt yn derbyn gofal. Nid ydym wedi mabwysiadu'r term CEYP yn yr adroddiad hwn, gan nad yw awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn gyfrifol am ddeilliannau addysg plant a phobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal.

# 4. Adeiladu ar strwythurau ac arferion presennol

4.1 Er mwyn canfod model i'r dyfodol a fydd yn gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, i ddechrau mae'n bwysig adnabod arferion da presennol ymhlith yr amrywiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Drwy ddeall y dulliau a'r strwythurau sy'n galluogi plant sy'n derbyn gofal i lwyddo ar hyn o bryd, gellir adeiladu ar yr arferion hyn, yn hytrach na'u disodli. Nid yw'r adrannau canlynol yn ceisio rhoi crynodeb o bopeth a wneir i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yn hytrach, maent yn amlygu'r prif arferion da sy'n bodoli ar yr hyn o bryd yr ydym yn argymell y dylid eu cadw'n rhan o fodel yn y dyfodol.

**Y Prif Ganfyddiadau**

4.2 Gwnaethom nodi arferion yn y meysydd canlynol yr oedd cyfranogwyr yr ymchwil yn eu hystyried yn arfer da a ddylai barhau yng Nghymru. Ceir crynodeb o'r arferion isod, ac ymdriniaeth fanylach â hwy yn yr adran hon.

- defnyddio mecanweithiau llai ffurfiol i ddal **llais plant sy'n derbyn gofal** a chael prosesau yn eu lle i weithredu ar sail yr hyn a glywir gan ymarferwyr naill ai ar raddfa'r unigolyn ifanc neu ar raddfa carfan gyfan.
- **casglu data mwy cyfannol,** ar ffactorau cymdeithasol ac emosiynol ehangach, y tu hwnt i ymlyniad, sy'n debygol o effeithio ar gynnydd addysgol
- **integreiddio Gwasanaethau Addysg a Phlant** i greu un adran neu strwythur rheoli llinell er mwyn meithrin gwaith cyfannol rhwng y timau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gwneud trefniadau ffurfiol ar gyfer hyfforddiant sefydlu a pharhaus ar anghenion addysg plant sy'n derbyn gofal ar draws adrannau.
- cydweithio rhwng yr holl weithwyr efel uchel o fewn yr adrannau perthnasol - strategol a gweithredol - fel bod **arferion** *ar waith i gefnogi integreiddio*. Er enghraifft, gweledigaeth strategol, drawsadrannol ar gyfer cymorth i blant sy'n derbyn gofal, gyda chyfarwyddwyr adrannol a'r uwch dîm arwain (UDA) yn cyfarfod i gynllunio ac adolygu darpariaeth i blant sy'n derbyn gofal bob mis,

neu ddeufis, a sedd wrth y bwrdd i Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn trafod addysg plant sy'n derbyn gofal.

- Cael **prosesau ar waith i gefnogi integreiddio**,ee, cael ymagwedd gyfun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth adolygu Cynlluniau Addysg Personol (CAPau) ynghyd â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau). Er enghraifft, CAP wedi'i gytuno ar draws ardaloedd lleol sy'n tueddu i gynnal plant sy'n derbyn gofal o'r ardal arall
- awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r gymuned ehangach i greu ymagwedd sy'n seiliedig ar le er mwyn gwella bywydau (a deilliannau addysg), gan alluogi **cydweithio ar draws ALlau a rhanbarthau**. Er enghraifft, arweinwyr a pherchnogion busnesau yn cynnig cyfleoedd am brentisiaeth neu adrannau parciau a hamdden yn cynnig pasys hamdden am ddim i blant sy'n derbyn gofal
- **helpu ysgolion i fod yn fwy ymwybodol a pharod** am anghenion unrhyw blant sy'n derbyn gofal yn eu hysgol. Er enghraifft, y model Cyfeillgar i Blant sy'n Derbyn Gofal, a darparu hyfforddiant i bob ymarferydd fel eu bod yn deall trawma ac ymlyniad
- **arfer yn seiliedig ar dystiolaeth** ac ymyraethau wedi'u cynllunio'n arbennig i gefnogi deilliannau plant sy'n derbyn gofal, fel cyswllt llesiant mewn ysgolion neu gefnogaeth i bontio o'r cynradd i'r uwchradd, ac ôl-16

4.3 Dyma drafod pob un o'r themâu arfer da hyn yn eu tro:

**Llais y plentyn**

4.4 Nod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw rhoi'r prif sylw i blant a phobl ifanc wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Ym marn y tîm ymchwil, a Chydgysylltwyr LACE, mae'n hollbwysig yn rhan o fodel Cymreig y dyfodol fod ALlau yn ymrwymo i ddal a gweithredu o ganlyniad i lais y plentyn, a bod ganddynt ddulliau ystyrlon o wneud hynny. O safbwynt yr unigolyn, pan fydd plant yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon, gall hynny newid eu hagwedd, eu hymddygiad a'u parodrwydd i ddysgu, a'u gwneud yn bartneriaid gweithredol sy'n cydweithio ag oedolion i greu newid. Ar raddfa gyfundrefnol, mae'n ddyletswydd ar ALlau i hyrwyddo

a hwyluso cynnwys plant sy'n derbyn gofal wrth wneud penderfyniadau. Yn bwysicach fyth, mae dull o weithredu a ysgogir gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc (yn hytrach na'r hyn a bennir gan strwythurau a phrosesau) yn annog gwaith mwy cydgysylltiedig â chreadigol.

4.5 Mae'r proffesiwn yn ystyried bod datblygu ac adolygu'r Cynllun Addysg Personol (CAP) fel prif fecanwaith ar gyfer clywed llais y plentyn. Dyma rai enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli eisoes o ran mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth adolygu CAPau:

- Teilwra'r dull o weithredu ar gyfer pob disgybl, ee ystyried a oes angen cyswllt ffurfiol mwy rheolaidd ar rywun, neu a fyddai'n well gan yr unigolyn beidio â chael ei drin yn wahanol i'w gyfoedion, er enghraifft, a chael ei alw allan o'r gwersi i gynnal ei adolygiad.
- Plant sy'n derbyn gofal yn cadeirio eu hadolygiad CAP eu hunain
- Yr un aelod o staff y mae'r plentyn sy'n derbyn gofal yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo yn mynychu adolygiadau CAP; bydd cael rhywun y mae'r plentyn sy'n derbyn gofal yn teimlo'n gyffyrddus, yn ymlaciol ac yn ddiogel yn ei gwmni yn rhoi'r dewrder iddo fod yn onest ac yn agored yn yr adolygiad. Cael 'eiriolwr' i weithredu neu siarad ar ran y disgybl lle bo angen; fel hyn bydd modd sicrhau bod rhai sy'n fwy swil neu sy'n methu bod yn bresennol yn dal i gael llais yn y cyfarfod. Dywedodd plentyn sy'n derbyn gofal y buom yn siarad ag ef ei fod wedi gwerthfawrogi cael eiriolwr i 'siarad ar ei ran' yn fawr pan oedd yn iau, gan nad oedd ganddo'r hyder i wneud hynny ei hun mewn sefyllfa ffurfiol. Argymhellwyd hefyd y dylid cynnal cyfarfodydd mewn mannau mwy anffurfiol
- Cysondeb o ran 'y bobl eraill yn yr ystafell' mewn adolygiadau CAP. Roedd plentyn sy'n derbyn gofal y buom yn siarad ag ef yn teimlo bod cael yr un unigolyn i gyfryngu yn ei gyfarfodydd CAP wedi bod o gymorth i feithrin perthynas ac agwedd agored dros amser, a bod y profiad cyffredinol yn fwy cadarnhaol o'r herwydd.
- Defnyddio iaith a chwestiynau sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn mewn adolygiadau CAP. Er enghraifft, mae ALI wedi diweddaru'r ffordd y caiff

cwestiynau CAP eu llunio er mwyn creu datganiadau fel 'Rwy'n hoffi dod i'r ysgol oherwydd....' a 'Mae ........ yn ffrindiau i mi'. Ers mabwysiadu'r dull hwn, mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal mewn cyfarfodydd CAP wedi gwella o fewn yr ALl hwnnw.

- Ceir arwyddion y gallai dulliau ymgysylltu digidol fel apiau a galwadau fideo helpu i leihau aflonyddwch ymhlith pobl ifanc, eu hannog i ymgysylltu'n amlach a chadw cyswllt y tu allan i'r ardal - gan gofio er hynny fod cyswllt wyneb yn wyneb fel arfer yn bwysig i sefydlu perthynas gychwynnol.

4.6 Nododd yr ymchwil hefyd fod ALlau yn defnyddio mecanweithiau llai ffurfiol i ddal lleisiau plant sy'n derbyn gofal, y tu allan i adolygiadau CAP ffurfiol, gan gynnwys:

- gweithio gyda sefydliadau annibynnol (ee, Voices from Care, TGP Cymru) i roi llais i blant sy'n derbyn gofal, yn rhydd rhag dylanwad neu gyfyngiadau gweithwyr cymdeithasol, ysgolion a gofalwyr maeth
- cynnal grwpiau ymgysylltu ac ymgynghori untro a rheolaidd â phlant sy'n derbyn gofal
- Fforymau Rhianta Corfforaethol sy'n cynnwys plant sy'n derbyn gofal fel cynrychiolwyr, yn cynnig cyfle i bobl ifanc herio'r addysg a'r gwasanaethau a ddarperir
- creu ffilmiau a fideos o brofiadau plant sy'n derbyn gofal er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella'r ddealltwriaeth ymhlith cynghorwyr/swyddogion

4.7 Yn gyffredinol, ceir arfer da yn y maes hwn pan fydd ALlau ac ysgolion yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i ddal llais y plentyn, a lle bydd ganddynt brosesau ar waith i weithredu ar sail yr hyn y maent yn ei glywed, naill ai gan un plentyn neu gasgliad o blant.

**Casglu ac adrodd ar ddata mewn modd cyfannol**

4.8 Fel y nodwyd yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018 'Codi Uchelgais a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal', ceir perthynas gynhenid rhwng cyd-destun y plentyn a'i gyrhaeddiad addysgol. Mae adroddiad Syr Alasdair yn esbonio bod yn rhaid i gymorth fod yn gyfannol er

mwyn ystyried anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal ochr yn ochr â materion fel llesiant, iechyd a sefydlogrwydd lleoliad. Dylid adlewyrchu'r angen am agwedd gyfannol mewn dull cenedlaethol o gasglu ac adrodd ar ddata ar ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

4.9 Mae'r problemau'n gysylltiedig â'r mecanweithiau presennol ar gyfer mesur deilliannau a chasglu data wedi cael eu nodi yn adroddiad Syr Alasdair, a thrafodir y rhain ymhellach yn yr adran isod ar heriau. Yn yr adran hon rydym yn ceisio amlygu arfer da wrth gasglu a defnyddio data cyd-destunol ehangach sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad addysgol.

4.10 Drwy'r gwaith ymchwil, gwelwyd arfer da presennol mewn rhai ALlau, a oedd eisoes yn casglu data ar ffactorau cymdeithasol ac emosiynol ehangach sy'n debygol o effeithio ar gynnydd addysgol. Er enghraifft, mae rhai'n defnyddio arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS) i gael cipolwg o agweddau a allai fod yn amharu ar gyrhaeddiad.

4.11 Mae'r cwricwlwm newydd a chanllawiau'r 'Dull ysgol gyfan o ymdrin â Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol' gan Lywodraeth Cymru yn debygol o ysgogi dangosyddion mesur llesiant safonol ledled Cymru. Gwelwyd rhai enghreifftiau o hyn mewn ambell ALl ac ysgol, er enghraifft nodwyd Proffiliau Boxall gan rai fel dull effeithiol o fesur llesiant. Offeryn arall a oedd yn cael ei ddefnyddio i fesur deilliannau'n gysylltiedig â llesiant oedd PERMAH; teimlwyd bod hyn yn ffodd effeithiol o asesu cyflawniadau allanol y tu hwnt i gymwysterau TGAU, fel meithrin perthnasoedd â phobl eraill.

4.12 Mae casglu ac adrodd yn erbyn ystod ehangach o ddata addysgol a chyd-destunol hefyd yn bwysig, oherwydd disgwylir y gall hynny feithrin integreiddio ac ysgogi diwylliant o gydweithio, wrth i wasanaethau gydymdrechu i ddeall ac ymateb i'r ystod eang o ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau plant sy'n derbyn gofal.

**Integreiddio o fewn awdurdodau lleol**

4.13 Mae integreiddio a chydweithio o fewn gwasanaethau ALl, a rhyngddynt, yn hollbwysig er mwyn gwella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal. Fel yr amlygodd Syr Alasdair yn ei adroddiad, drwy greu mwy o gysondeb a hyrwyddo gweledigaethau/ethos cyffredin o fewn ALlau, a rhyngddynt, bydd plant sy'n derbyn gofal yn cael cymorth gwell 'ble bynnag y maent yn byw, lle bynnag y cânt eu haddysgu a....phryd bynnag y maent yn symud'. Wrth gydweithio'n well, dylai anghenion pob plentyn gael blaenoriaeth dros faterion eraill lleol fel strwythur yr ALl, gwahaniaethau cyllido a gwleidyddiaeth leol.

**Strwythurau sy'n cefnogi integreiddio**

4.14 Ar sail y dystiolaeth, mae'r tîm ymchwil yn ystyried bod sicrhau integreiddio effeithiol neu, o leiaf, cydweithio systematig rhwng Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant yn hollbwysig er mwyn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar hyn o bryd, dywed dau ALl yng Nghymru fod yr adrannau hyn wedi'u hintegreiddio'n llawn. Dyma astudiaeth achos o un o'r ALlau hyn, sy'n tynnu sylw at y manteision canfyddedig er mwyn cefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys mynediad cyflym at arbenigedd a data staff lle bo angen, ac ymyrraeth gynnar effeithiol.

**Ffigur 1Achos enghreifftiol ar gyfer integreiddio adrannol**

## Golwg ar… integreiddio adrannau

> *Mae cael tîm integredig yn allweddol gan fod hynny'n galluogi mynediad rhwydd at ddata'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, a hefyd yn creu'r gallu i ddylanwadu a sicrhau'r cymorth cywir ar gyfer y plentyn.*
>
> (Rheolwr Gwasanaethau)

Mae gan yr ALI Wasanaeth Addysg a Phlant cwbl integredig, o dan arweiniad Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, sy'n cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Phennaeth Addysg.

O fewn y gwasanaeth hwn, ystyrir y Rheolwr Gwasanaeth Rhianta Corfforaethol a Llesiant Plant yn arweinydd strategol sy'n rheoli tîm aml-asiantaeth, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, cyswllt â theuluoedd a chymorth i ysgolion. Mae trefniadau ffurfiol ar waith ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r tîm Addysg i gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn modd integredig, gan gynnwys mynediad llawn at gronfeydd data ac aelodau o staff er mwyn trefnu cymorth. Mae Cydgysylltydd LACE wedi'i leoli ar ochr y Gwasanaethau Plant, yn mynychu cyfarfodydd y gwasanaethau cymdeithasol, a gall herio penderfyniadau'n gysylltiedig â symud plant sy'n derbyn gofal o'r naill leoliad i'r llall. Mae'r staff hefyd yn teimlo bod y strwythur hwn yn cefnogi ymyrraeth gynnar effeithiol ar gyfer plant sy'n dod i mewn i'r system ofal.

Ceir tystiolaeth bod y dull integredig hwn yn gweithio'n dda o ran sicrhau deilliannau plant sy'n derbyn gofal: ni fydd plant sy'n derbyn gofal yn yr ALI yn symud rhyw lawer rhwng y naill ysgol a'r llall, ac nid yw'n gyffredin iddynt fynychu lleoliadau addysg arbennig. Os nad yw hi'n bosibl integreiddio'n llawn, gall ALlau eraill barhau i fanteisio ar rai o'r trefniadau ffurfiol sydd ar waith i sicrhau monitro a chymorth cyfannol a chyflym i'w plant sy'n derbyn gofal.

4.15 Mae'n bosibl na fydd angen cyfuno Gwasanaethau Addysg a Phlant i greu un adran er mwyn integreiddio gwasanaethau, ac na fydd hynny ychwaith yn ymarferol i bawb. Yn naturiol, mae'n gwneud synnwyr llwyr a gallai fod yn fodel y dylai pob ALI ystyried gweithio tuag ato. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth eto ynghylch effaith integreiddio adrannau'n llawn ar brosesau a deilliannau i wneud argymhelliad ar hyn o bryd.

4.16 Er bod adrannau'n parhau i fod ar wahân gan amlaf, wrth ymchwilio nodwyd nifer fach o ALlau sydd wedi addasu strwythurau rheoli llinell i feithrin gwaith integredig rhyngddynt. Adroddodd dau ALI fod y Cydgysylltydd LACE neu'r arweinydd addysg yn treulio un diwrnod yr wythnos yn gweithio o fewn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwelwyd enghreifftiau hefyd lle'r oedd Cydgysylltwyr LACE yn adrodd naill ai i'r timau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Er enghraifft, er bod y Cydgysylltwyr LACE o bosib wedi'u lleoli o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae eu rheolwr llinell yn yr Adran Addysg, ac fel arall.

**Ffigur 2 Achos enghreifftiol ar gyfer cydleoli a rhannu rheolwr llinell**

## Golwg ar...gydleoli a rhannu rheolwr llinell

*"Mae pethau'n newid mor gyflym i'r plant, felly mae gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hollbwysig er mwyn i [Gydgysylltwyr LACE] allu cyfathrebu â'r ysgolion."*
(Rheolwr Gwasanaethau Plant)

Nid yw Addysg a Gwasanaethau Plant wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r ALI hwn, ond mae rheolwr llinell y ddau Gydgysylltydd LACE yn y Gwasanaethau Plant, ac mae'r Cydgysylltwyr wedi'u cydleoli yn y ddwy adran, gan symud rhwng y naill leoliad a'r llall ond gan weithio gyda'i gilydd. Canfuwyd bod y strwythur hwn o gymorth i gyfathrebu'n rheolaidd, ac yn creu cysylltiadau da rhwng y naill wasanaeth a'r llall.

Bydd y Cydgysylltwyr LACE a'u cymheiriaid yn y Gwasanaethau Plant yn mynychu cyfarfodydd a phaneli rheolaidd ag asiantaethau eraill, fel Anghenion Addysgol Arbennig a Swyddogion Adolygu Annibynnol. Cynhelir Cyfarfodydd Uwch Reolwyr misol neu fesul hanner tymor i drafod materion yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal a'u hanghenion ar draws yr adrannau. O gymharu â'r strwythur blaenorol lle'r oedd rheolwyr llinell Cydgysylltwyr LACE, a'r swydd ei hun, wedi'u lleoli yn yr Adran Addysg, roedd staff o'r farn fod y strwythur cyfredol o gymorth i fanteisio, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ar wybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ac ystyried pa mor gyflym y gall sefyllfa plant sy'n derbyn gofal newid, roedd hyn yn amhrisiadwy iddynt.

Ar ôl profi gwahanol strwythurau, mae'r ALI yn cydnabod manteision defnyddio strwythurau ffurfiol i gefnogi trefniadau cyfathrebu rheolaidd ac integreiddio Addysg a'r Gwasanaethau Plant. O safbwynt plant sy'n derbyn gofal, mae hyn yn golygu y gall Cydgysylltwyr LACE weithredu ynghynt ac ar sail gwybodaeth i fodloni eu hanghenion.

4.17 Canfu'r ymchwil fod gwasanaethau integredig fel arfer yn elwa ar hyfforddiant trawsadrannol ac aml-asiantaeth. Gallai hyn gynnwys cyfraniadau arferol gan dimau Addysg a Gofal Cymdeithasol Plant i raglenni sefydlu'r naill a'r llall, gan roi enghreifftiau o arfer da a cheisio cyfleoedd i ddod â'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal ynghyd, Er enghraifft, yn rhan o drefniadau hyfforddi a datblygu parhaus mae'r tîm LACE yn elwa ar hyfforddiant gorfodol ar gyfer Gwasanaethau Plant, fel hyfforddiant ymlyniad, gwaith cyfathrebu cydweithredol, a diplomas seiliedig ar drawma, a bod consortia rhanbarthol yn darparu hyfforddiant i ysgolion a gofalwyr maeth. Mae tîm y LACE hefyd yn gysylltiedig â fforymau hyfforddiant ADY.

4.18 Un enghraifft arall o integreiddio strwythurol, llai manwl yw cael un man cyswllt er mwyn trafod materion plant sy'n derbyn gofal o fewn yr adran gyfatebol. Er enghraifft, cyflwynodd un awdurdod un man cyswllt o fewn y tîm Addysg i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn dilyn ymarfer ad-drefnu diweddar. Mewn awdurdod arall, ceir un man cyswllt o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i dimau Addysg drafod CAPau a phlant newydd sy'n dod i mewn i'r system ofal.

**Arferion sy'n cefnogi integreiddio**

4.19 Mewn ALlau eraill, canfu'r ymchwil fod integreiddio strwythurol yn llai amlwg ond bod enghreifftiau i'w cael o arferion gwaith integredig neu gydweithredol. Roedd y goreuon o blith y rhain yn cynnwys cydweithio ar bob lefel swydd o fewn yr adrannau perthnasol - yn strategol ac yn weithredol.

4.20 Mae ymrwymiad strategol i waith integredig ymhlith arweinwyr lefel uwch yn hollbwysig. Mae'r ymchwil wedi canfod bod integreiddio yn cael ei ystyried yn fwyaf llwyddiannus os yw wedi'i wreiddio mewn gweledigaeth gyffredin o'r brig i lawr ar gyfer cydweithio. Mewn rhai ALlau, ceir gweledigaeth drawsadrannol strategol ar gyfer cymorth i blant sy'n derbyn gofal, gyda chyfarwyddwyr adrannol a'r uwch dîm arwain (UDA) yn cyfarfod i gynllunio ac adolygu darpariaeth i blant sy'n derbyn cymorth yn fisol neu'n ddeufisol.

4.21 Yn aml, byddai Cydgysylltwyr LACE yn aml yn dweud bod cael seddau wrth y byrddau cywir a llais mewn penderfyniadau strategol yn bwysig er mwyn sicrhau arfer integredig. Dywedodd llawer eu bod nhw'n teimlo (neu eu rheolwr llinell yn teimlo) ei bod hi'n bwysig cymryd rhan mewn paneli neu fforymau strategol, fel paneli anghenion cymhleth, paneli ADY, paneli gofal maeth, paneli lleoliad, paneli symud dan reolaeth, paneli sefydlogrwydd, paneli disgyblion anos eu lleoli, a byrddau diogelu. Er enghraifft, mae ALl (a amlygir isod) yn cynnal panel aml-asiantaeth bob pythefnos i ddod â gwasanaethau ynghyd i benderfynu ar y cyd ynghylch lleoliadau plant sy'n derbyn gofal. Dyma'r math o ddylanwad strategol a ystyrir yn hollbwysig i sicrhau y rhoddir digon o bwys ar anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys sicrhau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg) wrth wneud penderfyniadau ehangach. Cydnabuwyd er hynny ei bod hi'n cymryd llawer o amser i fynychu cyfarfodydd o'r fath, ac nad yw hi bob amser yn bosib gwneud hynny ynghyd â chyfrifoldebau eraill.

**Ffigur 3Achos enghreifftiol ar gyfer paneli aml-asiantaeth**

## Golwg ar… baneli aml-asiantaeth

Roedd ALI canolig yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar draws adrannau er mwyn cefnogi plant sy'n derbyn gofal. Er mai'r Adran Addysg sydd â chyfrifoldeb dros hyn, mae maint y timau a'r strwythurau sydd ar waith o gymorth i feithrin perthnasoedd a sicrhau gwaith partneriaeth effeithiol. Os nad yw'r cydweithio yn llwyddo, mae'r ALI hwn o'r farn bod plant sy'n derbyn gofal yn ymwybodol o hynny, a bod ymdrechion yr ALI i ddylanwadu ar ysgolion yn llai effeithiol.

Mae'r panel aml-asiantaeth yn cael ei gynnal bob pythefnos i gefnogi penderfyniadau integredig ar y cyd ynghylch lleoliadau. Arweinir y panel gan y Gwasanaethau Plant, gydag Addysg (y Rheolwr a'r Cydgysylltydd LACE), Seicoleg Addysg, staff gweithredol a rheoli o'r Gwasanaethau Plant, a chynrychiolwyr Iechyd a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn bresennol. Ni chaiff plant eu lleoli onid yw'r penderfyniad yn benderfyniad aml-asiantaeth.

*"Yn fuan iawn yn fy rôl LACE fe es i gwrdd â'r plant a gofyn beth sy'n gweithio, beth sydd ddim yn gweithio, ac fe ddywedon nhw wrtha i: "Rydyn ni'n gwybod pan rydych chi (Addysg a Gwasanaethau Plant) yn dadlau, hyd yn oed os ydych chi i gyd yn eistedd yno yn wên deg mewn cyfarfod. Rwy'n gwybod pan nad ydych chi'n cytuno."*

(Cydgysylltydd LACE, Addysg)

Drwy sefydlu strwythurau ffurfiol i gefnogi gwaith aml-asiantaeth, gyda ffocws ar y deilliannau gorau i'r plant sy'n derbyn gofal, sicrheir bod penderfyniadau ynghylch gofalu am blant yn cael eu hystyried o bob safbwynt. Mae angen cael gweledigaeth gyffredin a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng adrannau yn sail ar gyfer y strwythurau hyn.

4.22 Nodwyd bod cymryd rhan yn y paneli aml-asiantaeth hynny'n creu goblygiadau cadarnhaol o ran ymyrraeth gynnar, gyda Chydgysylltwyr LACE yn dod yn ymwybodol o blant ar ymylon gofal ac yn gweithio gyda thimau ymyrraeth teuluoedd yn y cyfnod hyd at lunio gorchymyn gofal. Er enghraifft, adroddodd ALI fod cynnwys tîm LACE o fewn y gwasanaethau ymyrraeth gynnar wedi golygu llai o symud rhwng ysgolion i blant sy'n derbyn gofal, ac wedi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a gaiff eu rhoi mewn lleoliadau addysg arbenigol fel Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD).

4.23 Ceir cyfoeth o enghreifftiau o gydweithio ar lefel weithredol, a ysgogir yn aml gan angerdd ac ymrwymiad unigolion. Mewn rhai ALlau bydd Cydgysylltwyr LACE ac/neu arweinwyr addysg eraill yn cyfarfod yn rheolaidd â thimau plant sy'n derbyn gofal o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan amrywio rhwng cyfarfodydd misol a hanner-tymhorol. Maent yn cynnal gweithgarwch ar y cyd, fel cyfarfodydd CAP ac ymweliadau ar y cyd ag ysgolion i sicrhau eu bod yn briodol cyn i'r unigolyn ifanc gael ei leoli yno. Sylwodd ALI fod Cydgysylltwyr LACE yn mynychu digwyddiadau grŵp rheolaidd wedi'u trefnu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

4.24 Drwy'r ymchwil gwelwyd hefyd enghreifftiau o ddull 'systemau cyfan' lle nad oedd yr un unigolyn na'r un tîm yn cael ei ystyried yn gyfrifol am y plentyn sy'n derbyn gofal ond, yn hytrach cael un rhiant corfforaethol gwirioneddol, a'r holl wasanaethau'n cydnabod eu rôl wrth wella deilliannau. Ymhlith yr enghreifftiau ymarferol o hyn roedd aelodau rhianta corfforaethol o un ALl (arweinwyr/perchnogion busnes yn aml) yn cynnig cyfleoedd prentisiaeth o fewn eu cwmnïau ac, mewn ALl arall, roedd yr adran parciau a hamdden yn cynnig pasys hamdden am ddim i blant sy'n derbyn gofal, er mwyn cyfoethogi eu hansawdd bywyd a'u llesiant ehangach.

**Prosesau sy'n cefnogi integreiddio**

4.25 Yn yr enghreifftiau uchod o integreiddio, un o brif fanteision gwaith integredig yw mynediad cyflym a rhwydd at wybodaeth fanwl ac amserol am y plentyn. Fel yr archwilir yn adran heriau'r bennod hon, un o'r prif heriau wrth geisio creu dull mwy integredig yw'r anghysondebau o fewn ALlau, a rhwng ALlau, o ran systemau data a threfniadau i gasglu gwybodaeth.

4.26 Un o'r prif ddulliau o gasglu ac adolygu gwybodaeth am addysg plant sy'n derbyn gofal yw'r Cynllun Addysg Personol (CAP). Mae cydweithio effeithiol o gymorth i greu CAPau o ansawdd gwell drwy sicrhau bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau addysgol plentyn sy'n derbyn gofal yn cael eu cofnodi a'u monitro, a bod dealltwriaeth gadarn o'r ymadwaith rhwng y ffactorau hyn. Dywedodd ymarferwyr nad oes unrhyw ddull safonol o gwblhau nac adolygu'r CAP, nac unrhyw ffurf safonol ar gyfer y CAP. Mae llawer o ALlau wedi bod yn gweithio i ddiwygio proses a ffurf CAPau, gyda golwg ar wella'u hansawdd, a'u gwneud yn fwy perthnasol a hygyrch. Yn yr achosion gorau, bydd cyfarfodydd CAP yn dod â'r canlynol ynghyd: gofalwr/rhiant maeth, y Cydgysylltydd LACE, yr Unigolyn Dynodedig, cynrychiolwyr Addysg (Seicolegydd Addysg yn aml) a'r Gwasanaethau Plant, ac o bosib CAMHS.

4.27 Yn fwy diweddar, nododd ALlau mewn cyfweliadau eu bod wedi bod yn ystyried sut i alinio CAPau a CDU (CDUau). Awgrymodd llawer o ALlau fod yr angen i alinio CDUau a CAPau yn gyfle i adolygu CAPau yn ganolog a sefydlu fformat (digidol) cyffredin ledled Cymru. Ystyrir bod alinio CDUau a

CAPau yn allweddol er mwyn lleihau'r baich ar dimau LACE ac i sicrhau'r brofiad mwyaf cydgysylltiedig a chyson i blant sy'n derbyn gofal (y mae gan tua 60% ohonynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn y cyfamser, mae rhai ALlau eisoes wedi bwrw ymlaen i drosi CAPau papur yn ddigidol, er mwyn ei gwneud hi'n haws i wahanol bartïon gyfrannu atynt. Gellir integreiddio CAP electronig yn rhwyddach i systemau rheoli data, a bydd unrhyw newidiadau i amgylchiadau plentyn a gaiff eu cofnodi drwy ddiweddaru'r CAP eu cyfleu'n gyflym wrth dimau LACE. Mae fersiwn ddigidol hefyd yn debygol o fod yn fwy hygyrch i ofalwyr maeth a phobl ifanc eu hunain, yn hytrach na chopi caled wedi'i storio yn nesg rhywun.

**Cydweithio ar draws awdurdodau lleol**

4.28 Drwy'r ymchwil canfuwyd hefyd enghreifftiau o integreiddio neu, o leiaf, o gydweithio rhwng ALlau. Mae cydweithio ar draws ffiniau'n berthnasol gan fod llawer (os nad y rhan fwyaf) o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli ac yn newid ysgol droeon, yn aml dros ffiniau ALl neu hyd yn oed dros ffiniau cenedlaethol. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen i ALlau gydweithio'n gyflym i sicrhau nad yw plentyn sy'n derbyn gofal yn colli ysgol am gyfnod hir. Bydd cydgysylltu da ar draws ffiniau hefyd yn fodd i sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal o dan anfantais os cant eu lleoli y tu allan i ffiniau'r awdurdod sy'n gofalu amdanynt. Dyma ddwy enghraifft sy'n dangos bod modd integreiddio mewn modd ystyrlon ar draws ffiniau, a bod potensial mawr i hynny gael effaith ar raddfa ehangach ar gymorth i blant sy'n derbyn gofal.

4.29 Er mwyn symleiddio gwaith o fewn ALlau a rhyngddynt, mae dwy ardal wedi datblygu **llwyfan CDU ar-lein**, ac ar hyn o bryd yn archwilio'r defnydd o ffurflen CAP ar-lein yn rhan o'r strwythur hwnnw.

**Ffigur 4Achos enghreifftiol - llwyfan gyffredin ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol**

## Golwg ar…
## lwyfan gyffredin ar gyfer CDU


Mae dau ALl wedi cydweithio i ddatblygu CDU (Cynllun Datblygu Unigol) Ar-lein i helpu ysgolion a cholegau i weithredu gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'n cefnogi cydweithio rhwng pawb sy'n ymwneud â nodi anghenion, a chynllunio a darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY. Gall rhieni, gofalwyr, athrawon, gweithwyr cymorth ac asiantaethau eraill edrych ar y CDU Ar-lein. Mae'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr, manwl gywir a chyfredol am bob plentyn.

Mae CDU y disgybl yn ei ganlyn drwy wahanol leoliadau a chyfnodau pontio. Mae'r CDU Ar-lein yn darparu dangosfyrddau, hysbysiadau awtomatig ac adroddiadau ymgorfforedig. Mae'n lleihau swmp y gwaith papur ac yn sicrhau bod modd cael hyd i bopeth mewn un man, gan gynnwys trywydd archwilio, ac arbed amser ac adnoddau a allai gael eu defnyddio i gyflawni tasgau eraill.

Mae'r data a gesglir, yr hawliau mynediad a'r manteision yn sgil hynny oll yn berthnasol i ddull ar-lein integredig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae ychwanegu plant sy'n derbyn gofal at y CDU Ar-lein presennol neu ail-greu system debyg ar gyfer CAPau yn gwbl bosibl, a dylai fod yn un o'r prif gamau a gymerir i wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

4.30 Dechreuodd dau awdurdod lleol gydweithio yn 2015/2016 i ddatblygu'r **model ysgolion sy'n gyfeillgar i blant sy'n derbyn gofal** (drwy ddefnyddio Cyllid o'r Grant Datblygu Disgyblion). Mae'r model yn helpu ysgolion i fod yn fwy ymwybodol o anghenion unrhyw blant sy'n derbyn gofal yn eu hysgol, ac yn fwy parod am yr anghenion hynny - p'un a oes plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol ar y pryd ai peidio. Tynnir sylw at y ddau awdurdod isod. Ar y cyd â'r Consortia addysg rhanbarthol maent wedi datblygu'r cysyniad ymhellach ac mae'r rhaglen bellach yn cynnwys Marc Ansawdd a Llawlyfr. Bwriad y prosiect oedd hyrwyddo arfer da ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal a grwpiau sy'n agored i niwed mewn ysgolion ar draws y rhanbarth.

**Ffigur5 Achos enghreifftiol ar gyfer ysgolion sy'n gyfeillgar i Blant sy'n Derbyn Gofal**




**Cydweithio ar draws rhanbarthau**

4.31 Mae'n ofynnol i bob un o'r pedwar Consortiwm Addysg Rhanbarthol (CARh) gydweithio ar raddfa strategol a gweithredol gydag awdurdodau lleol i gynllunio, datblygu a gweithredu ymyraethau a fydd yn gwella deilliannau plant sy'n derbyn gofal. Ceir cryn amrywiaeth o ran y modd y mae'r pedwar consortiwm yn cydweithio ag ALlau, er enghraifft o ran pa mor aml y bydd y consortia yn cyfarfod â Chydgysylltwyr LACE yn y rhanbarth, a sut y byddant yn rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn awgrymu bod y Consortiwm Addysg Rhanbarthol wedi chwarae rhan gyson wrth ddarparu/hwyluso mynediad at hyfforddiant i dimau LACE ac Unigolion Dynodedig.

**Helpu ysgolion i fod yn ymwybodol ac yn barod**

4.32 Roedd Cydgysylltwyr LACE ac ysgolion y buom yn ymgynghori â nhw ynghylch adroddiad Syr Alasdair dadlau'n gryf o blaid hyfforddiant yn seiliedig ar Drawma ac Ymlyniad. Arweiniodd hyn at yr argymhelliad canlynol: “Dylai'r holl staff sy'n gweithio gydag ALlau mewn ysgolion dderbyn hyfforddiant ar arferion sy'n seiliedig ar Drawma ac Ymlyniad." Mae darparu'r

hyfforddiant hwn wedi'i gynnwys fel argymhelliad yng nghanllawiau'r "Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, ac mae disgwyl i bob ysgol ei gyflawni cyn gynted ag sy'n bosibl. Canfuwyd mewn gwaith ymchwil yn 2019 fod y broses o gyflwyno'r dull yn mynd rhagddi ac yn addawol. [1] Erbyn cynnal y gwaith ymchwil hwn, roedd y rhan fwyaf o ALlau yn dweud bod yr hyfforddiant yn gwneud cynnydd da yn eu hardal - a bod y rhan fwyaf ohono wedi'i gyllido drwy PDG i blant sy'n derbyn gofal ac wedi'i hwyluso gan gonsortia rhanbarthol.

**Arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

4.33 Mae llawer o'r ymyraethau sydd ar waith yn eang, fel arfer sy'n seiliedig ar drawma ac ymlyniad, yn tarddu o seicoleg addysg ac wedi'u cefnogi gan dystiolaeth. Canfu'r ymchwil fod rhai ysgolion ac ALlau yn fwyfwy cyfarwydd ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod gan rai ALlau gysylltiadau â phrifysgolion a myfyrwyr ymchwil i werthuso gwahanol ddulliau. Dyma rai o'r ychydig enghreifftiau lle casglwyd tystiolaeth o effeithiolrwydd ymyraethau:

- mae un ALl yn defnyddio 'Offeryn Asesu Symudiadol' ar gyfer ysgolion sy'n ddeallus ynghylch Trawma, er mwyn canfod a oes angen ymyrraeth. Os canfyddir angen, bydd rhaglen o ymyraethau'n cael ei chyflwyno gan yr ysgol, ac effaith yr ymyrraeth yn cael ei mesur ar ddiwedd y rhaglen; cofnodir wedyn a yw'r ymyrraeth wedi llwyddo neu fethu.
- Model Ysgogwyr Addysg wedi'i gefnogi gan dystiolaeth o effaith gadarnhaol: roedd yr ysgol hon wedi canfod bod y bwlch rhwng cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal a disgyblion eraill wedi cau o ganlyniad i'r model hwn.
- adborth gan athrawon er mwyn deall a yw disgybl sy'n blentyn sy'n derbyn gofal wedi gwneud cynnydd mewn maes lle nodwyd problem yn rhan o'r CAP (neu o sesiynau dal i fyny anffurfiol) Lle rhoddwyd cymorth ychwanegol wedi'i deilwra'n arbennig i'r disgybl, ee, tiwtora un wrth un mewn pwnc, bydd adborth gan yr athro pwnc yn cael ei ddefnyddio i

[1] Gwerthusiad o Weithredu’r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal

ystyried y graddau y mae'r disgybl wedi cael cymorth i fynd yn ôl ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged disgwyliedig

- mae gan un ALl bolisi "nes at adref" sy'n cadw plant sy'n derbyn gofal o fewn eu cymunedau eu hunain lle bo modd, ac yn ceisio cynnal y lleoliadau hyn yn yr ardal leol ar ôl iddynt droi'n 16, wrth i'r bobl ifanc dyfu a gadael gofal cymdeithasol. Er enghraifft, gallai hyn olygu rhoi ffafriaeth i CEYP 16+ wrth gael mynediad at dai yn eu hardal. Mae'r ALl hefyd yn adeiladu dau gartref "anghenion lefel uchel" i blant er mwyn i blant sy'n derbyn gofal ag anghenion cymhleth aros yn yr ardal, gan sicrhau parhad gofal a chysylltiadau â theuluoedd. Mae'r ALl wedi bod yn monitro deilliannau plant y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt, ac wedi canfod bod y polisi wedi cael effaith gadarnhaol ar NEETs.

**Ymyraethau wedi'u teilwra i gefnogi deilliannau plant sy'n derbyn gofal**

4.34 Mae adolygu neu argymell ymyraethau penodol i gefnogi deiliannau addysg plant sy'n derbyn gofal y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod yr ymdeimlad cryf ymhlith cyfranogwyr ymchwil fod yn rhaid i fodel arfaethedig i Gymru gadw'r hyblygrwydd i allu targedu adnoddau a theilwra ymyraethau i fodloni anghenion plant unigol sy'n derbyn gofal. Mae targedu adnoddau yn allweddol yn rhan o ddull plentyn-ganolog o gefnogi deilliannau plant sy'n derbyn gofal, gan gydnabod nad oes un dull sy'n gweddu i bawb, ac y bydd gan bob plentyn sy'n derbyn gofal ei anghenion unigryw ei hun.

4.35 Mewn rhai rhanbarthau, bydd timau LACE yn dal cyfran o'r cyllid yn ôl i'w ddefnyddio ar gyfer ymyrraeth uniongyrchol i wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal, a defnyddir yr arian hwn yn gyffredin ar gyfer gwersi, cymorth ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal a mentora, ymhlith dibenion eraill. Mewn un rhanbarth, defnyddiwyd PDG-LAC mewn clwstwr o ysgolion i gyllido rôl Cyswllt Llesiant i gefnogi pontio. Amlygir hyn isod.

### Ffigur6 Achos enghreifftiol ar gyfer cyswllt llesiant i blant sy'n derbyn gofal

## Spotlight on…
## a wellbeing link

Care experienced young people we spoke to found transition periods (for example, from primary to secondary school, secondary school to college) as particularly challenging moments in their educational journeys, and a greater focus on wellbeing at these points would have helped them. LACE Coordinators highlighted that difficulties during these transitions can increase in the context of out of country placements.

One region has funded, through school cluster LAC PDG, a Wellbeing Link for looked after children. This individual identifies and supports the additional needs of looked after children, particularly during transitions from primary to secondary school and in out of country placements. Support is bespoke, both emotional and practical, and includes additional familiarisation sessions. The Link works with school staff and care teams to ensure the best support and outcomes for looked after children. One Head Teacher within the cluster reported that this role is highly valuable, and provides an excellent link with feeder schools, teaching staff, care providers and Local Authorities, including those out of country.

An individual dedicated to the wellbeing of looked after children during transitions appears to work effectively in supporting schools, providing an effective link between all individuals contributing to a looked after child’s outcomes and, crucially, in addressing identified gaps in desired support for looked after children.

## 5. Heriau mewn strwythurau ac arferion presennol

5.1 Yn yr adrannau blaenorol, trafodwyd enghreifftiau o arfer da i gefnogi a gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yr hyn a nodwyd yn glir oedd bod yr arfer da hwn yn bodoli mewn pocedi ar draws ac oddi mewn i awdurdodau lleol, ac nad yw'n systematig, nac yn eang o reidrwydd. Roedd ymchwil gydag ALlau, ysgolion a phobl ifanc sydd wedi profi gofal oll yn dangos bod y dull o gefnogi pobl leol ar draws ardaloedd yn amrywio'n sylweddol. Er ein bod yn sylweddoli bod angen amrywio'n lleol weithiau i ymdrin ag anghenion lleol a rhanbarthol, mae hyn hefyd yn peryglu addysg plant sy'n derbyn gofal.

**Y Prif Ganfyddiadau**

5.2 Prif effaith amrywio lleol yw bod y cymorth a gynigir i blant sy'n derbyn gofal yn amrywio yn dibynnu lle maent yn byw ar unrhyw bryd. Disgrifiwyd hyn gan un pennaeth fel 'loteri cod post', gan ddweud bod yr ardal lle bydd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli yn gallu cael effaith sylweddol ar eu deilliannau a'u profiad o addysg. Ac ystyried bod plant sy'n derbyn gofal eisoes yn wynebu heriau sylweddol o ran cyrhaeddiad addysgol, ni ddylai fod yn dderbyniol iddynt brofi anghydraddoldeb ychwanegol o ran y cymorth y maent yn ei dderbyn, ar sail eu lleoliad daearyddol. Yn yr un modd, ceir lefel uchel o symudedd ymhlith y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal (sy'n cynnwys symud i mewn ac allan o Gymru), a bydd gan lawer brofiad uniongyrchol o wahaniaethau o ran strwythurau a dulliau wrth iddynt symud i ardaloedd newydd. Mae plant sy'n derbyn gofal eisoes yn wynebu cryn ansicrwydd yn eu bywydau, a gellid dadlau y dylid ymroi'n weithredol i osgoi ychwanegu unrhyw ansicrwydd ac anghysondeb pellach yn y strwythurau sydd ar waith i gefnogi eu haddysg.

5.3 Ail effaith sylweddol amrywio lleol yw bod gweithwyr proffesiynol - y mae angen iddynt ymgysylltu'n rheolaidd â chydweithwyr mewn ALlau eraill - yn gorfod ymdopi â systemau gwahanol ac, i raddau, gweithredu o fewn y systemau hynny. Yn y gwaith ymchwil hwn, adroddodd llawer o ALlau ac

ysgolion y byddai mwy o gysondeb a, lle bo'n berthnasol, safoni, yn gwneud eu gwaith yn rhwyddach ac yn llawer mwy effeithlon.

5.4 Dyma rai o'r heriau eraill a nodwyd:

- **Bod y graddau y mae ALlau yn dal llais y plentyn** yn amrywio'n sylweddol. Prin iawn oedd ymgysylltiad uniongyrchol rhai timau LACE â phlant sy'n derbyn gofal, ac roedd hynny'n amharu ar eu gallu i gasglu gwybodaeth am anghenion a dymuniadau'r plant.
- **Prin oedd yr enghreifftiau o ddathlu cyflawniadau plant sy'n derbyn gofal ar raddfa'r ALl**. Nid yw pob plentyn am gael ei adnabod fel plentyn sy'n derbyn gofal, felly gall dathlu cyflawniadau fod yn ffordd werthfawr o ymgysylltu â phobl ifanc a chasglu adborth.
- **Gwelwyd bod mesurau deilliannau yn rhy gyfyngedig,** gan ganolbwyntio'n bennaf ar gyrhaeddiad academaidd. Anaml yr oedd ALlau yn defnyddio mesurau llesiant, ac nid oes unrhyw ddull safonedig o fesur llesiant wedi'i gytuno ar hyn o bryd, gan olygu ei bod hi'n amhosib mesur deilliannau'n fanwl Nododd yr ymchwil hefyd fod angen dull safonedig o gasglu data tymor hwy - data ar addysg ôl-orfodol ac ôl-18 yn benodol, pan fydd plant sy'n derbyn gofal yn gadael y system.
- **Heriau o ran systemau data,** gan gynnwys trosglwyddo data rhwng timau addysg a Gwasanaethau Plant a'r anhawster a wynebir gan dimau LACE wrth geisio casglu data ar ddeilliannau plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i ardal
- Bod **strwythurau tîm yn amrywio'n** sylweddol, gan gynnwys rôl Cydgysylltwyr LACE a lefel eu swydd, a'r ffaith **na cheir unrhyw ddull cyson o gyllido** timau LACE.

5.5 Mae'r adran hon yn disgrifio'n fanylach feysydd anghysondeb allweddol mewn strwythurau ac ymarfer o fewn ac ar draws awdurdodau lleol, a beth mae hyn yn ei olygu i addysg plant sy'n derbyn gofal.

**Llais y plentyn**

5.6 Fel y trafodwyd yn gynharach, mae'n ddyletswydd ar ALlau i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae ALlau yn dal anghenion a dymuniadau plant sy'n derbyn gofal yn amrywio'n sylweddol. Ychydig iawn o ymgysylltiad uniongyrchol yr oedd rhai o'r timau LACE a gafodd eu cyfweld wedi'i gael â phlant sy'n derbyn gofal, felly roeddent yn teimlo nad oeddent yn gallu casglu eu hadborth yn effeithiol. Mewn ardaloedd eraill, rôl y gweithiwr cymdeithasol a swyddogion adolygu annibynnol, yn hytrach na'r timau LACE, oedd ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal.

5.7 Roedd yr ysgolion y buom yn cyfweld â hwy'n aml yn teimlo bod ganddynt fecanweithiau cymharol dda i ddal llais y plentyn a chynnig cymorth wedi'i deilwra, ond nid oedd yr ALl yn ymwneud rhyw lawer â'r prosesau hyn. Yn aml, Cynlluniau Addysg Personol (CAPau) yw'r prif ddull o gynnwys plant sy'n derbyn ofal, ond nid oedd ysgolion yn teimlo bod proses y CAP yn effeithiol iawn. Dywedodd rhai ysgolion y byddent yn cynnal sawl trafodaeth fwy anffurfiol â phlant sy'n derbyn gofal, ac yn bwydo canlyniadau'r trafodaethau hyn i'r CAP, ond nad oedd y CAP ei hun wedi'i ddylunio i fod yn ystyriol o'r plentyn. Roedd yr adborth gan bobl ifanc sydd wedi profi gofal yn cefnogi hyn: roedd rhai'n teimlo bod adolygiadau CAP yn cael eu "hysgogi gan broses", a'u bod yn anhyblyg i fodloni eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Yn fwy cyffredinol, teimlai ysgolion nad oedd cymorth i blant sy'n derbyn gofal yn ymddangos fel pe bai wedi'i drefnu o amgylch anghenion plant, ond yn hytrach o amgylch strwythurau a phrosesau presennol yr awdurdod lleol. Byddai disgwyliad cyson i ALlau ddal llais plant sy'n derbyn gofal yn ei dro'n galluogi ALlau i lunio'r ddarpariaeth o amgylch anghenion pobl ifanc.

**Dathlu cyflawniad**

5.8 Prin oedd yr enghreifftiau yn yr ymchwil o ddathlu cyflawniadau plant sy'n derbyn gofal ar raddfa'r ALl. Roedd yr ychydig enghreifftiau yn cynnwys seremoni wobrwyo ddwyflynyddol a digwyddiadau ar y cyd â rhieni maeth a'r ysgolion. Roedd dathlu cyflawniad yn fwy cyffredin ar raddfa'r ysgol. Nid

oedd yr holl blant sy'n derbyn gofal am gael eu hadnabod felly, fel y dywedodd y bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal y buom yn cyfweld â nhw; roeddent yn teimlo bod cydnabyddiaeth gyhoeddus o'u llwyddiant yn pwysleisio'r gwahaniaeth o ran statws rhyngddynt a phlant eraill. Er hynny, gall dathlu cyflawniad hefyd fod yn ffordd werthfawr o gynnwys pobl ifanc a chasglu eu hadborth.

5.9 Cyfeiriodd y bobl ifanc y buom yn siarad â nhw at enghreifftiau cadarnhaol lle cynhaliodd eu hysgol ddigwyddiadau neu deithiau i ddathlu eu cyflawniad, ac roeddent yn teimlo bod y rhain wedi'u hysgogi. Roedd pobl ifanc ac arweinwyr ysgol hefyd yn siarad yn aml ynghylch y stigma sy'n gysylltiedig â bod yn y system ofal, a chanfyddiad na fyddant yn llwyddo'n academaidd, nac mewn ffyrdd eraill. Roedd Cydgysylltwyr LACE yn teimlo y gallai gweledigaeth fwy cydgysylltiedig er mwyn dathlu cyflawniad ledled Cymru helpu i oresgyn safbwyntiau o'r fath a chodi disgwyliadau ymhlith pobl ifanc, arweinwyr ysgol a gweithwyr proffesiynol o'r awdurdod lleol.

**Ymyraethau wedi'u teilwra i gefnogi deilliannau plant sy'n derbyn gofal**

5.10 Ar hyn o bryd mae ALlau yn casglu ystod o ddata ar ddeilliannau a dangosyddion cyd-destunol ar gyfer plant syn derbyn gofal y gellir eu rhannu i dri chategori: addysg, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae'r union ddangosyddion a'r dulliau o gasglu data ar y deilliannau hyn yn amrywio'n helaeth yn ôl ardal, yn dibynnu ar adnoddau lleol ac ar sgiliau ac arferion mewn awdurdodau unigol. Fodd bynnag, mae rhai themâu cyffredin yn codi yn gysylltiedig â chyfyngiadau'r dull cyfredol.

5.11 Ar adeg yr ymchwil, roedd y deilliannau addysg a oedd yn cael eu monitro fel arfer yn cynnwys cyrhaeddiad yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4, ac yn cae eu mesur drwy asesu sgiliau darllen, ysgrifennu a mathemateg plant, a chanlyniadau arholiadau cenedlaethol[2]. Mae'r ffactorau a gaiff eu cynnwys

[2]Mae'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu ar gyfer addysg orfodol yng Nghymru yn cynnwys newidiadau i'r dull o asesi cynnydd disgyblion. Mae'r dull newydd yn cael gwared â chyfnodau allweddol ac asesiadau crynodol, ac yn cyflwyno system newydd lle bydd gan athrawon rywfaint o annibyniaeth wrth asesu cynnydd dysgwyr. Oherwydd y pandemig, llaciwyd y gofyniad i ysgolion gynnal ac adrodd ar asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn 2020, a oedd ynghynt na 2022 fel y cynlluniwyd yn wreiddiol.

fel arfer wrth ddadansoddi cyrhaeddiad addysgol yn cynnwys statws plant o ran prydau ysgol am ddim, ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae sgiliau Cymraeg hefyd yn berthnasol, oherwydd disgwylir i bob plentyn gyrraedd safonau penodol, ac mae ganddynt hawl i fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg os ydynt yn dymuno.

5.12 Un o wendidau'r deilliannau addysg a gesglir fel arfer yw'r ffaith eu bod yn creu darlun un dimensiwn o ddeilliannau, ac mae'n bosibl nad dyma'r dangosyddion cynnydd mwyaf perthnasol. Ychydig o bwyslais a welwyd yn yr ymchwil - yr ymchwil uniongyrchol a'r ymchwil desg - ar drefniadau cyson i gasglu a monitro deilliannau addysg ehangach Un o'r gwendidau eraill yw'r ffaith nad yw'r rhan fwyaf o ddeilliannau ond yn cael eu mesur hyd at 16 neu 18 oed, yn dibynnu ar yr ALl, sy'n golygu bod cyfnodau pontio allweddol a deilliannau hirdymor yn cael eu colli. Ni ddaeth yr ymchwil o hyd i unrhyw fecanwaith awtomatig mewn ALlau nac ysgolion i olrhain plant sy'n derbyn gofal nac i baru data ar ôl iddynt adael gofal.

5.13 Fel mater o drefn, bydd timau'r Gwasanaethau Plant yn mesur ac yn monitro gwybodaeth a deilliannau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal: trefniadau byw, iechyd, ymgysylltiad addysgol a sefydlogrwydd lleoliad. Bydd deilliannau gofal cymdeithasol hefyd yn cynnwys cyfraddau camddefnyddio sylweddau a throseddu.

5.14 Mae llesiant yn derm eang sy'n cyfeirio at gyflwr corfforol, emosiynol a meddyliol yr unigolyn. Bydd ysgolion Cymru yn mabwysiadu gwahanol ddulliau o fesur llesiant, gan gynnwys:

- Holiadur Cryfderau a Gwendidau, sy'n casglu safbwyntiau'r plentyn a'r gofalwr ynghylch amrywiaeth o gwestiynau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.
- Proffil Boxall, sy'n olrhain nodweddion ymddygiad plant yn yr ysgol,
- Graddfeydd Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin, sy'n mesur llesiant meddyliol y boblogaeth yn gyffredinol

- Arolwg PERMAH sy'n mesur presenoldeb emosiwn cadarnhaol, ymgysylltiad, perthnasoedd, ystyr, cyflawniad ac iechyd, fel dangosyddion llesiant.

5.15 Canfu'r ymchwil nad oedd deilliannau llesiant yn bresennol, neu eu bod yn amrywio ar draws ALlau - nad oeddent yn cael eu casglu'n gyson gan ysgolion na'u cofnodi mewn setiau data y gellir eu cyrchu a'u cyfuno. Ar hyn o bryd, nid oes cytundeb ynghylch dull safonedig o fesur llesiant. Maen amhosib mesur deilliannau'n drylwyr heb ddull safonedig.

5.16 Mae adroddiad Syr Alasdair yn gwneud argymhelliad clir i: “ehangu’r metrigau a ddefnyddir i fesur deilliannau ar gyfer pob disgybl ond yn benodol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac yn enwedig yn 16 a 18 oed." Nododd yr ymchwil hon dair ystyriaeth allweddol ar gyfer cyfres ehangach o fesurau deilliant: cyrhaeddiad, dilyniant a manylder; llesiant; a phontio ôl-16.

*Cyrhaeddiad, dilyniant a manylder*

5.17 Anogir Arolygwyr o arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, Estyn, i werthuso tueddiadau ym mherfformiad cyffredinol ysgolion, mewn perthynas â meincnodau cenedlaethol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau nad oedd cyrhaeddiad, fel y prif ddull gwerthuso, yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gall hyd yn oed fod yn niweidiol, oherwydd y bwlch y mae fel arfer yn ei ddatgelu o gymharu â chyfoedion, a gall arwain at ymdeimlad o fethiant. Roedd rhai o gyfranogwyr yr ymchwil yn cyfeirio at y dull hwn fel 'obsesiwn â TGAU'. Roedd eraill yn ei feirniadu oherwydd ystyriaeth ei fod yn annog ysgolion i beidio derbyn plant sy'n derbyn gofal, oherwydd pryderon ynghylch canlyniadau arolwg a dangosyddion perfformiad.

5.18 Byddai cyfres fwy datblygiadol o ddangosyddion cynnydd addysgol felly'n ddymunol, fel y nodwyd gan Syr Alasdair a chan gyfranogwyr ar lefel strategol a lefel weithredol yn yr ymchwil. Yn ogystal â deilliannau cyrhaeddiad safonol, byddai'r gallu i fesur y cynnydd a gafwyd ers yr adeg pan dderbyniwyd y disgybl i'r system ofal yn fesuriad gwell o effeithiolrwydd y cymorth, ac yn cynnig mwy o gyfle i ddathlu cyflawniad plant sy'n derbyn gofal.

5.19 Ceir awydd hefyd am ddata manylach nag a geir ar hyn o bryd, er mwyn cael dealltwriaeth wirioneddol o'r ystod o ffactorau sy'n effeithio ar gyrhaeddiad, ee, sefydlogrwydd lleoliadau, oedran wrth dderbyn i'r system a dangosyddion llesiant amrywiol. Canfu'r ymchwil fod y Consortiwm Cenedlaethol ar gyfer Canlyniadau Arholiad (NCER) yn cynhyrchu data manylach ar gyrhaeddiad plant yn Lloegr na'r hyn a geir yng Nghymru. Mae hyn yn galluogi unrhyw ddadansoddiad i reoli anghenion ychwanegol, fel ADY neu Brydau Ysgol am Ddim (yn lle cymhariaeth uniongyrchol rhwng plant sy'n derbyn gofal a gweddill y cohort), ac mae hynny'n lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Gall ehangu'r metrigau a ddefnyddir er mwyn cymharu plant sy'n derbyn gofal â gweddill y cohort hefyd gynnig dull mwy realistig o fesur ymgysylltiad ag addysg. Er enghraifft, yn lle cymharu canlyniadau TGAU rhwng A*-C ac A*-E, byddai'n dal plant sy'n derbyn gofal a oedd yn ymgysylltu ag addysg ond heb gyrraedd y mesur safonol o lwyddiant.

5.20 Ystyriai rhanddeiliaid strategol fod cynnydd yn y pwyslais ar y dull datblygiadol a manwl o fesur deilliannau yn gam sylweddol ymlaen mewn ymarfer cyfredol. Yn ogystal â chreu darlun cywirach o gyrhaeddiad addysgol, byddai'r math hwn o ddata yn helpu timau LACE i werthuso effaith ymyraethau o ran y 'gwerth a ychwanegwyd'. Mae'r data sydd ei angen er mwyn sicrhau'r lefel hon o fanylder eisoes wedi'u cynnwys mewn ffurflenni statudol amrywiol. I'r rhan fwyaf o ALlau nid yw hyn felly'n golygu casglu llawer o ddata newydd. Yn hytrach, mae'n golygu coladu a pharu data sy'n bodoli eisoes ar blant sy'n derbyn gofal ar draws y gwahanol gronfeydd data, a datblygu llwyfan sy'n galluogi defnyddwyr i gynnal dadansoddiadau sylfaenol.

*Llesiant*

5.21 Canfu'r ymchwil fod pawb yn weddol gytûn ynghylch pwysigrwydd dangosyddion mesur llesiant, ond nad oedd cytundeb ynghylch beth ddylai hynny ei olygu. Yn ôl Cydgysylltwyr LACE, yr hyn sydd bwysicaf fodd bynnag yw'r angen i gymhwyso unrhyw ddangosydd a ddefnyddir i fesur llesiant i'r holl gohort o ddisgyblion, nid i blant sy'n derbyn gofal yn unig. Drwy wneud hynny, bydd y dangosydd yn troi'n fesuriad safono, cyffredinol

na fyddai'n gwarthnodi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Byddai'n dda cyflwyno mesurau llesiant newydd i holl ddisgyblion Cymru i gyd-fynd â chyflwyno cwricwlwm newydd Cymru ym mis Hydref 2022.

5.22 Yn gysylltiedig â llesiant, cafwyd galw am ddull mwy cyfannol o fesur deilliannau. Mae hyn yn rhannol i gydnabod y ffaith y bydd deilliannau addysg bron bob amser yn datgelu bwlch mewn cyrhaeddiad, ond hefyd oherwydd y gred nad cyrhaeddiad addysgol yw'r unig ddull perthnasol o fesur llwyddiant. Er enghraifft, gallai metrigau 'meddal' fel gwytnwch a sefydlogrwydd emosiynol, a sgiliau cymdeithasol fod yn fwy ystyrlon i blant sy'n derbyn gofal.

*Ôl-16 a threfniadau olrhain hirdymor*

5.23 Nodwyd deilliannau addysg a chyflogaeth ôl-16 yn faes pwysig nad oes unrhyw ddull cyson ar hyn o bryd o fesur a chasglu data ar eu cyfer. Dengys tueddiadau fod plant sy'n derbyn gofal yn aml yn dychwelyd i AB ac AU pan fyddant yn hŷn na'r boblogaeth gyffredinol, ar ôl cael mwy o sefydlogrwydd yn eu bywyd. O beidio cael dull olrhain deilliannau tymor hwy, mae peryg inni felly golli eu cynnydd a'u cyflawniadau yn 18 a 21 oed, ac ar ôl hynny.

5.24 Mae rhanddeiliaid yn dymuno cael data tymor hir a threfniadau olrhain gwell dros gyfnodau pontio allweddol - yn benodol, ar ôl addysg ac ar ôl troi'n 18 pan fydd plant sy'n derbyn gofal yn gadael y system. Hoffai ALlau gael trefniadau gwell i olrhain cyrchfannau plant sy'n derbyn gofal ar ôl iddynt droi'n oedolion. Ystyrir bod data hirdymor (hy,5-10 mlynedd ar ôl troi'n 18) ar ddeilliannau cymdeithasol, fel y gallu i ddal swydd a chynnal perthnasoedd iach, yn allweddol er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r cymorth a roddir yn y pen draw. Roedd teimlad bod gwaith werthuso ymyraethau a pholisi yn rhy aml yn seiliedig ar y data sydd ar gael yn rhwydd ar y pryd.

**Integreiddio o fewn awdurdodau lleol**

5.25 Fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol ar arfer da, mae rhai ALlau wedi cymryd camau sylweddol i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u hintegreiddio'n sylfaenol yn y rhan fwyaf o ardaloedd ac mae

trefniadau i gydweithio a phrosesau effeithiol i raddau helaeth yn ddibynnol ar y graddau y bydd unigolion yn meithrin perthnasoedd â chydweithwyr mewn timau neu wasanaethau eraill. Roedd y rhai y buom yn siarad â nhw yn siarad yn gadarnhaol iawn ynghylch eu perthnasoedd â chydweithwyr mewn gwasanaethau cyfatebol, ond yn aml yn nodi ei bod hi wedi cymryd amser hir i ffurfio a meithrin y perthnasoedd hynny. Roedd enghreifftiau hefyd lle'r oedd perthnasoedd gwaith cryf ar rai lefelau darparu gwasanaeth, ond lle nad oedd perthnasoedd o'r fath ar lefelau eraill. Mae angen dull mwy cyson ar raddfa genedlaethol, sydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r dyfodol ac yn llai dibynnol ar berthnasoedd unigol.

5.26 Roedd arweinwyr ysgolion yn ymwybodol o'r diffyg integreiddio, ac yn gweld gwaith yn cael ei ail-wneud rhwng y naill wasanaeth a'r llall, gyda llinellau cyfathrebu, cyfarfodydd ac ymarferion casglu gwybodaeth ar wahân yn trafod agweddau tebyg. Roeddent hefyd yn teimlo bod llinellau atebolrwydd yn aneglur. Yn lle hynny, gofynnodd arweinwyr ysgol am gael creu system yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc, yn hytrach na gwasgu cymorth i blant sy'n derbyn gofal i strwythurau gwasanaeth presennol. Teimlent y byddai dull mwy integredig yn fwy effeithlon ac effeithiol ac yn arwain at ddarpariaeth well i blant sy'n derbyn gofal. Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd y dylid darparu hyfforddiant mewn ffordd fwy integredig a chyfannol, gyda mwyafrif yr hyfforddiant ar gael i'r rheini sy'n gweithio mewn adrannau Gofal Cymdeithasol ac Addysg, a'r rheini sy'n gweithio mewn ysgolion a, lle bo hynny'n berthnasol, i ofalwyr a rhieni maeth.

**Plant sy'n derbyn gofal wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal**

5.27 Bydd ALl yn gyfrifol yn gyfreithiol am y plant y maent wedi cychwyn achos gofal cyfreithiol ar eu cyfer, ond mae'n bosibl y bydd y plant hyn yn byw ac yn mynychu ysgol y tu allan i'r ALl hwnnw. Fel y soniwyd yn flaenorol, ceir lefel uchel o symudedd ymhlith plant sy'n derbyn gofal, ac mae hynny'n creu heriau neilltuol i dimau LACE y mae'n rhaid iddynt ymateb i anghenion addysgol plentyn ifanc sydd wedi'i leoli yn yr ALl. Canfu'r gwaith ymchwil hwn fod y diffyg cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol yn ei gwneud hi'n anodd i dimau LACE allu cael gwybodaeth fanwl gywir am blant neu bobl ifanc sydd

wedi cael eu lleoli yn eu hardal gan awdurdod lleol arall. Ar gyfer plant sydd wedi profi gofal a leolir yng Nghymru o awdurdodau o du hwnt i'r ffin, dylai trafodaethau a phrosesau penderfynu fod yn rhwyddach ac yn fwy effeithiol. Dylai'r adnoddau gyd-fynd â'r plentyn a gall gwaith cynllunio fod yn gyfan gwbl seiliedig ar wybodaeth flaenorol.

5.28 Mae'r sefyllfa'n troi'n fwyfwy heriol os bydd lleoliad gofal yn cael ei bennu heb ymgynghori â'r tîm Addysg yn yr ardal dan sylw, a lle bo angen darpariaeth addysgol arbenigol ar y plentyn sy'n derbyn gofal. Ymhlith yr enghreifftiau ceir unigolyn ifanc Cymraeg ei iaith a symudwyd allan o'r sir, ac nad oedd yn gallu derbyn addysg yn Gymraeg oherwydd diffyg ymgynghori â'r tîm LACE yn yr awdurdod lleol a greodd y lleoliad. Teimlai Cydgysylltwyr LACE nad oedd symud plentyn i 'gartref' newydd cyn ceisio lleoliad addysg yn arfer effeithiol. Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol, mae'n rhaid wrth gyd-gynllunio er mwyn sicrhau integreiddio cryf rhwng gwasanaethau, fe bo modd cael lleoliad gofal a lleoliad addysg ar yr un pryd. Pan fydd angen lleoliad gofal brys, dylai cynnal y lleoliad addysg er cysondeb a sefydlogrwydd fod ymhlith y prif ystyriaethau.

5.29 Mater ar wahân, ond cysylltiedig, a nodwyd yn y cyfweliadau oedd bod plant sy'n derbyn gofal weithiau'n cael eu 'lleoli' ymhell oddi wrth eu teuluoedd genedigol. Ceir cydnabyddiaeth gynyddol ymhlith ALlau nad yw hyn yn ddymunol, a thrwy'r ymchwil gwelwyd enghraifft o un ALl a oedd wedi ymrwymo i ddod â chynifer o blant sy'n derbyn gofal 'y tu allan i'r sir' ag sy'n bosibl yn ôl i'w cymuned.

**Systemau data a monitro perfformiad**

5.30 Roedd awdurdodau lleol yn tynnu sylw at y diffyg integreiddio mewn systemau data fel un o'r prif heriau'n gysylltiedig â chefnogi plant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhan fwyaf o ALlau yn defnyddio dwy system rheoli gwybodaeth; y naill ar gyfer Gwasanaethau Plant, a'r llall ar gyfer addysg (a ddefnyddir gan dimau LACE ac ysgolion). Mae gan rai hyd yn oed fwy o systemau, er enghraifft system ar wahân ar gyfer ADY neu wybodaeth am grwpiau sy'n agored i niwed. Anaml y bydd systemau Gwasanaethau Plant ac Addysg o fewn ALl wedi'u hintegreiddio. Mae'r gallu i fonitro a chyrchu data ar blant

unigol yn aml yn seiliedig ar berthnasoedd personol â phorthgeidwaid data neu ddarparwyr gwasanaeth.

*Mynediad*

5.31 Bydd timau addysg fel arfer yn defnyddio Capita One neu TeacherCentre (ac eithrio un ALl sy'n defnyddio Tribal), a gellir integreiddio'r naill neu'r llall â system Capita SIMS a ddefnyddir fel arfer mewn ysgolion, fel bod y data a fewnbynnir gan ysgolion yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle nad yw hyn yn wir. Er enghraifft, roedd yn rhaid i ALl fynd ati â chaib a rhaw i gyfuno data ysgolion i'w system timau LACE, ac mae ALl arall yn cynhyrchu adroddiad o'i system gofal cymdeithasol, cyn i swyddog TG wirio hyn fesul cofnod yn erbyn data addysg yr ALl er mwyn llunio adroddiad cymharol cyfredol. Mae'r lefel hon o fewnbwn yn cyfyngu ar fynediad timau LACE at bresenoldeb byw, ac at ddata ar gynnydd a chyrhaeddiad.

5.32 Bydd timau Gwasanaethau Plant fel arfer yn defnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) neu CareFirst, ac mae rhai ALlau hefyd yn cyfeirio at enghreifftiau o systemau llai cyffredin, fel Paris. Roedd rhwyddineb cyrchu data gofal cymdeithasol ymhlith Cydgysylltwyr LACE ac aelodau'r tîm Addysg yn amrywio'n sylweddol. Ar y gorau, mae timau LACE nad ydynt wedi'u lleoli yn y Gwasanaethau Plant wedi negodi cytundebau i gael mynediad darllen yn unig at ddata'r Gwasanaethau Plant pryd bynnag y bo angen. Yn fwy aml, bydd timau LACE yn gofyn am ddata penodol oddi wrth gydweithwyr y Gwasanaethau Plant, a rhai o' timau hynny'n ei chael hi'n anodd derbyn yr wybodaeth hon yn brydlon.

5.33 Ceir gwahaniaethau hefyd wrth ddiffinio'r mathau o ddata, ac wrth fformadu data ar draws y gwahanol systemau, gan olygu bod yn rhaid i arweinydd data'r ALl neu Gydgysylltydd y LACE dreulio amser yn prosesu data. Canlyniad hyn yw bod ALlau yn ysgwyddo mwy o gostau ac amser wrth i weithwyr TG neu weinyddol echdynnu data fesul dipyn o systemau timau LACE, ysgolion a Gwasanaethau Plant i gynhyrchu taenlenni ad hoc o ddata perthnasol, yn fisol fel arfer.

5.34 Mae casglu data ar ddeilliannau plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r sir yn broblem neilltuol i dimau LACE. Byddai llawer o weithwyr proffesiynol yn datblygu eu taenlenni eu hunain i olrhain deilliannau plant a leolir y tu allan i ardal yr awdurdod lleol. Fel rheol, roedd data fel arfer yn cael eu casglu a'u cofnodi â llaw drwy sgyrsiau â chydweithwyr mewn ALlau.

*Capasiti*

5.35 Nododd ALlau hefyd fod prinder adnoddau i gynnal dadansoddiadau priodol a chynllunio'n strategol mewn ymateb i'r data yr oeddent yn eu casglu. Er bod cefnogaeth gyffredinol o blaid y diffiniadau ehangach o gyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, roedd rhywfaint o bryder ynghylch yr angen i gael digon o adnoddau i ddefnyddio'r data a chynllunio'n strategol mewn ymateb i hynny.

**Anghysondeb ar draws awdurdodau lleol**

5.36 Nododd yr ymchwil hefyd broblemau'n gysylltiedig â'r strwythur cymorth cyfredol ar gyfer addysg i blant sy'n derbyn gofal (sy'n deillio i raddau helaeth o arferion amrywiol ar raddfa ALlau). Dylid mynd i'r afael â hyn mewn dull integredig i Gymru ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys Cynlluniau Addysg Personol, rôl Cydgysylltwyr LACE ac, yn gysylltiedig â'r rôl honno, bwlch atebolrwydd ar lefel strategol.

*Cynlluniau addysg bersonol*

5.37 Mae CAPau yn fecanwaith pwysig er mwyn olrhain cynnydd plentyn sy'n derbyn gofal, ac ar hyn o bryd dyma'r prif fecanwaith er mwyn cynnwys llais plant sy'n derbyn gofal wrth gynllunio eu haddysg eu hunain. Roedd yr amrywiaeth enfawr yn y dull o gynnal CAPau ledled Cymru yn achosi cryn anhawster. Mae gan bob awdurdod lleol ei fersiwn ei hun o'r CAP, ac mae'n amrywio o ran ei ffurf a'i hyd.

5.38 Canmolwyd yr enghreifftiau gorau o CAPau am hwyluso trafodaethau â phlant sy'n derbyn gofal, ac am gynnig cyfle i ddathlu cyflawniadau a nodwyd yn y CAP. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod CAPau yn bodoli ar amryw o ffurfiau yn creu llwyth gwaith ychwanegol i ysgolion (sydd yn aml yn gorfod cwblhau amryw o fersiynau gwahanol), ac yn amharu ar y gallu i

drosglwyddo gwybodaeth yn gyflym wrth symud o'r naill leoliad i'r llall. Ar ben hynny, nid oedd ysgolion na CEYP yn yr ymchwil bob amser yn deall yn glir beth oedd pwrpas CAP, ac nid oes eglurder na chysondeb chwaith o ran pwy sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y CAP na'i gymeradwyo. I rai ysgolion, roedd y CAP yn cael ei ystyried yn ffurflen yr oedd yn rhaid ei llenwi nad oedd yn ychwanegu rhyw lawer o werth, ac nad oedd yn blentyn-ganolog, nac yn canolbwyntio ar ddal llais y plentyn.

5.39 Gan gydnabod na fyddai'r CAP ar ei ben ei hun yn gwella deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal, cytunai llawer o gyfranogwyr yr ymchwil fod angen gwella CAPau. Roedd rhai o'r camau y gallai ALlau eu cymryd ar unwaith yn cynnwys trosi CAPau papur yn fersiynau digidol ac, i gyd-fynd â'r newid hwnnw, hyfforddiant a chanllawiau newydd i'r holl ysgolion ar safonau cwblhau a monitro. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gosod safonau gofynnol ar gyfer cwblhau ac ansawdd CAPau, a phennu unigolyn o fewn yr ALl i fod yn gyfrifol am sicrhau eu ansawdd a'u cymeradwyo.

5.40 I gyd-fynd â'r gofyniad am safon ansawdd gofynnol, awgrymwyd y dylid rhoi cymorth a hyfforddiant ar CAPau i Arweinwyr Ysgol perthnasol ac Athrawon Dynodedig, er mwyn trafod gofynion addysg y cyfreithiau Gwasanaethau Cymdeithasol statudol ynghylch datblygu a chadw at y CAP. Drwy hyn gellid sicrhau bod adran addysg y CAPau yn cael ei llunio'n gywir ac mewn modd priodol i fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal, oherwydd mae'n bosibl nad yw'r Gwasanaethau Plant (sydd fel arfer yn eu cymeradwyo) bob amser yn gallu asesu'r agwedd honno'n effeithiol.

5.41 Dros y tymor hwy, canfu'r ymchwil gytundeb cyffredinol ar raddfa leol a rhanbarthol y byddai dull gweithredu ar gyfer CAPau sy'n gyson ar draws Cymru, ac sy'n rhoi'r prif sylw i'r plentyn, o fudd er mwyn integreiddio. Deallwn fod gwaith wedi cael ei gyflawni yn y gorffennol i geisio alinio CAPau ar draws ALlau, ond er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol, dylai'r gwaith hwn gael ei ysgogi/ariannu ar raddfa genedlaethol. Mae goblygiadau diwygio ADY, a'r gydnabyddiaeth eang bod angen alinio CAPau â CDUau (er budd plant sy'n derbyn gofal ac ymarferwyr) yn creu cyfle naturiol am

newid. Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, mae rhai ALlau eisoes yn gweithio ar hyn.

5.42 Awgrymwyd hefyd y dylai'r CAP/CDU cyfun hwn fod yn ddogfen fyw ar-lein. O sefydlu mesurau diogelu priodol ar gyfer GDPR, byddai system o'r fath yn golygu bod modd i addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol rannu, diweddaru a thrafod CAPau yn rhwydd, waeth a yw'r plentyn wedi'i leoli y tu allan i'r sir neu a yw wedi cael ei leoli mewn sawl ysgol.

*Rôl y Cydgysylltydd LACE*

5.43 Mae ymchwil wedi datgelu amrywio sylweddol yn rôl y Cydgysylltydd LACE ar draws ALlau, o ran gofynion a hefyd o ran rolau a chyfrifoldebau. Canlyniad hyn yw gwahaniaethau mewn darpariaeth gwasanaeth ar draws ardaloedd, gan olygu y bydd plant sy'n derbyn gofal yn canfod bod y dull o roi cymorth yn wahanol wrth iddynt symud o'r naill ALl i'r llall. Er bod gan Gydgysylltwyr LACE mewn rhai ardaloedd gyswllt uniongyrchol ag ysgolion a phlant sy'n derbyn gofal, a mathau eraill o gymorth ar y rheng flaen, mae eraill yn canolbwyntio mwy ar gydgysylltu darpariaeth ac heb ryw lawer o gyswllt, os o gwbl, â phobl ifanc. Ar ben hynny, ceir amrywiaeth o ran:

- ymgysylltiad uniongyrchol â CAPau, gan gynnwys sicrhau ansawdd a chymeradwyo CAPau.
- presenoldeb mewn CAP ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal,
- gwaith strategol i ddylanwadu ar bolisïau ac ymyraethau lleol er mwyn cefnogi cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal.

5.44 Mae'r hyfforddiant a gynigir i Gydgysylltwyr LACE hefyd yn amrywio, er enghraifft o ran maint yr hyfforddiant aml-asiantaeth sydd ar gael. Er bod gan rai fynediad at raglenni hyfforddiant gofal cymdeithasol, fel hyfforddiant ymlyniad neu waith cyfathrebu ar y cyd, nid oes gan eraill ryw lawer o fynediad, os o gwbl, at hyfforddiant trawsadrannol, ac mae hynny'n lledu'r bwlch mewn dealltwriaeth rhwng y gwasanaethau.

*Arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol*

5.45 Bwrdd/Panel Rhianta Corfforaethol yr ALl sydd yn bennaf gyfrifol am addysg plant sy'n derbyn gofal. Ar lefel swyddogol, y Cydgysylltydd LACE sy'n gyfrifol.

5.46 Ceir amrywio sylweddol o ran statws Cydgysylltwyr LACE. Ystyrir bod rhai ohonynt ar yr un lefel â phennaeth gwasanaeth, ac nad oes gan eraill ryw lawer o statws na grym mewn penderfyniadau strategol, fel polisïau ynghylch gwahardd a derbyn, na'r gallu i herio arferion ysgolion. Lle'r oedd Cydgysylltwyr LACE yn ymwneud â phenderfyniadau strategol, gallai hynny fod yn ychwanegol at elfennau mwy gweithredol eu rôl. Cefnogir llawer o Gydgysylltwyr LACE gan gydweithwyr lefel uwch, fel Pennaeth Cynhwysiant. Fodd bynnag, mae cylch gwaith y cydweithwyr hyn yn tueddu i fod yn ehangach na phlant sy'n derbyn gofal, felly gallant fod yn brin o gapasiti i ymdrin â materion yn fanwl neu'n brydlon. Dengys yr ymchwil fod 'bwlch atebolrwydd', yn nhermau ffocws penodol a strategol ar addysg plant sy'n derbyn gofal, rhwng rôl y Cydgysylltydd LACE a'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

5.47 Ym mwyafrif yr awdurdodau, cyflwynir adroddiad blynyddol i Fyrddau Rhianta Corfforaethol ar ddeilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal, wrth gyhoeddi canlyniadau arholiad. Ymddengys fod ffurf a manylder yr adroddiadau hyn yn amrywio, a chanlyniad hynny yw anghysondeb ar draws ALlau o ran lefel y craffu posibl gan aelodau etholedig - a'r graddau y bydd ALlau yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol. Mae rhywfaint o arfer da yn cael ei ddatblygu, gydag un ALl yn gweithio ar draws addysg, iechyd a thimau gofal cymdeithasol i greu dangosfwrdd Rhianta Corfforaethol. Mae arfer da mewn gwledydd eraill yn awgrymu y byddai Cymru yn elwa ar ddull mwy safonedig o adrodd ar draws ystod ehangach o fesurau deilliant (fel y trafodwyd uchod), ac yn ddelfrydol gyda manylion ymyraethau ac astudiaethau achos dienw er mwyn creu'r cyd-destun.

**Cydweithio ar draws rhanbarthau ac awdurdodau lleol**

5.48 Fel y trafodwyd mewn adran flaenorol, canfu'r ymchwil enghreifftiau prin o gydweithio ar draws awdurdodau lleol. Gall diffyg cydweithio ar draws ALlau ei gwneud hi'n anodd i dimau LACE ac ysgolion gyrchu gwybodaeth am blentyn sy'n cael ei leoli yn eu hardal o ALlau eraill, ac mae hynny'n amharu ar y gallu i roi cymorth prydlon. Nodwyd enghreifftiau yn yr ymchwil lle nad oedd timau LACE yn ymwybodol bod plentyn sy'n derbyn gofal wedi cael ei leoli yn eu hardal nes iddynt gael gwybod gan yr ysgol.

5.49 Mae Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cymru wedi cael ei sefydlu ar gyfer Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r rhan fwyaf o'r timau LACE yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp, a gynhelir bob tymor. Gellid ffurfioli rhywfaint ar y rhwydwaith hwn drwy greu cronfa ddata gyswllt gyfredol o arweinwyr strategol a gweithredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mhob ALl yng Nghymru. Gellid cydgysylltu hyn ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol.

5.50 Roedd rhai a ddisgrifiodd y modd yr oeddent wedi cydweithio â thimau LACE eraill yn siarad yn gadarnhaol iawn ynghylch hyn, ac yn teimlo ei fod yn gyfle gwerthfawr am ddatblygiad proffesiynol ac i rannu arfer gorau. Yn Lloegr a'r Alban ceir rhwydweithiau arfer da ar gyfer arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal. Yn yr adolygiad o ddeunydd darllen, nodwyd manteision bod yn rhan o rwydwaith o'r fath, gan gynnwys: cefnogaeth gan gymheiriaid a dull colegol o ddatrys problemau; arbed amser wrth gyflawni tasgau, gan beidio gorfod dechrau o'r dechrau wrth lunio dogfennau; a rhannu gwybodaeth am wahanol ddulliau a chanfod tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Bydd hyn yn rhyddhau amser i ganolbwyntio ar dasgau â blaenoriaeth sy'n effeithio ar blant a theuluoedd. Yn y ddwy wlad, mae'r rhwydwaith yn gweithio gyda'r llywodraeth sydd o gymorth i greu dolen adborth rhwng polisi ac arferion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r pontydd i welliant, a'r rhwystrau sy'n ei atal.

5.51 Mae'r graddau y bydd cydweithio a rhannu gwybodaeth yn cael ei hwyluso gan y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol hefyd yn amrywio. Mewn ymchwil flaenorol, canfuwyd nad oedd unrhyw fecanweithiau cyfathrebu ffurfiol er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng arweinwyr y Grant Datblygu

Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a thimau LACE yr ALlau[3]. Mewn un rhanbarth (o leiaf) canfu'r ymchwil fod yr arweinydd y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cwrdd â Chydgysylltwyr LACE yn fisol, ac ymddengys fod hyn gyda'r amlaf. Mae rhai timau LACE ac arweinwyr ysgol yn siarad yn gadarnhaol iawn ynghylch y cyfleoedd rhwydweithio a drefnir gan eu Consortiwm Addysg Rhanbarthol, tra bo eraill yn teimlo'n ansicr ynghylch rôl a diben y Consortiwm.

**Cyllido**

5.52 Ceir gwahanol ddulliau ledled Cymru yn nhermau cyllido timau LACE ac o ran defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

5.53 Caiff timau LACE eu hariannu'n uniongyrchol gan yr ALl yn bennaf, naill ai o'r gyllideb gofal cymdeithasol neu o'r gyllideb addysg, yn dibynnu ar leoliad y tîm LACE, ac mae ambell enghraifft lle caiff y tîm ei ariannu ar y cyd gan y ddwy adran. Gwelwyd enghreifftiau o rai rolau, fel uwch reolwyr neu gymorth arbenigol, a oedd yn cael eu hariannu drwy grantiau ar wahân, drwy'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu gyllid statudol yr ALl. Ceir amrywio hefyd o ran y graddau y mae gan dimau LACE fynediad at adnoddau a ariennir o rannau eraill o gyllideb yr ALl, fel seicoleg addysg.

5.54 Er 2015, mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi bod yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd ysgolion yn gwneud cais ar ffurf clystyrau i'r consortia rhanbarthol am gyllid, sy'n newid a gyflwynwyd er mwyn annog defnydd mwy strategol o gyllid. Ceir amrywio ar draws consortia rhanbarthol o ran y modd y caiff cyllid y PDG ei reoli. Er enghraifft, mae un Consortiwm Addysg Rhanbarthol yn neilltuo 10% o'r PDG a gaiff ei ddatganoli i awdurdodau lleol i'w wario gan Gydgysylltwyr LACE ar gymorth wedi'i gynllunio'n arbennig, ac yn dyrannu gweddill y cyllid yn uniongyrchol i'r ysgolion. Mewn Consortiwm arall, caiff cyllid ei ddirprwyo i'r ALlau i'w ddirprwyo ymhellach i'w clystyrau o ysgolion, gan gadw 10% yn ôl i gyflawni prosiectau a blaenoriaethau rhanbarthol. Mae un awdurdod lleol yn

[3] Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

gweithredu y tu allan i'r consortia rhanbarthol ac yn rheoli ceisiadau gan glystyrau o ysgolion ar raddfa leol yn lle hynny.

5.55 Mewn rhai ardaloedd, mae newid i roi cyllid y PDG yn uniongyrchol i ysgolion wedi creu gostyngiad yng nghyllideb graidd yr ALI, gan roi terfyn ar gyllideb ar gyfer rolau yn rhai o'r timau o Gydgysylltwyr LACE. Roedd hyn yn tueddu i olygu bod llai o gymorth uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal (ee, llai o 'fentoriaid dysgu'). Teimlai rhai awdurdodau lleol fod y consortia rhanbarthol yn creu haen ychwanegol rhwng y corff cyllido a'r ysgolion a'r bobl ifanc a oedd yn defnyddio'r arian, ac y byddai'r arian yn cael ei wario'n fwy effeithiol pe bai'n cael ei ddyfarnu gan yr awdurdod lleol.

5.56 Ceir amrywio hefyd o ran y dibenion y caiff ysgolion ddefnyddio cyllid y PDG plant sy'n derbyn gofal ar eu cyfer. Er bod rhai ardaloedd yn defnyddio'r cyllid i gyd bron iawn ar gyfer darpariaeth anuniongyrchol, sef hyfforddiant i staff addysgu a gweithwyr proffesiynol eraill yn bennaf, byddai eraill yn ei ddefnyddio ar gyfer cymysgedd o ddarpariaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys tiwtoriaid i ddisgyblion neu gyllid ar gyfer teithiau ysgol.

5.57 Roedd gwahaniaeth barn ymhlith rhanddeiliaid ynghylch effeithiolrwydd y model cyllido clystyrau o ysgolion. Er bod rhai'n mynegi barn gadarnhaol ynghylch y model ac yn teimlo ei fod yn annog defnydd mwy strategol o'r arian, roedd eraill yn fwy amheus. Er enghraifft, nodai rhai fod cymhellion da i'r dull clwstwr, ond nad oeddent yn teimlo bod ysgolion yn cydweithio'n strategol â'i gilydd mewn gwirionedd. Teimlai eraill fod y dull yn gweithio'n dda i ysgolion mwy a chanddynt niferoedd mwy o blant sy'n derbyn gofal, ond yn llai llwyddiannus mewn ysgolion llai ac ysgolion cynradd, lle'r oedd mwy o gyfyngu ar yr hyn y gellid ei gynnig i bobl ifanc yn yr ysgol. Serch hynny, mynegodd rhai ysgolion mwy rwystredigaeth gan nad oedd swm y cyllid yr oeddent yn ei dderbyn yn gymesur â nifer y plant sy'n derbyn gofal yn eu hysgol. Roeddent yn teimlo felly y dylai'r cyllid ddilyn y plentyn/unigolyn ifanc.

**Arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

5.58 Cynsail craidd addysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw y dylai'r penderfyniadau a wneir i gefnogi dysgu gael eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael ynghylch 'beth sy'n gweithio' mewn addysg yn hytrach nag ar 'chwiwiau' neu arferion sy'n bodoli ers tro. Drwy ddefnyddio tystiolaeth, gellir gwella arferion ysgolion ac, ymhen amser, deiliannau myfyrwyr. Er nad dyma oedd ffocws craidd y prosiect, ceisiai'r ymchwil holi'r cyfranogwyr sut roeddent yn defnyddio tystiolaeth bresennol ynghylch 'yr hyn sy'n gweithio' er mwyn gwella deilliannau addysg i blant sy'n derbyn gofal, a sut roedden nhw wedyn yn gwerthuso'r cymorth yr oedden nhw'n ei ddarparu.

5.59 Mae rhai ALlau yn adrodd am ymyraethau a ariennir drwy'r PDG i blant sy'n derbyn gofal, ond gwneir hynny'n aml yn nhermau nifer y plant neu'r staff sydd wedi defnyddio'r ymyraethau, yn hytrach na'r deilliannau y mae'r ymyraethau wedi cyfrannu atynt. Yn ddiau, mae'r enghreifftiau o gydweithredu lleol a rhanbarthol a nodwyd yn yr ymchwil yn gyfleoedd gwerthfawr i staff rannu profiadau a dysgu'r naill oddi wrth y llall yn anecdotaidd, ond nid ydynt yn cyfrannu rhyw lawer at y sylfaen dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd yr ymyraethau i blant sy'n derbyn gofal yn benodol. Tystiolaeth anecdotaidd a geir yn bennaf, er bod rhai ysgolion yn ymdrechu i ffurfioli hyn, er enghraifft drwy baru data TGAU ag adborth ar gynnydd gan athrawon pwnc.

5.60 Mae problemau a archwiliwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys systemau data a chyfyngiadau ar ddeilliannau a fesurir ar hyn o bryd, yn amharu ar yr ymdrechion hynny. Mewn rhai ALlau hefyd, mae poblogaeth y plant oed ysgol sy'n derbyn gofal yn gymharol fach, gan olygu bod cynnal dadansoddiad ystadegol o ddeilliannau yn heriol. Fodd bynnag, dylid seilio model cymorth integredig i'r dyfodol ar dystiolaeth gyffredin o'r hyn sy'n gweithio i sicrhau deilliannau addysgol i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys effeithiolrwydd ymyraethau ymhlith grwpiau penodol.

5.61 Mae'n bwysig nodi y dylai unrhyw ysgogiad tuag at arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth (gan gynnwys gwerthuso rhaglenni ac ymyraethau yn erbyn cyfres benodol o ddeilliannau) gael ei ystyried yn ffordd o sicrhau'r

deilliannau gorau posib i blant sy'n derbyn gofal. I ysgogi newid cadarnhaol, ni ddylid ei ystyried yn archwiliad nac yn ffordd o gymharu perfformiad y naill ardal a'r llall.

## 6. Barn ynghylch Ysgolion Rhithwir a'r Pennaeth Ysgol Rithwir

6.1 Yn yr adrannau blaenorol trafodwyd arfer da a'r heriau a brofir gan ALlau wrth gefnogi deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal. Roedd Syr Alasdair yn awgrymu: y dylai "pob Awdurdod Lleol yng Nghymru benodi Pennaeth Ysgol Rithwir a sefydlu Ysgolion Rhithwir".

6.2 Drwy'r gwaith ymchwil hwn, archwiliwyd safbwyntiau ynghylch yr argymhelliad hwn ymhlith ALlau a rhanddeiliaid, yn benodol sut y gellid teilwra ac addasu'r dull hwn i'r cyd-destun yng Nghymru.

**Y Prif Ganfyddiadau**

6.3 Roedd y farn gyffredinol ynghylch argymhelliad Syr Alasdair yn gymysg. Er bod rhai ALlau yn gryf o blaid gweithredu fersiwn Gymreig o ysgolion rhithwir, roedd eraill yn cwestiynu a fyddai'r model yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol o gymharu â'u system gyfredol ar gyfer gwella deilliannau plant sy'n derbyn gofal. Amlygir rhai o'r prif safbwyntiau isod:

- Roedd rhai'n teimlo bod cylch gwaith y Pennaeth Ysgolion Rhithwir yn wahanol i'r hyn yr oeddent eisoes yn ei ddarparu, ac eraill yn teimlo bod y rôl yn weddol debyg naill ai i rôl LACE neu i rôl eu rheolwr llinell uniongyrchol. Nid oedd rhai ALlau, a chanddynt eisoes berthnasoedd gwaith cryf a phrosesau cyffredin rhwng Gwasanaethau Addysg a Phlant, o'r farn y byddai'r model ysgol rithwir (VSM) yn ychwanegu gwerth pellach. Roedd yr ALlau lle'r oedd adrannau addysg a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio yn gweld tebygrwydd rhwng eu model hwy a model yr ysgolion rhithwir, ac o blaid model newydd penodol i Gymru, tebyg i'r VSM.
- Roedd rhai ALlau yn teimlo y gallai **mwy o gysondeb â model Lloegr a'r Alban** greu manteision gan y byddai'n golygu ei bod yn haws cydweithio ag awdurdodau lleol ar draws y ffin. Roedd eraill yn teimlo bod angen **mwy o gysondeb rhwng rolau Cydgysylltwyr LACE ar draws Cymru** waeth a fyddai model newydd yn cael ei weithredu ai peidio, er mwyn hwyluso cydweithio, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

- Un o **brif bryderon yr ALlau ynghylch gweithredu ysgolion rhithwir oedd cyllid**. Roeddent yn teimlo y byddai proses ad-drefnu a model newydd yn creu goblygiadau sylweddol o ran cost, ac yn holi o le y byddai'r cyllid yn dod ar gyfer hyn. Roedd amryw ohonynt yn teimlo nad oedd modd cyllido swydd lefel uwch ychwanegol fel Pennaeth Ysgol Rithwir drwy system gyllido gyfredol ALlau.
- Pryder arall ymhlith awdurdodau lleol oedd **y modd y byddai cyflwyno Pennaeth Ysgol Rithwir yn cyd-fynd â rôl y Cydgysylltydd LACE, ac a fyddai'n disodli'r rôl honno**. Roedd hyn yn rhannol gysylltiedig â'r pryder ynghylch y gyllideb a grybwyllwyd yn y paragraff blaenorol. Teimlwyd bod gan Cydgysylltwyr LACE gyfoeth o brofiad ac arbenigedd a bod staff ar lefel uwch yn amharod iawn i golli'r unigolion hyn. Yn fwy cyffredinol, teimlai rhai **na ddylid cyflwyno Pennaeth Ysgol Rithwir ar draul staff 'llawr gwlad' a chanddynt gyswllt rheolaidd â'r plant sy'n derbyn gofal eu hunain**. Mae'r pryderon hyn yn awgrymu bod angen egluro cwmpas a lefel rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir ymhellach.
- Dywedodd llawer o ALlau y byddent yn elwa ar fynediad gwell at **adnoddau arbenigol** i blant sy'n derbyn gofal, yn **enwedig mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS)**. Efallai y bydd/na fydd rhai rolau wedi'u cynnwys o fewn y tîm ysgol rithwir ei hun, ond byddai angen comisiynu'r cymorth hwn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

6.4 Ceir ymdriniaeth fanylach isod â'r safbwyntiau ynghylch y model ysgolion rhithiol a'r VSH, ynghyd â dadansoddiad o swydd-ddisgrifiadau cyfredol ar gyfer Pennaeth Ysgol Rithwir

**Gwerth ychwanegol y model ysgolion rhithwir**

6.5 Yn seiliedig ar yr ymchwil uniongyrchol a'r adolygiad o ddeunydd darllen a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, mae'n glir mai'r prif wahaniaeth rhwng y model cyfredol a'r ysgolion rhithwir yw lefel swydd a statws y Pennaeth Ysgol Rithwir. Er bod llawer o ALlau yn teimlo bod gan LACE berthynas dda

ag ysgolion, roedd eraill yn cydnabod y byddai rhywun mewn rôl uwch, â statws sy'n cyfateb i benaethiaid, mewn sefyllfa well i gynnal sgyrsiau heriol ag arweinwyr ysgol unigol, ar bynciau fel derbyniadau, gwaharddiadau a diffyg cynnydd ysgol ymhlith plant sy'n derbyn gofal.

6.6 Cydnabuwyd hefyd y byddai rôl uwch hefyd yn fuddiol *o fewn yr* ALl. Mynegodd LACE rwystredigaeth nad oedd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant bob amser yn ymgynghori â nhw'n brydlon ar faterion yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal - symud lleoliadau oedd yr enghraifft y cyfeiriwyd ati amlaf. Dywedodd Cydgysylltwyr LACE y gallai peidio cael gwybod cyn i blentyn neu unigolyn ifanc gael ei symud, ac felly peidio gallu sicrhau bod darpariaeth addysg briodol wedi'i threfnu, greu goblygiadau negyddol o ran deilliannau addysg a llesiant yr unigolyn ifanc. Ac ystyried natur hierarchaidd awdurdodau lleol, teimlwyd y byddai 'rolau cydradd' yn fodd i sicrhau bod ganddynt sedd wrth y bwrdd yn ystod trafodaethau pwysig ynghylch plant sy'n derbyn gofal, a'u bod wedi'u cynnwys ym mhob penderfyniad allweddol. Nododd rhai hefyd y byddai'r bobl ifanc eu hunain yn cydnabod statws uwch y Pennaeth Ysgol Rithwir, ac y byddai'n arwydd o fuddsoddiad yn eu haddysg a'u llesiant.

6.7 Mae gweithrediad VSM yn amrywio ar raddfa leol yn Lloegr a'r Alban, ac un o nodweddion y model yw ei hyblygrwydd i gyd-fynd â chyd-destunau lleol. Er hynny, byddai'r gyfres o egwyddorion a chyfrifoldebau cyffredin sy'n berthnasol i rôl Pennaeth Ysgol Rithwir (ar sail statudol yn Lloegr), o'i sefydlu yng Nghymru, yn fodd i sicrhau mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol ac ar draws ffiniau o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Roedd llawer yn cydnabod y byddai hyn yn gam cadarnhaol iawn o ran profiadau a deilliannau plant sy'n derbyn gofal, oherwydd byddai'r cymorth yn fwy cydweithredol a chydgysylltiedig, gyda lefelau goruchwylio gwell. Nodwyd bod hyn yn arbennig o fuddiol i blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal ac mewn lleoliadau annibynnol.

6.8 Un o'r prif wahaniaethau eraill yw'r gallu i gynllunio'n strategol. Roedd rhai ALlau yn mynegi'n glir nad oedd ganddynt y capasiti i gyflawni gwaith cynllunio strategol oherwydd diffyg adnoddau, ac roeddent yn brysur naill

ai'n mynychu cyfarfodydd neu'n ymgysylltu 'ar lawr gwlad' ag ysgolion a phobl ifanc. Tynnodd rhanddeiliaid hefyd sylw at y ffaith bod angen data o ansawdd uchel yn sail ar gyfer dull strategol, i ddangos pa ymyraethau sy'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol, a phwy sydd ar eu hennill. Nid oedd hyn ar gael o fewn y system gyfredol.

6.9 Mae'r hyn sy'n cyfateb i'r Pennaeth Ysgol Rithwir yn Lloegr a'r Alban yn rhan o rwydwaith o arfer da Nodwyd yn yr adolygiad o ddeunydd darllen fanteision bod yn rhan o rwydwaith o'r fath, gan nodi manteision fel: cefnogaeth gan gymheiriaid a dull colegol o ddatrys problemau; arbed amser wrth gyflawni tasgau, gan beidio gorfod dechrau o'r dechrau wrth lunio dogfennau; a rhannu gwybodaeth am wahanol ddulliau a chanfod tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Bydd hyn yn rhyddhau amser i ganolbwyntio ar dasgau â blaenoriaeth sy'n effeithio ar blant a theuluoedd. Yn y naill wlad a'r llall mae'r rhwydwaith yn cydweithio â'r llywodraeth, ac mae hynny o gymorth i greu dolen adborth rhwng polisi ac arferion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r pontydd i welliant, a'r rhwystrau sy'n ei atal.

**Terminoleg**

6.10 Tynnodd Syr Alasdair sylw at y modd y gellid newid yr ieithwedd a ddefnyddir o fewn y model ysgolion rhithwir, gan gynnwys y term 'ysgol rithwir' ei hun. Canfu'r ymchwil fod defnyddio'r term Ysgol Rithwir yn creu dryswch. Mewn rhai achosion, gall gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag addysg a gofal cymdeithasol gamddeall y term fel rhywun sy'n arwain 'dysgu ar-lein' i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn broblemus ac yn sefyllfa a waethygwyd gan bandemig Covid-19. Efallai fod hyn yn creu hyd yn oed mwy o ddryswch ymhlith gofalwyr maeth a'r gymuned ehangach.

6.11 Pan fydd plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu lleoli mewn awdurdod lleol yn Lloegr neu'r Alban, byddai'n fanteisiol i'r rhai sydd yn yr Ysgol Rithwir siarad yn uniongyrchol â rhywun sydd â theitl swydd a statws cyfarwydd, gan wneud penderfyniadau ar y cyd er budd pennaf y plentyn. Ar ôl pwyso a mesur, ymddengys fod yr achos o blaid defnyddio'r termau Pennaeth Ysgol Rithwir ac Ysgol Rithwir yn gryfach na pheidio â'u defnyddio. Pe bai term arall yn cael ei weithredu byddai'n dal

angen 'esbonio' y term hwnnw i weithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach.

6.12 O beidio defnyddio'r teitl Pennaeth Ysgol Rithwir ar gyfer yr arweinydd, gellid defnyddio'r teitl Pennaeth Ysgol Rithwir i Bobl Ifanc â Phrofiad o fod mewn Gofal.[4] Dewis arall gwerth ei ystyried yw Pennaeth Gwasanaeth Ysgol Plant sy'n Derbyn Gofal (enw'r awdurdod lleol). Yn Saesneg gellid defnyddio'r byrfodd CLASS ar gyfer hyn (Children Looked After School Service). Mae'r byrfodd yn osgoi'r cysylltiadau negyddol a geir â 'Looked After Children' (LAC) ac yn creu cyswllt â chohort addysg.

6.13 Roedd ymarferwyr yn anghytuno ynghylch y term mwyaf priodol ar gyfer Pennaeth Ysgol Rithwir, felly er rhwyddineb defnyddir 'sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir' yn yr adroddiad hwn.

**Cefndir a set sgiliau ar gyfer swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir**

6.14 Cytunai awdurdodau a rhanddeiliaid y dylai profiad o weithio mewn amgylchedd addysg fod yn ofynnol ar gyfer y rôl hon, ac awgrymodd amryw hefyd y byddai angen statws athro cymwysedig hefyd. Ceir rhai Penaethiaid Ysgol Rithwir effeithiol iawn heb SAC yn Lloegr ar hyn o bryd, felly ni ddylai hyn atal mynediad i'r swydd. Gallai profiad proffesiynol cyfwerth fod yn ofynnol yn lle hynny.

6.15 Roedd rhai ALlau hefyd yn teimlo y byddai'n hanfodol cael profiad mewn rôl arweiniol uwch neu mewn ysgol neu leoliad addysg yn hanfodol, er mwyn ennyn parch a chydnabyddiaeth gan benaethiaid eraill. Mae gan y rhan fwyaf sy'n cyflawni swyddi sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn yr Alban brofiad naill ai ar lefel Pennaeth neu Ddirprwy. Er bod Cydgysylltwyr LACE ledled Cymru, mewn llawer o achosion, wedi meithrin perthnasoedd da ag ysgolion lleol, roedd y rhan fwyaf yn cydnabod bod y canfyddiad o statws cyfartal yn bwysig. Mae hyn yn gysylltiedig â'r derminoleg, gan fod rhai'n teimlo y byddai cael 'Pennaeth' yn y teitl swydd o gymorth wrth gyfathrebu â Phenaethiaid.

[4]Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, mae'r term 'â phrofiad o ofal' yn golygu cylch gwaith ehangach y tu hwnt i blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd.

6.16 Yn ogystal â phrofiad ym myd addysg, teimlai awdurdodau lleol y byddai angen set sgiliau benodol iawn, gan gynnwys dycnwch a sgiliau diplomyddol a chyfathrebu ar gyfer swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir. Teimlwyd mai rhan allweddol o'r rôl fyddai dylanwadu ar bobl â dod â phobl ynghyd, yn ogystal â dwyn ysgolion i gyfrif, a bod sgiliau rhyngbersonol cryf felly'n hanfodol.

**Rôl a chylch gwaith swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir**

6.17 Yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn, dadansoddwyd cyfres o swydd-ddisgrifiadau Pennaeth Ysgol Rithwir ar draws amryw o siroedd a gwledydd, gan ganfod themâu chyffredin a chymharu'r rhain â rôl y Cydgysylltydd LACE (fel y nodir yn Atodiad Adroddiad Syr Alasdair).

6.18 Agwedd amlycaf rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir yw arweinyddiaeth. Mae hyn yn wahanol i rôl y Cydgysylltydd LACE sy'n canolbwyntio mwy ar ddyletswyddau a chydgysylltu gweithredol. Er enghraifft, rôl y Cydgysylltydd LACE fyddai 'hyrwyddo' addysg, ond yn swydd-ddisgrifiadau'r Pennaeth Ysgol Rithwir byddai'n ofynnol i ddeilydd y swydd bledio achos, arwain neu sefydlu gweledigaeth ar gyfer addysg i blant sy'n derbyn gofal. Rôl y Cydgysylltydd LACE yw 'cysylltu' neu 'weithredu fel negesydd' ac i 'ddosbarthu' arfer da, ond byddai'r Pennaeth Ysgol Rithwir yn datblygu, yn gweithredu ac yn ddylanwadu ar arfer gorau.

6.19 Mae datblygu a gweithredu strategaeth yn greiddiol i rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir, gan gynnwys penderfynu ynghylch polisi a chyllideb. Mae gan Benaethiaid Ysgol Rithwir gyllideb i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal, ac yn gyfrifol am sicrhau bod y gyllideb yn cael ei gwario mewn modd strategol ac effeithiol, i gefnogi cynnydd a chyrhaeddiad.

6.20 Maent yn atebol am gyrhaeddiad a chynnydd plant sy'n derbyn gofal, ac am sicrhau bod system effeithiol ar waith i olrhain a monitro hyn. Mae hyn yn cynnwys monitro, herio a chefnogi ysgolion a chyrff llywodraethu er mwyn sicrhau y gallant wireddu eu potensial llawn. Nodir mewn swydd-ddisgrifiadau hefyd y dylai'r pennaeth gynnig creadigrwydd, arloesedd a

datrysiadau dychmygus er mwyn gwneud y gorau o'r cyllid sydd ar gael, bodloni anghenion lleol a chefnogi ysgolion sy'n profi anawsterau.

6.21 Rhan arall o rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir yw sicrhau bod lleisiau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu clywed a'u hystyried wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, drwy ddylunio a goruchwylio systemau a sefydlir i ddal y lleisiau hyn.

6.22 I ddangos atebolrwydd, argymhellir bod pawb mewn swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn llunio adroddiad blynyddol ar ddeilliannau a gweithrediadau, gan gynnwys asesu cynnydd a wnaed gan blant sy'n derbyn gofal. Ymdrinnir ymhellach a chynnwys yr adroddiad hwnnw yn yr adran ganlynol ar lywodraethu a chymorth.

6.23 Byddai'r hyn sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn rheolwr llinell ar dîm o unigolion a fyddai'n gweithio'n uniongyrchol â'r ysgolion, gan gyflawni swyddogaeth monitro a herio, er mwyn gwella deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal - fel y mae Cydgysylltwyr LACE yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r gallu felly i gefnogi datblygiad proffesiynol ac ysbrydoli tîm yn rhan allweddol o'r rôl.

6.24 Mewn ardaloedd llai, mae'n bosibl na fydd cyllido swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir amser llawn yn gynaliadwy. Yn yr ardaloedd hyn, gellid naill ai rannu'r rôl ag ardaloedd cyfagos (fel sy'n digwydd yn rhannau o Loegr), neu wneud y rôl y rhan-amser. Efallai mai rôl ran-amser fyddai'r dewis gorau o blith y ddau, er na fyddai hynny'n ddelfrydol o reidrwydd. Byddai angen ymwreiddio'r swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn ddigonol yn y cyd-destun lleol, a byddai cydweithio'n agos â'r gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol, ysgolion a chyrff llywodraethu mewn mwy nag un awdurdod lleol yn feichus o ran amser ac adnoddau. Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth ymhlith awdurdodau lleol i'r rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir fod yn rôl amser llawn benodol, yn hytrach na rôl lle'r oedd gan rywun gyfrifoldebau eraill (a fyddai'n aml yn golygu cyfrifoldeb dros grwpiau eraill o bobl ifanc agored i niwed).

6.25 Yn ddiweddarach yn yr adran ganlynol, gofynnir a ddylai'r rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir fod yn rôl ynddi ei hun, neu'n rhan o gylch gwaith ehangach, o ran opsiynau i dreialu gwahanol fodelau cyn cyflwyno newid deddfwriaethol. Awgrymir swydd-ddisgrifiad ar gyfer rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn Atodiad C

**Llywodraethu a chefnogaeth**

6.26 Mae'n bwysig i rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir oruchwylio deilliannau addysg a gofal cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal, a chydweithio'n agos â chydweithwyr yn y naill adran a'r llall. Gan hynny byddai'n fuddiol lleoli'r rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn strwythurol ar draws adrannau'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Addysg, ac adrodd wrth y naill gyfarwyddwr a'r llall, er mwy hyrwyddo darpariaeth integredig.

6.27 Canfu'r ymchwil y byddai'n fuddiol i'r sawl sy'n cyflawni rôl debyg i Bennaeth yr Ysgol Rithwir lunio adroddiad blynyddol i gyfarwyddwyr a rhieni corfforaethol i arddangos ei waith a'r canlyniadau. Yn seiliedig ar adolygiad o ofynion adrodd Pennaeth yr Ysgol Rithwir yn Lloegr, a thrafodaethau ag awdurdodau lleol yng Nghymru, nodwyd metrigau allweddol ar gyfer adroddiadau ffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwybodaeth gyd-destunol am blant mewn gofal:** gan gynnwys metrigau fel oedran, rhyw, ethnigrwydd, oed wrth gael eu derbyn i ofal, hyd y cyfnod mewn gofal ac ADY. Gall yr adran hon hefyd gynnwys cyrhaeddiad cyn derbyn i ofal, a metrigau symudedd ar ôl cael eu derbyn i ofal. Gellir defnyddio gwybodaeth gyd-destunol drwy gydol yr adroddiad i asesu a yw'r ymyraethau a gyflawnwyd a'r deilliannau a sicrhawyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o blant.
- **Gwybodaeth am blant sy'n derbyn gofal ar y gofrestr yn yr ardal:** gan gynnwys nifer y plant o awdurdodau lleol eraill, y math o ysgol lle caiff plant eu lleoli, ac o bosib, sgoriau Estyn ar gyfer ysgolion. Dylai'r adran hon hefyd gynnwys gwybodaeth am nifer y plant o'r awdurdod lleol a leolir mewn ardaloedd eraill.

- **Deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal sydd ar gofrestr yn yr ardal**: gan gynnwys mesurau cynnydd a chyrhaeddiad yn ôl cyfnod allweddol, yn ogystal â mesurau llesiant. Dylai hyn hefyd cynnwys dilyniant yn 16 ac 18 oed, gan gynnwys cyflawniadau a chyfranogiad mewn addysg uwch.
- **Trosolwg o weithgareddau'r rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir:** gan gynnwys manylion yr hyn y mae'r tîm wedi'i wneud i fonitro, cefnogi, herio ac ymyrryd er mwyn gwella deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal. Gallai hyn gynnwys CAPau, penderfyniadau cyllido (sicrwydd ansawdd) ac ymyraethau a gyflawnwyd, gan gynnwys hyfforddiant, cyngor a chyfathrebu ar gyfer ysgolion, ac ymyraethau uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal. Dylai'r adran hon hefyd gynnwys mesurau canlyniad i werthuso effaith gweithgareddau'r tîm, fel gwella presenoldeb a lleihau achosion o wahardd am gyfnod penodol, neu'n barhaol, yn ogystal â mesurau o allu'r sawl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir i gefnogi derbyniadau amserol a phontio effeithiol.

6.28 Ceir eisoes rwydwaith o Gydgysylltwyr LACE ledled Cymru. Os gweithredir model newydd yng Nghymru sy'n debyg i ysgolion rhithwir, argymhellir y dylid adeiladu ar y cydweithrediad cenedlaethol hwn, i annog system lle mae'r rhai sydd mewn swydd debyg i Bennaeth Ysgol Rithwir yn adolygu adroddiadau blynyddol eu cymheiriaid. Gallai hyn hefyd fod yn gyfle i'r rhai sydd mewn swydd debyg i Bennaeth Ysgol Rithwir yn rhannu a dathlu'r modd y maent wedi ymateb i sefyllfaoedd a heriau lleol.

**Cyllido'r ysgol rithwir**

6.29 Wrth ystyried argymhellion ar gyfer model newydd, mae'n bwysig ystyried hefyd faint o gyllid sydd ei angen i gynnal y Pennaeth Ysgol Rithwir, a'r 'tîm ysgol rithwir' a allai gael ei greu.

6.30 Mae angen i fodel Cymru daro cydbwysedd rhwng cysondeb a hyblygrwydd. Er bod angen cysondeb yn nhermau rolau a chylchoedd gwaith, mae awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd i deilwra gwasanaeth i

gyd-fynd ag amrywiadau lleol, a dylid cynnwys hynny yn rhan o'r model. Gan hynny, bydd maint unrhyw dîm posibl yn amrywio'n helaeth yn dibynnu ar faint a nodweddion eraill yr awdurdod, y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal, a maint a strwythur y tîm LACE presennol.

6.31 Yng nghanfyddiadau'r cyfweliadau, amlygwyd y dylai model Cymreig roi ystyriaeth ofalus i rôl y Cydgysylltydd LACE. Rhoddir gwerth ar yr aelodau hyn o staff, ac ni ddylid cyflwyno swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir ar draul y rôl LACE. Rhagwelir y byddai'r swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn swydd uwch na rôl y Cydgysylltydd LACE, ac y gallai fod yn rheolwr llinell ar y gweithwyr sydd ar hyn o bryd yn ffurfio'r tîm LACE.

6.32 Efallai y gellid recriwtio'r rhai sydd mewn rôl Cydgysylltydd LACE ar hyn o bryd i rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir. Fodd bynnag, mewn rhai achosion byddai'r Cydgysylltydd LACE yn ymuno â'r tîm a fyddai'n gweithio i rôl gyfatebol y Pennaeth. Agwedd arall y byddai angen ei harchwilio ymhellach fyddai'r modd y byddai cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng y swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir a'r Cydgysylltydd LACE, oherwydd efallai y byddai llawer o orgyffwrdd rhwng y rolau hyn pe baent yn bodoli ar y cyd.

6.33 Mae'r ffaith bod Cydgysylltwyr LACE ar hyn o bryd wedi'u lleoli mewn strwythurau amrywiol yng Nghymru, fel y trafodwyd eisoes, yn creu mwy o gymhlethdod. Mae'r mwyafrif yn gweithio mewn adrannau Addysg, ac eraill yn gweithio mewn adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae eraill wedi'u lleoli ar y cyd yn y naill adran a'r llall. Argymhellir y dylai ALlau ystyried a ddylai holl aelodau'r tîm Ysgol Rithwir fod wedi'u lleoli mewn adrannau addysg (yn llwyr neu ar y cyd ag adran arall), ond does dim angen i hyn fod yn gyson ar draws Cymru o reidrwydd, a dylid gwneud penderfyniadau yn lleol.

6.34 Wrth adolygu modelau eraill ar gyfer Ysgol Rithwir, canfuwyd strwythur defnyddiol (yn Awstralia ac yn Lloegr), lle'r oedd Pennaeth yr Ysgol Rithwir yn cael ei gefnogi gan rolau 'Cynghorydd Addysg' creiddiol, gyda hyblygrwydd o ran nifer y rolau hynny o fewn y tîm, yn dibynnu ar

angen/adnoddau. Mae angen cefndir addysg neu addysgu ar gyfer y rolau hyn, ac maent yn cynnwys prif gyfrifoldebau cyffredin, fel cefnogi derbyniadau, lleihau gwaharddiadau, CAPau, hyfforddi a chefnogi athrawon dynodedig. Caiff meysydd arbenigol eraill wedyn eu clymu wrth y rôl, fel bo'n berthnasol i'r cyd-destun lleol, ee, grwpiau oedran penodol (y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, ôl-16), ardaloedd daearyddol penodol, neu anghenion penodol o bosib (ADY, Saesneg fel Iaith Ychwanegol), lle na ellir defnyddio timau mewnol neu allanol eraill i ddarparu ar gyfer hynny.

6.35 Un o'r prif themâu a oedd yn codi o'r ymchwil oedd y byddai llawer o ALlau yn elwa ar gael mynediad gwell at adnoddau arbenigol i blant sy'n derbyn gofal yn eu hardal - a hynny o bosib heb fawr ddim rhybudd. Ac ystyried strwythur cyfredol y gwasanaethau, dylid nodi y gellid bod angen canlyn llwybrau neu ddefnyddio dulliau amrywiol er mwyn cyrchu gwahanol fathau o gymorth arbenigol. Mae timau LACE yn cynnal gwasanaeth plentyn-ganolog ac yn defnyddio ystod o gymorth allanol yn ôl y gofyn - lle bo angen wedi'i nodi, ac yn arbennig lle bo hynny'n effeithio ar gynnydd mewn addysg. Roedd diffyg mynediad at wasanaethau arbenigol fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn broblem neilltuol mewn rhai ardaloedd, gyda phant yn gorfod teithio allan o'r ardal i dderbyn y gwasanaethau hynny. Dywedodd ALlau eu bod wedi gorfod mynd ati i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau creadigol er mwyn cyrchu'r cymorth arbenigol yr oedd ei angen ar gyfer plant yn eu gofal o fewn y gyllideb.

6.36 Mae adroddiad Syr Alasdair yn cydnabod bod mynediad at CAMHS a gwasanaeth Seicoleg Addysg dynodedig o gryn fantais, a dyma'r ddwy brif elfen a nodwyd yn rhan o'r 'tîm delfrydol' yn yr ymchwil uniongyrchol. Yn ôl Cydgysylltwyr LACE, dyma adnoddau arbenigol eraill a fyddai'n cynyddu eu gallu i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal:

- Cydgysylltydd ADY sy'n hyddysg yn y cod newydd
- Arbenigwr pontio (angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ôl-16)
- Gweithwyr achos unigol (er enghraifft, rhywun i ymdrin ag ymyraethau brys byrdymor)

6.37 Efallai y byddai/na fyddai angen i rai rolau fod wedi'u lleoli o fewn tîm yr ysgol rithwir ei hun, ond byddai angen cyllideb i gomisiynu'r adnoddau arbenigol hyn i gefnogi gwaith y timau LACE. Yr opsiynau eraill y cyfeiriwyd atynt oedd cael 'Eiriolwyr dro Blant sy'n Derbyn Gofal' o fewn y timau arbenigol (a fyddai'n gwybod beth oedd anghenion y plant sy'n derbyn gofal ac yn gweithredu fel man cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw broblemau/trafodaethau); a chyfuno adnoddau rhwng awdurdodau lleol - ee, er mwyn creu tîm Seicoleg Addysg ar y cyd i blant sy'n derbyn gofal.

6.38 Mewn trafodaethau ag ALlau a rhanddeiliaid, nodwyd hefyd fod angen cefnogaeth ar y tîm ym meysydd rheoli busnes a data, a gweinyddu - i ryddhau'r timau LACE fel eu bod yn gallu treulio'u hamser yn cyflawni'r elfennau sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf.

**Dal cyllideb**

6.39 Ynghynt yn yr adroddiad, trafodwyd y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a'r gwahanol ffyrdd o reoli'r grant mewn gwahanol ardaloedd. Mae'r cwestiwn ai cyllido clystyrau o ysgolion ar raddfa ranbarthol yw'r ffordd orau o ysgogi deilliannau LACE yn gwestiwn ehangach na'r hyn y gellir ei drafod yn y gwaith ymchwil hwn. Yn ogystal â hyn, dim ond rhan o rôl y consortia addysg rhanbarthol yw dyrannu'r PDG, a dim ond un o'r ffactorau sy'n ysgogi deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal.

6.40 Yr hyn sy'n berthnasol i ddibenion y gwaith ymchwil hwn yw mai Pennaeth yr Ysgol Rithwir, yn Lloegr, sy'n gyfrifol am y Premiwm Disgybl cyfatebol ar gyfer ei awdurdod, ac sydd yn penderfynu'n annibynnol sut i wario'r arian hwnnw. Gall ysgolion prif ffrwd wneud cais i'r ysgol rithwir am gyllid, ond mae'n rhaid i'r Pennaeth Ysgol Rithwir gymeradwyo'r dyraniad cyllid hwnnw a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol rithwir honno.

6.41 Rydym yn sylweddoli mai penderfyniad cymharol ddiweddar oedd mabwysiadu dull clwstwr o gyllido drwy'r Consortia Addysg Rhanbarthol, a bod gwerthusiad manwl wedi cael ei gynnal o hynny. Byddai'n rhy fuan i argymell bod y Pennaeth Ysgol Rithwir â rheolaeth dros *gyllideb y PDG*.

Argymhellir y dylid cymryd gofal i beidio â 'dad-wneud' unrhyw gynnydd neu ganlyniadau cadarnhaol yn sgil diwygiadau diweddar.

6.42 Fodd bynnag, argymhellir y dylai rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir fod â grym i ddyrannu cyllideb, yn unol â'i flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal. Byddai hyn yn creu manteision fel mwy o hyblygrwydd a chyfeirio adnoddau tuag at sefyllfaoedd lle'r oedd y mwyaf o angen.

6.43 Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch sut y byddai rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn cael ei chyllido. Er na thrafodwyd disgwyliadau cyflog yn benodol, cydnabuwyd y byddai angen i'r gyllideb ar gyfer rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir fod yn uwch na'r gyllideb ar gyfer Cydgysylltydd LACE, gan fod y rôl honno ar lefel uwch. Gan hynny, ni ellir tybio y byddai'r 'gyllideb graidd' gyfredol yn gallu talu rôl sy'n cyfateb i'r Pennaeth Ysgol Rithwir (nag aelodau ychwanegol yn nhîm yr Ysgol Rithwir pe bai angen).

6.44 Fel swydd statudol yn Lloegr, telir cyflog y Pennaeth Rhithwir gan y Cyngor, ond cyllidir swyddi ac adnoddau eraill drwy amrywiaeth o ffyrdd - o Gyllid Anghenion Lefel Uchel, yn syth o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a thrwy'r Premiwm Disgybl (sy'n cyfateb i'r PDG). Ar hyn o bryd, mae'r holl rolau sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yn cael eu cyllido drwy'r hyn sy'n cyfateb i'r PDG.

6.45 Roedd safbwyntiau'n gymysg ynghylch defnyddio cyllidebau'r PDG i gyllido swydd a oedd yn cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir (ac aelodau ehangach tîm yr ysgol rithwir o bosib). Teimlai rhai mai dyma fyddai'r unig ffordd o alluogi ysgolion rhithwir, ac ystyried y cyfyngiadau ar gyllid a wynebir eisoes gan lawer o awdurdodau lleol. Roedd eraill yn chwyrn yn erbyn y syniad o wyro unrhyw gyllid oddi wrth adeiladu capasiti mewn ysgolion, er bod rhai'n cydnabod bod rhywfaint o gyllid y PDG eisoes yn cael ei ddefnyddio i'r diben hwn ar raddfa ranbarthol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y gallai fod yn amhosib defnyddio'r PDG i gyllido swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir mewn rhai awdurdodau llai, a chanddynt lai o blant sy'n derbyn gofal, a chael unrhyw arian ar ôl ar gyfer yr ysgolion

# 7. Egwyddorion a chydrannau i danategu dull integredig i Gymru

## Dull integredig i Gymru

7.1 Mae'r strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb yn nodi'r uchelgais i: "wella cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant sydd mewn gofal, gan roi lle canolog i’r plentyn, drwy sicrhau bod gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau eraill, yn cydweithio." Yn y bennod flaenorol, trafodwyd arfer da a'r heriau a brofir gan awdurdodau lleol (ALlau) wrth gefnogi deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal. Trafodwyd hefyd y model ysgol rithwir a goblygiadau'r model o ran creu dull integredig i Gymru.

7.2 Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, ystyriwn ei bod hi'n rhy fuan i gymeradwyo gweithredu model ysgol rithwir ar raddfa genedlaethol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae lefel y gefnogaeth ar gyfer ysgolion rhithwir yn gymysg; ceir gwrthwynebiad i drosglwyddo polisi o Loegr, ceir amheuon ynghylch y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y polisi, ac mae pryderon sylfaenol yn gysylltiedig â chyllid, adnoddau a'r effaith ar rolau sy'n bodoli eisoes. Os bydd model VS yn cael ei orfodi o'r brig i lawr gan Lywodraeth Cymru, gallai'r model hwnnw fethu, nid oherwydd bod y datrysiad yn anghywir, ond gan nad oes cefnogaeth ar raddfa leol gan y rhai y mae'n rhaid iddynt wneud i'r model weithio. Rydym hefyd yn ystyriol o'r hyn a ddysgwyd o fodel yr Alban, bod angen inni nid yn unig ystyried siâp model integredig, ond hefyd y cyd-destun a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r model hwnnw, er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddo.


7.3 Gan ystyried hyn, bydd y bennod hon i ddechrau'n rhoi crynodeb o'r amodau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r uchelgais strategol, ac sy'n creu'r cyd-destun ar gyfer gweithredu dull integredig. Mae'r rhain yn seiliedig ar arfer da a nodir, ac wedi'u llunio ar ffurf 'egwyddorion' sy'n gysylltiedig â dulliau systemig o weithio a phobl ifanc ac ymarferwyr unigol. Disgwylir y bydd yr holl ALlau yn mabwysiadu'r egwyddorion hyn, ac y byddant yn cael eu hymgorffori mewn strategaethau lleol i blant sy'n derbyn gofal.

7.4 Yn ddiweddarach yn y bennod trafodir cydrannau dull integredig. I ddatblygu'r cydrannau, rydym wedi defnyddio ein hadolygiad o strwythurau ac arferion sy'n nodweddu dull integredig o gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, Lloegr, yr Alban ac Awstralia (Talaith Fictoria), a drafodwyd yn y bennod flaenorol. Dylai'r ALl ymgorffori'r cydrannau hyn i greu dull integredig, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac, o wneud hynny, manteisio ar lwyddiannau'r model VS heb geisio ei ddyblygu.

7.5 Bwriedir i'r cydrannau hyn fod yn bresennol ym mhob ALl yng Nghymru, a bydd angen rhoi rhai ohonynt ar waith ar unwaith. Mae angen gwneud gwaith pellach i esbonio a rhoi hyn ar waith yn llawn. Amlinellir y graddfeydd amser ar gyfer gweithredu yn y bennod ganlynol.

7.6 Dangosir yr egwyddorion a'r cydrannau hyn yn Ffigur 7. Cyflwynir egwyddorion yng nghylch allanol y diagram. Mae gwyrdd tywyll yn cynrychioli egwyddorion ar lefel system, a gwyrdd golau yn cynrychioli egwyddorion ar lefel unigolyn. Mae'r darnau jig-so yn cynrychioli'r cydrannau ar gyfer dull integredig. Gyda'i gilydd, mae'r egwyddorion hyn a'r cydrannau yn sicrhau deilliannau gwell i blant sy'n derbyn gofal, a ddangosir yng nghanol y diagram.

**Ffigur7 Dull integredig o deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal**




## Egwyddorion sy'n sail i ddull integredig

7.7 Nodai'r gwaith ymchwil hwn yr egwyddorion sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau deilliannau gwell i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r egwyddorion hyn yn adeiladu ar yr arfer a'r diwylliant da a geir mewn rhai ALlau yng Nghymru, ond a ddylai fod yn bresennol ym *mhob* ALl.

7.8 Rhagwelwn y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu mireinio drwy ymgynghori, ac y cytunir arnynt ar raddfa genedlaethol. Mae pob ALl yn wahanol a bydd angen iddo ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y modd sydd yn

fwyaf priodol i'w gyd-destun lleol. Felly, mater i ALlau fyddai cynnig ymateb strategol i esbonio sut mae eu dull yn bodloni'r egwyddorion hyn. Byddem yn disgwyl i'r Consortia Addysg Rhanbarthol a'r Byrddau Rhianta Corfforaethol graffu ar egwyddorion cenedlaethol a chadw atynt yn barhaus.

7.9 Mae'r egwyddorion wedi'u rhannu i wahaniaethu rhwng rhai sy'n gysylltiedig â'r system a rhai sy'n gysylltiedig â'r unigolyn ifanc neu'r ymarferydd.

*Egwyddorion lefel system*

7.10 Mae'r egwyddorion ar lefel system yn berthnasol i'r arferion sefydliadol sy'n cefnogi cyflawniad plant sy'n derbyn gofal. Yr egwyddor cyntaf ar lefel system yw **cynllunio strategol**. Dylai ALlau fynd ati'n rhagweithiol i gychwyn a nodi arfer gorau a defnyddio hynny i ddatblygu gwasanaethau sy'n cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid iddynt hefyd dangos ymrwymiad tuag at waith cyfannol. Nid yw dull integredig o reidrwydd yn golygu integreiddio adrannau'n llawn. Yn hytrach, mae'n golygu strwythurau a phrosesau integredig ar bob lefel yn yr hierarchaeth. Gan nad yw'r strwythurau na'r prosesau hyn yn dibynnu ar angerdd a pherthnasoedd unigol, nid ydynt yn fregus pan fydd personél yn newid nac yn cael eu gweithredu'n anghyson. Mae hyn yn golygu, os bydd Cydgysylltydd LACE neu arweinydd gwasanaeth yn symud o'r gwasanaeth, bydd y trefniadau i rannu gwybodaeth a chydweithio'n effeithiol yn parhau.

7.11 Cefnogir hyn gan **ddull cymuned gyfan** o rianta corfforaethol, gan fanteisio i'r eithaf ar adnoddau hollbwysig ac agor amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o gyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal, gan ymestyn y tu hwnt i addysg ag ofal cymdeithasol i adrannau eraill r ALl, ac i'r holl swyddogion a'r aelodau etholedig. Yn yr un modd, bydd rhoi dulliau **ymwybodol o ymlyniad** ar waith yn eang yn sicrhau bod gan nid yn unig y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal y gallu i adnabod effaith trawma ac adfyd cynnar, ac yn cefnogi ymyrraeth gynnar ymhlith y rhai sydd ar ymylon gofal.

7.12 Dylai plant sy'n derbyn gofal allu **dibynnu ar gymorth cyson** ar gyfer eu haddysg a'u llesiant, nad yw'n ddarostyngedig i newid mewn adnoddau ALl,

nac yn ddibynnol ar yr ardal y maen nhw'n byw ynddi. Dylid cael disgwyliad creiddiol, sylfaenol o'r adnoddau a'r cymorth ar draws ALlau, y gellir eu haddasu a'u teilwra gydag *opsiynau* ychwanegol.

7.13 Nid yw cydnabod cyfyngiadau'r mesurau traddodiadol o gyrhaeddiad yn golygu nad ydym yn uchelgeisiol. Mae'n rhaid i fodel newydd barhau i osod **safonau uchelgeisiol** a cheisio sicrhau'r deilliannau gorau posib i blant sy'n derbyn gofal. Bydd pob plentyn (nid rhai sy'n derbyn gofal yn unig) yn elwa ar ddiwylliant sy'n dathlu cynnydd a chyflawniad ar amryw o ffurfiau.

*Egwyddorion lefel unigol*

7.14 Mae'r egwyddorion hyn yn ymwneud â'r modd y mae ymarferwyr unigol yn cefnogi a chydweithio â'r plant sy'n derbyn gofal y maen nhw'n gyfrifol amdanynt. Un o'r egwyddorion sylfaenol wrth weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yw bod yn rhaid i'r cymorth **ganolbwyntio ar yr unigolyn**, a chael ei ysgogi gan lais ac anghenion y plentyn yn hytrach na'r strwythurau a'r systemau o'i amgylch.

7.15 Un o'r disgwyliadau sylfaenol eraill gan ymarferwyr unigol yw ymrwymiad i **gydlafurio**, ac arbenigedd yn hynny. Drwy fanteisio i'r eithaf ar rym y rhwydweithiau o fewn ALlau ac ar eu traws, byddwn yn ysgogi'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau prin, ac yn meithrin dull trawsffiniol mwy cydlynol.

7.16 Dylai staff ar bob lefel ac ar draws adrannau fod **atebol** i'r plentyn sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn golygu cydnabod meysydd arbenigol ond bod yn barod i ymestyn y tu hwnt i gylchoedd gwaith a swyddogaethau er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posib.

### Ffigur8 Egwyddorion sy'n sail i ddull integredig o wella deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal

**System-level**



- Strategic planning, committed to proactive and solutions-oriented support and interventions.
- Whole-community approach to supporting looked after children outcomes, including the input and support from businesses, leisure centres, schools and education and other community services. This approach reinforces the new Welsh Government framework on wellbeing.
- Consistent system, striving for equitable offers of resource and support across authorities.
- Reliable support. If a LACE Coordinator or service manager leaves, the system does not break down.
- Attachment-aware, recognising early trauma and adversity in looked after children and appropriate support.
- Ambitious standards, by measuring and celebrating the journey all looked after children are making.

**Individual-level**



- Person-centred, putting the needs of looked after children at the heart of all choices.
- Collaborative working, within and across regions, to make the best use of skills and resources.
- Accountable, including sufficient and timely scrutiny to ensure the local approach to supporting educational outcomes for looked after children is as good as possible. Corporate parenting board, and other leadership, knows what good look like for the progress of their cohort.

### Cydrannau dull integredig

7.17 Mae'r egwyddorion a amlinellwyd uchod yn adlewyrchu'r dulliau o weithio sy'n tanategu'r uchelgais i wella deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal. Cydrannau dull integredig yw'r darnau jig-so a fydd yn galluogi ALlau i roi'r egwyddorion hynny ar waith - a chyflawni'r uchelgais hwnnw yn y pen draw.

7.18 Mae'r cydrannau ar gyfer dull integredig wedi cael eu datblygu o adolygu strwythurau ac arferion sy'n nodweddu dull integredig o gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, Lloegr, yr Alban ac Awstralia (Talaith Fictoria). Mae llawer o ymarferwyr a gwasanaethau eisoes yn gweithio drwy rai o'r ffyrdd hyn, ond ein huchelgais yw codi safonau ar draws y bwrdd er mwyn creu 'system gysonach' fel y'i disgrifiwyd yn adroddiad Syr Alasdair. Ceir cyfanswm o bum cydran, a ddisgrifir isod. Mae'r bennod argymhellion yn nodi sut y dylid gweithredu'r cydrannau hyn.

*Deilliannau eang*

7.19 Fel yr argymhellwyd gan Syr Alasdair, mae'n rhaid sefydlu dull eang o ddiffinio a mesur cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae ehangu deilliannau wrth gasglu data yn bwysig am dri rheswm: yn gyntaf, er mwyn mynd i'r afael a'r darlun un dimensiwn o ddeilliannau, a chynnig dangosyddion cynnydd mwy perthnasol o gynnydd. Yn ail disgwylir y bydd

monitro ac adroddiadau statudol yn derbyn y deilliannau hyn yn creu ysgogiad am newid ar raddfa'r ALl. Yn drydydd, gall metrigau cynnydd mwy rheolaidd a manwl helpu ALlau i ddadansoddi effeithiolrwydd a gwerth rhaglenni ac ymyraethau.

7.20 Dylid ystyried deilliannau addysg yng nghyd-destun dangosyddion eraill sy'n helpu i gefnogi ac esbonio cynnydd, neu fel arall. Hyd yn oed drwy ehangu ystod y data a gesglir (ac a adroddir) i gynnwys ffactorau cyd-destunol, ni all y ffigurau hyn ond creu darlun rhannol o'r plant sy'n derbyn gofal a'u hamgylchiadau. Bydd yn creu darlun cyffredinol o ddeilliannau, ac yn rhoi'r gallu i gymharu is-grwpiau ac olrhain deilliannau dros amser. Byddai disgwyl i'r deilliannau hyn gael eu cyflenwi gan ddata ansoddol a data ar ddeilliannau sy'n berthnasol yn lleol ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Serch hynny, byddent yn creu sylfaen gadarn er mwyn ffurfio dealltwriaeth fwy cyfannol o ddeilliannau ac effeithiolrwydd ymyraethau ar raddfa gyffredinol.

*Arweinyddiaeth adferol*

7.21 Un o gydrannau allweddol model yr ysgolion rhithwir yw arweinydd lefel uwch sy'n goruchwylio deilliannau addysg a gofal cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal, ac sy'n gyfrifol am ddatblygu a monitro strategaeth er mwyn cyflawni a gwella'r deilliannau hyn. Canfuwyd 'bwlch atebolrwydd' yn yr adroddiad hwn, sy'n adlewyrchu'r angen ma arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu mwy cyson.

7.22 Rydym wedi galw'r gydran hon yn 'arweinyddiaeth adferol' gan fod y term yn disgrifio arweinyddiaeth wedi'i nodweddu gan lefel uchel o gymorth a her. Yn unol ag argymhelliad Syr Alasdair i ddatblygu model Ysgol Rithwir, gallai rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir ysgogi cysondeb ar lefel strategol, gan fanteisio ar enghreifftiau cryf o gydweithio rhwng Cydgysylltwyr LACE, a gweithredu fel pont rhwng y timau Addysg a Gofal Cymdeithasol a'r Byrddau Rhianta Corfforaethol. Cyn cymryd unrhyw gam tuag at statud, byddai angen i Lywodraeth Cymru allu cyfleu'n glir pam bod angen y rôl hon, a beth yw ei natur. Mae angen gwneud gwaith pellach felly i gwmpasu'r model VS cyfatebol ar gyfer Cymru, ac i gasglu tystiolaeth i gefnogi gweithrediad y model hwnnw (gan gynnwys cyllid, adnoddau a'r effaith ar rolau presennol).

*Adnoddau teg*

7.23 Canfu'r gwaith ymchwil hwn gytundeb ag argymhelliad Syr Alasdair ynghylch yr isafswm o adnoddau y byddai ei angen er mwyn galluogi dull integredig. Mae'n hanfodol buddsoddi mewn adnoddau er mwyn sicrhau system integredig sy'n caniatáu mwy o gysondeb a pharhad ym mhrofiadau plant, ysgolion ac eraill o'r system honno. Dyma'r goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer system integredig:

- **cyllid trawsnewidiol** -Angen i ariannu'r gwaith trawsnewid sy'n gysylltiedig â chreu dull integredig i Gymru. Gallai'r gofynion ar gyfer cyllid sefydlu gynnwys cyflwyno systemau data newydd, recriwtio unigolion a chanddynt sgiliau a phrofiad angenrheidiol i rolau, cynnal hyfforddiant cychwynnol i bawb sy'n ymwneud â deilliannau plant sy'n derbyn gofal, a mecanweithiau cenedlaethol er mwyn rhannu arfer da. Mae cynnydd ALlau tuag at sefydlu a gweithredu mewn modd integredig yn amrywio, ond ni fydd y gwaith hwn yn niwtral o ran cost i unrhyw ALl. Bydd angen i bob ALl dderbyn rhywfaint o gyllid trawsnewidiol i alinio ei ddulliau â'r safonau diwygiedig a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.
- **cyllid systemau**- Angen i gyllido mentrau strategol, er mwyn sicrhau bod y system yn rhoi'r gefnogaeth orau i blant sy'n derbyn gofal yn y tymor hir, gan gynnwys mentrau a hyfforddiant system gyfan. Er enghraifft, hyfforddiant ymwybyddiaeth o ymlyniad i bob ymarferydd sy'n cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal.
- **cyllid unigol**- Angen i gyllido ymyraethau gyda chohortau o blant sy'n derbyn gofal. Gallai hyn gynnwys seicolegwyr addysg penodedig a thiwtora un wrth un i ddisgyblion unigol sy'n derbyn gofal.

*Cefnogaeth hygyrch*

7.24 Ni ddylai plant sy'n derbyn gofal orfod gweithio o fewn systemau sefydliadol - yn hytrach dylai'r system fod yn gweithio er eu budd nhw. Yn unol â'r egwyddor o ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gellir cyflunio eu strwythurau a'u prosesau i roi'r gefnogaeth orau i blant sy'n derbyn gofal. Yr ail gam wedyn - nid y cam

cyntaf - yw canfod sut i wneud i hynny ddigwydd yn ymarferol. Dylid mireinio ac adolygu systemau a phrosesau'n barhaus, yn seiliedig ar lais y plentyn.

7.25 Mae'r adroddiad wedi nodi dau faes cychwynnol lle dylid ailgyflunio systemau a phrosesau: i ddechrau, trefniadau arferol i rannu gwybodaeth rhwng adrannau'r awdurdod lleol ac, yn ail, CAPau.

7.26 Bydd cydgysylltu systemau data rheoli yn cyfyngu ar y gwaith caib a rhaw sydd ei angen i greu llif reolaidd o wybodaeth am blant sy'n derbyn gofal rhwng y Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaethau Plant. Gallai un system ddata ar draws Cymru fod yn ddeniadol, ond mae'n debygol na fydd hynny'n realistig, ac ystyried profiadau yn Lloegr ac Awstralia a dibenion amrywiol y systemau ar gyfer gwahanol dimau a gwasanaethau. Gan hynny, bydd angen newid ar raddfa'r ALl.

7.27 Mae CAPau yn fecanwaith pwysig er mwyn olrhain cynnydd plentyn sy'n derbyn gofal, ac ar hyn o bryd dyma'r prif fecanwaith er mwyn cynnwys llais plant sy'n derbyn gofal wrth gynllunio eu haddysg eu hunain. Dylai'r broses ar gyfer adolygu a diweddaru CAPau fod yn ystyrlon (yn hytrach nac ymarfer 'tic yn y bocs'), wedi'i llywio gan y plant sy'n derbyn gofal, ac ar delerau'r plant hynny eu hunain. Dylai'r enghreifftiau o arfer da yn hyn o beth ddatblygu'n arfer cyffredin. Mae elfennau allweddol o arfer da yn cynnwys cyfarfodydd ar amser ac mewn lleoliad sy'n gweddu i'r unigolyn ifanc (gan gynnwys cyfarfodydd rhithwir, lle bo'n briodol) a lle bydd grŵp cyson o bobl y mae'r unigolyn ifanc yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt yn bresennol, hyd y bo modd. Dylent fod yn gyfle i'r plentyn sy'n derbyn gofal gael siarad, yn hytrach na bod eraill yn siarad amdano, neu i oedolyn o'i ddewis siarad ar ei ran. Bydd amgylchedd sy'n fwy cyffyrddus, ymlaciol a diogel yn rhoi'r dewrder i blant sy'n derbyn gofal fod yn onest ac agored.

7.28 Mae CAPau hefyd yn fecanwaith allweddol i gofnodi a mesur cynnydd addysgol a chynnydd ehangach unigolion. Os bydd yr holl ALlau yn gwneud defnydd cyson o fformat safonol cenedlaethol, bydd hynny'n helpu i sicrhau cyn lleied o faich ag sy'n bosibl ar blant sy'n derbyn gofal, ac ar ysgolion wrth ddefnyddio'r offeryn pwysig hwn i gyfleu gwybodaeth allweddol wrth ALlau. Er mwyn caniatáu amrywio lleol, gallai'r templed cenedlaethol

gynnwys adran ychwanegol y gall ardaloedd ddefnyddio fel y mynnent. Byddai digideiddio CAPau, i fod yn gyson â CDUau, hefyd yn gwella cysondeb a'r gallu i gymharu data, ac yn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn gallu gwneud defnydd mwy effeithlon o'r dogfennau.

*Cefnogaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth*

7.29 Er mwyn mynd i'r afael â'r angen i feithrin gallu ar raddfa leol i rannu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi trefniadau i gyfathrebu ynghylch arfer da ac ymyraethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar raddfa Cymru gyfan. Ffordd effeithlon o wneud hyn fyddai manteisio ar strwythurau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft drwy gryfhau rôl y Consortia Addysg Rhanbarthol er mwyn cydgysylltu gwybodaeth a chyfathrebu ar draws rhanbarthau.

## 8. Argymhellion

8.1 Yn y bennod flaenorol, cyflwynwyd yr egwyddorion a'r cydrannau y disgwylir iddynt fod yn sail i greu deilliannau gwell i blant sy'n derbyn gofal. Yn y bennod hon, nodir y fframwaith ar gyfer gweithredu cydrannau dull integredig. Ceir crynodeb o'r rhain mewn tabl, gan nodi'r perchnogion a'r graddfeydd amser.

*Creu'r amodau ar gyfer newid*

8.2 I fod yn wirioneddol effeithiol a chynaliadwy, mae'n rhaid i'r awydd am newid a manylion y datrysiad ddod o du'r ALlau eu hunain. Y ddwy gydran sydd wedi'u dylunio i feithrin dull integredig ar raddfa leol yw 'deilliannau bras' ac 'arweinyddiaeth adferol'. Yn y naill achos a'r llall, y nod yw ysgogi mwy o graffu ac atebolrwydd, gan gryfhau'r swyddogaeth rhianta corfforaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ymrwymo a darparu'r adnoddau er mwyn creu'r amodau ar gyfer newid.

*Deilliannau eang*

8.3 Argymhellir bod y dull o gasglu ac adrodd ar ddata deilliannau yn cael ei wneud yn fwy cyfannol. Mae Atodiad B yn cynnwys ein hargymhelliad ar gyfer y dull hwnnw. Dylai'r deilliannau hyn fod yn sail ar gyfer adroddiad blynyddol i gyfarwyddwyr a rhieni corfforaethol ar raddfa leol.

8.4 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

- yn defnyddio data statudol sydd eisoes ar gael, yn cynhyrchu mwy o adroddiadau manwl ar gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, sy'n rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun ac anghenion ychwanegol, ac sy'n edrych ar fetrigau cyrhaeddiad ehangach (hy, cynnydd ers derbyn i'r system ofal, ystod ehangach o raddau arholiad). Dylai ystyried creu llwyfan ryngweithiol y gall gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol ei defnyddio i hwyluso dosbarthiad y data hyn, a'r defnydd ohonynt.
- yn ymestyn y Cyfrifiad CLA a CRCS hyd at 21 oed.
- yn cytuno ar ddull o fesur llesiant pob plentyn ysgol yng Nghymru, yn unol â'r cwricwlwm llesiant newydd. Gellir defnyddio SDQ, Boxall neu fesuriad

arall safonedig sy'n bodoli eisoes, ond beth bynnag fo'r dull a ddewisir, dylid cymhwyso'r dull hwnnw'n gyson ledled Cymru.

8.5 Yn ogystal â hyn, dylai awdurdodau lleol:

- gasglu data ar y math o ddarpariaeth addysgol (hy, Addysg Heblaw yn yr Ysgol, prif ffrwd), statws NEET a'r math o lety i bawb sy'n gadael gofal, yn rhan o Gyfrifiad CLA ac/neu CRCS
- mynd ati'n rhagweithiol i gadw cyswllt â phawb sy'n gadael gofal ar ôl iddynt droi'n 18, hyd at 21 oed.

*Arweinyddiaeth adferol*

8.6 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu peilot i brofi gwahanol ymagweddau at arweinyddiaeth adferol. Dylai'r holl fodelau yn y peilot hwn fod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion cytunedig sy'n tanategu dull integredig. Gwyddom fod rhai ALlau eisoes yn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau o gefnogi deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, fel y trafodir yn y bennod canfyddiadau. Mae'r rhain yn ychwanegu at ein gwybodaeth, ond er mwyn cael y dystiolaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau strategol ar raddfa Cymru gyfan mae angen i gynlluniau peilot fod yn fwy, yn systematig ac wedi'u gwerthuso.

8.7 Mae ein hargymhelliad i gynnal cynlluniau peilot yn adlewyrchu ymdrech i osgoi mynd ati'n rhy fuan i greu dull caeth i Gymru gyfan nad yw'n rhoi ystyriaeth i amodau lleol na'r graddau amrywiol o gynnydd a geir ar hyn o bryd tuag at integreiddio gwell. Mae'r Alban yn treialu gwahanol fodelau ar gyfer Arweinyddiaeth adferol, gan ganiatáu i ALlau brofi'r hyn sy'n gweithio orau, ac awgrymir y dylid rhoi'r un cyfle i ALlau Cymru.

8.8 Canolbwynt y peilot fyddai profi swydd sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir, yn seiliedig ar y swydd-ddisgrifiad yn Atodiad C. Byddai ALlau yn cael cyfle i ddiffinio eu modelau/dulliau eu hunain o roi'r weledigaeth strategol hon ar waith, mewn modd sy'n gweddu i'w hanghenion lleol. Mae'n debygol y bydd ALlau am greu rôl benodedig, ond gallai'r opsiynau eraill gynnwys creu rôl arweiniol strategol sy'n gweithredu ar draws nifer o ALlau llai neu ar raddfa ranbarthol. Efallai y bydd ALlau yn ceisio treialu swydd lefel is i gyflawni'r

cyfrifoldebau arwain, amryw o arweinwyr yn rhannu'r cyfrifoldebau hyn (fel Pennaeth a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cymdeithasol), neu swyddi rhan-amser.

8.9 Mae peilot Damcaniaeth Newid wedi'i gynnwys yn Atodiad Ch. Byddai Llywodraeth Cymru yn gwahodd ALlau â diddordeb i wneud cais i dreialu dulliau, gan gynnig eu dull o gyflawni'r amcan dan sylw. Bydd ALlau wedyn yn profi'r Ddamcaniaeth Newid hon yn eu peilot, yn ddelfrydol wedi'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru neu werthuswr wedi'i gomisiynu.

8.10 Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ystyried treialu ystod o strwythurau tîm i weithredu o amgylch yr arweinydd. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i dreialu tîm ehangach o fewn y model presennol, heb arweinydd strategol, er mwyn canfod ai *adnoddau* strategol ychwanegol sydd wrth wraidd unrhyw newid mewn deilliannau, neu'r cynnydd mewn adnoddau yn unig. Mae Atodiad Ch hefyd yn amlinellu ystyriaethau pellach wrth weithredu peilot.

*Adnoddau teg*

8.11 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y tri math o adnoddau - cyllid trawsnewidiol, cyllid systemau a chyllid unigol - ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'n barhaus beth yw effaith y Grant Datblygu Disgyblion, ac yn gweithio gyda'r consortia i sicrhau bod ymyraethau'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn rhan o'r gwaith hwn, dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio ar y mecanweithiau mwyaf effeithiol i sicrhau bod gan ALlau y cyllid sydd ei angen i ariannu mentrau ac ymyraethau strategol ar gyfer cohortau o blant sy'n derbyn gofal.

*Cymorth hygyrch*

8.12 Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gellir cyflunio eu strwythurau a'u prosesau i roi'r gefnogaeth orau i blant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys annog trefniadau mwy agored i rannu data rhwng adrannau gwasanaethau addysg a phlant, a galluogi mynediad darllen/ysgrifennu at y naill system a'r llall fel isafswm. Dylai Llywodraeth Cymru helpu awdurdodau lleol i sefydlu sail gyfreithiol ar gyfer data agored rhwng adrannau, a

phrosesau i gyd-fynd â hynny er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

8.13 Argymhellwn y dylid cymryd camau i wella gwaith cynllunio unigol. Er mwyn mynd i'r afael â Chynlluniau Addysg Personol (CAPau) yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru bennu safonau gofynnol ar gyfer ansawdd a chwblhau CAPau, a dylai gwasanaethau addysg fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y cynlluniau hynny.

8.14 Byddai cyngor gan Lywodraeth Cymru i greu CAP i Gymru gyfan, wedi'i integreiddio â'r CDU, yn cael ei groesawu'n fawr. Mae gwaith ar y gweill i integreiddio'r ddwy ddogfen hon mewn amryw o ardaloedd, ac mewn amryw o ffyrdd, ac mae cynllun ar waith i gychwyn ar y cyfle cyntaf. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ddewis un dull a ffurfioli'r dyluniad hwnnw ledled Cymru.

8.15 Byddai'n fuddiol hefyd archwilio’r posibilrwydd (gydag awdurdodau lleol) i’w gwneud yn ofynnol i gynnal CAP digidol ar-lein i Gymru gyfan. Gallai hyn gynnwys mesurau a thargedau addysg, cymdeithasol a llesiant wedi'u personoli. Byddai hyn yn annog dull o nodi targedau a mesur cynnydd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a hefyd yn cynhyrchu data a fyddai'n ysgogi gwelliannau ar draws Cymru gyfan.

*Cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth*

8.16 Argymhellwn y dylid cymryd camau i gynyddu'r defnydd o dystiolaeth er mwyn gwella darpariaeth. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen i feithrin gallu lleol i rannu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi trefniadau i gyfathrebu ynghylch arfer da ac ymyraethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar raddfa Cymru gyfan. Ffordd effeithlon o wneud hyn fyddai manteisio ar strwythurau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft drwy gryfhau rôl y Consortia Addysg Rhanbarthol er mwyn cydgysylltu gwybodaeth a chyfathrebu ar draws rhanbarthau.

8.17 Mae llawer o ALlau wedi bod yn gweithio tuag at ddulliau ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, gan gynnwys dulliau wedi'u llywio gan drawma. Cafodd hyn ei ffurfioli yn *Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag*

*iechyd a lles meddyliol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru*.[5] Gallai fod yn ddefnyddiol ymestyn hyn i argymell bod ymwybyddiaeth o blant sy'n derbyn gofal yn cael ei gynnwys mewn HCA ac ar gyfer athrawon newydd gymhwyso - byddai hyn yn cynnwys hyfforddiant penodol ar arferion wedi'u llywio gan Drawma ac Ymlyniad (fel y cynigir yn adroddiad Syr Alasdair).

8.18 Mae angen i ALlau fod â'r gallu i gasglu a chwestiynu gwybodaeth ar raddfa'r awdurdod er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ac arferion, a chael y capasiti a'r ymrwymiad i gynnal hunanwerthusiadau cadarn. Dylai Llywodraeth Cymru helpu awdurdodau i sefydlu seilwaith ac offer monitro perfformiad hanfodol, a sicrhau bod gan uwch reolwyr yr oruchwyliaeth angenrheidiol i adnabod ac ymdrin ag unrhyw broblemau'n gysylltiedig â pherfformiad neu gyflawniad. Byddai hyrwyddo cyfleoedd i awdurdodau ac ysgolion bartneru â phrifysgolion neu sefydliadau i werthuso mentrau hefyd o gymorth i greu sylfaen o dystiolaeth i bob ymarferydd er mwyn manteisio ar eu gwaith.

Mae Tabl 1 yn rhestru'r camau a argymhellir, gan gynnwys amseriad y camau a phwy sy'n gyfrifol amdanynt.

[5] https://llyw.cymru/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol

## Tabl 1Camau a awgrymir er mwyn cyflawni'r argymhellion

| Graddfeydd Amser | Cyfrifoldeb | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| Y Tymor Byr | Llywodraeth Cymru | 1. Ymgynghori a chytuno ar yr egwyddorion a fydd yn sail i ddull integredig.<br>2. Cytuno ar y safon newydd ar gyfer data deilliannau ac ar gyfer adrodd ar hynny, gan gynnwys pennu'r mesurau ar gyfer deilliannau a rhoi'r rhain ar waith yn ymarferol (gweler Atodiad C).<br>3. Creu safon genedlaethol ar gyfer CAP wedi'i integreiddio â CDU, gan ddewis un dull o bosib sydd eisoes ar waith mewn llawer o ardaloedd, a ffurfioli'r dyluniad hwnnw ledled Cymru cyn y flwyddyn academaidd. Pennu'r disgwyliad y dylai'r broses CAP ganolbwyntio ar yr unigolyn, a bod yn seiliedig ar egwyddorion sy'n dangos ymwybyddiaeth o ymlyniad.<br>4. Ei gwneud hi'n ofynnol i bob ALl sefydlu seilwaith ac offer monitro perfformiad hanfodol, a bod gan uwch reolwyr yr oruchwyliaeth angenrheidiol i adnabod ac ymdrin ag unrhyw broblemau'n gysylltiedig â pherfformiad neu gyflawniad.<br>5. Cytuno ar fodelau i'w treialu ac anfon gwahoddiad i ALlau gymryd rhan mewn cynlluniau peilot. |
| | ALlau | 6. Cynnal adolygiad strategol o'ch gwasanaeth yn cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yn erbyn yr egwyddorion hyn, a sicrhau eu bod wedi'u hadlewyrchu mewn strategaethau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.<br>7. Cyflwyno cynigion i dreialu model arweinyddiaeth adferol wedi'i bennu'n lleol.<br>8. Ar ôl cyhoeddi, ac os nad ydynt yn bodoli eisoes, sefydlu seilwaith a phrosesau, a chyfathrebu â'r staff ynghylch y canlynol:<br><br>8.1 dull safonedig newydd o fesur llesiant<br>8.2 safonau newydd ar gyfer data ac adrodd ar ddeilliannau<br>8.3 CAP electronig newydd wedi'i alinio â'r CDU<br>8.4 gwaith hanfodol i fonitro perfformiad<br>8.5 cyrchu ac ymgysylltu ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rennir gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol |
| Y Tymor Canolig | Llywodraeth Cymru | 9. Sefydlu model adrodd blynyddol safonedig yn lleol ac yn genedlaethol, sy'n cynnwys deilliannau mwy cyffredinol.<br>10. Cytuno ar ddull safonedig o fesur llesiant pob disgybl yng Nghymru, yn unol â'r cwricwlwm llesiant newydd.<br>11. Ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y tri adnodd - cyllid trawsnewidiol, systemau ac unigol - ar gael i ALlau i'w helpu i drawsnewid er mwyn rhoi cefnogaeth well ar gyfer deilliannau plant sy'n derbyn gofal.<br>12. Defnyddio data statudol sydd eisoes ar gael i gynhyrchu mwy o adroddiadau manwl ar gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, sy'n rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun ac anghenion ychwanegol, ac sy'n edrych ar fetrigau cyrhaeddiad ehangach (hy, cynnydd ers derbyn i'r system ofal, ystod ehangach o raddau arholiad).<br>13. Cytuno ar deitl Pennaeth Ysgol Rithwir, i'w ddefnyddio yn y cynlluniau peilot, ac ar ôl hynny os bydd tystiolaeth yn awgrymu bod y model yn effeithiol.<br>14. Ei gwneud hi'n ofynnol i ALlau gasglu gwybodaeth am y math o ddarpariaeth addysg (hy, EOTAS, prif ffrwd), statws NEET a'r math o lety i bawb sy'n gadael gofal, yn rhan o Gyfrifiad CLA ac/neu CRCS.<br>15. Gweithio gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol i ddiffinio eu cyfrifoldeb dros gydgysylltu gwybodaeth a chyfathrebu ynghylch arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws rhanbarthau. |

| Graddfeydd Amser | Cyfrifoldeb | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| | ALlau | 16. Gweithio gyda chymheiriaid lleol i gydgysylltu systemau rheoli data, neu o leiaf i sicrhau bod gweithwyr allweddol y mae angen iddynt gyrchu data allweddol yn gallu gwneud hynny'n rheolaidd.<br>17. Ar ôl cytuno ar newidiadau i'r Cyfrifiad CLA a CRCS, diweddaru systemau rheoli data er mwyn casglu'r dystiolaeth ofynnol.<br>18. Cyhoeddi data yn rheolaidd ac yn gyson ar ddeilliannau mwy bras, ac ar weithgareddau i wella deilliannau. |
| Y Tymor Hwy | Llywodraeth Cymru | 19. Creu llwyfan ryngweithiol y gall gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol ei defnyddio i hwyluso dosbarthiad y data hyn, a'r defnydd ohonynt.<br>20. Digideiddio CAPau<br>21. Gweithio gyda chyrff y cwricwlwm a chyrff dyfarnu i ymgorffori ymwybyddiaeth o anghenion plant sy'n derbyn gofal mewn HCA ac ymhlith athrawon newydd gymhwyso - gan gynnwys hyfforddiant penodol ar arfer wedi'i lywio gan Drawma ac Ymlyniad.<br>22. Ymestyn y Cyfrifiad CLA a CRCS hyd at 21 oed. |
| | ALlau | 23. Adolygiad parhaus o strwythurau, prosesau ac arferion i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dal llais y plentyn. |

**Atodiad**

Ffynonellau'r adolygiad o ddeunydd darllen

| | |
|---|---|
| Cymru | Gwneud Gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion |
| Cymru | Canllawiau'r Grant Amddifadedd Disgyblion (gan gynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal) |
| Cymru | Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal |
| Cymru | Awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful: Ysgolion sy'n gyfeillgar i blant sy'n derbyn gofal |
| Cymru | Cafodd Ysgolion sy'n Gyfeillgar i Blant sy'n Derbyn Gofal ei addasu gan Cyflawniad i Bawb er mwyn creu'r adnodd canlynol |
| Cymru | Dull Integredig o Wella Deilliannau Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru |
| Cymru | Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 |
| Cymru | Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal (Strategaeth) |
| Cymru | Nodiadau o'r cyfarfod rhwng y Grŵp Blaenoriaethau Addysg a'r gweithgor plant sy'n derbyn gofal ym mis Mawrth 2019<br>(Ddim ar gael i'r cyhoedd) |
| Cymru | Dogfen ddilynol o'r cyfarfod GBA dilynol ym mis Mehefin 2019.<br>(Ddim ar gael i'r cyhoedd) |
| Cymru | Nodyn o weithdai lle ystyriwyd adborth gan blant a phobl ifanc<br>(Ddim ar gael i'r cyhoedd) |
| Cymru | Dogfennau dilynol a ddarparwyd gan ranbarthau ac awdurdodau lleol, a ysgogwyd drwy drafodaethau gwaith maes uniongyrchol.<br>(Ddim ar gael i'r cyhoedd) |
| Lloegr | Looked After and Learning, Evaluation of the Virtual School Head Pilot, David Berridge et al., University of Bristol, 2009 |
| Lloegr | The Virtual School Handbook |
| Lloegr | The Educational Progress of Looked After Children in England: Linking Care and Educational Data, Sebba, J. et al, University of Bristol, University of Oxford, Rees Centre, 2015 |
| Lloegr | Detholiad o swydd-ddisgrifiadau ar gyfer Penaethiaid Ysgol Rithwir |
| Jersey | Swydd-ddisgrifiad Pennaeth Ysgol Rithwir |
| Cymru | Ymestyn Rhianta Corfforaethol ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer LAC |
| Cymru | Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl |
| Yr Alban | Improving the Education of Looked After Children: A Guide for Local Authorities and Service Providers (2009) |

| | |
|---|---|
| Yr Alban | Looked after children &young people: we can and must do better (2007) |
| Yr Alban | Virtual Toolkit |
| Yr Alban | Swydd-ddisgrifiad Pennaeth Ysgol Rithwir Aberdeen<br>(Ddim ar gael i'r cyhoedd). |
| Awstralia | The Early Childhood Agreement for Children in Out-Of-Home Care |
| Awstralia | Out-Of-Home Care Education Commitment |
| Awstralia | The Virtual School for Children in Out-Of-Home Care: A Strategic Approach to Improving Their Educational Attainment |
| Awstralia | Detholiad o swydd-ddisgrifiadau ar gyfer staff mewn unedau 'Look Out Centre' |

# Atodiad A - Methodoleg

## Sampl ansoddol a gasglwyd

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r nifer a gymerodd ran yn yr ymchwil, drwy drafodaethau un wrth un, mewn grwpiau bach neu mewn gweithdai. Cymerodd rai unigolion ran mewn amryw o drafodaethau, ond ni chânt ond eu cyfrif unwaith ynn y tabl hwn.

| Categori | Meini Prawf | Nifer a ddaliwyd gan yr ymchwil |
|---|---|---|
| **Rôl** | Strategol ee Cyfarwyddwyr addysg a gofal cymdeithasol, Consortia Addysg Rhanbarthol, Grŵp Blaenoriaethau Addysg, Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer LAC | 59 |
| | Gweithiwr rheng flaen ee Cydgysylltydd LACE | 29 |
| | Unigolyn ifanc sydd wedi profi gofal | 5 |
| **Cylch Gwaith** | Ysgolion | 13 |
| | Gofal Cymdeithasol | 13 |
| | Addysg | 59 |
| | Rhanddeiliaid Eraill Allweddol | 10 |
| **Rhanbarth** | GWE | 19 |
| | CCD | 21 |
| | ERW | 19 |
| | GCA | 19 |

**Canllaw pwnc enghreifftiol - Canllaw Pwnc Cam 1 yr Awdurdodau Lleol**

A Pwrpas ac egwyddorion y cyfweliad

A1 Dylid defnyddio'r canllaw hwn ar gyfer 22 o gyfweliadau un wrth un ac fesul pâr â rhanddeiliaid ar lefel strategol yn awdurdodau lleol Cymru. Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal ym mis Ionawr 2020. Bydd trafodaethau'n ein helpu i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda/nad yw'n gweithio gystal mewn addysg i blant sy'n derbyn gofal, a chyfleoedd ar gyfer gwella, mewn perthynas â'r modd y gallai hynny gefnogi system newydd o gymorth integredig i blant sy'n derbyn gofal.

A2 Bwriedir i'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio gyda chymysgedd o unigolion â nodweddion a chefndiroedd amrywiol. Nid yw felly'n cynnwys cwestiynau wedi'u gosod ymlaen llaw, ond yn hytrach mae'n rhestru'r themâu a'r is-themâu allweddol y dylid holi cyfranogwyr yn eu cylch ym mhob cyfweliad. Yn lle cwestiynau defnyddir geiriau neu frawddegau byr i gyfeirio at faterion sy'n berthnasol i'r astudiaeth. Bydd yr ymchwilydd wedyn yn gallu penderfynu ar ffurf cwestiynau cychwynnol a dilynol. Mae hyn yn annog yr ymchwilydd i ymateb i'r sefyllfa, ac yn bennaf oll i dermau, cysyniadau, ieithwedd ac ymddygiad y cyfranogwyr.

A3 Nid yw'n cynnwys cwestiynau dilynol fel 'pam', 'pryd', 'sut', ac ati oherwydd bydd cyfraniadau'r cyfranogwyr yn cael eu harchwilio'n llawn mewn ymateb i'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym, er mwyn deall yr hyn sydd wrth wraidd y safbwyntiau a'r profiadau sydd wedi dod i'r amlwg. Bydd trefn ymdrin â'r materion, a'r amser a dreulir ar wahanol themâu yn amrywio rhwng cyfweliadau, ond mae'r meysydd trafod allweddol yr un peth.

A4 Wrth gwestiynu ac ymchwilio bydd ein brawddegau'n cael eu fframio i sicrhau ein bod yn deall sefyllfaoedd cyfranogwyr o'u safbwynt hwy. Bydd ymchwilwyr yn addasu'r dull i fodloni anghenion pob cyfranogwr, hyd y bo modd. Nid yw'r awgrymiadau a gynigir yn hollgynhwysol, ond yn hytrach yn cyfeirio at y mathau o gynnwys y byddai disgwyl inni eu trafod - gallai hyn amrywio ar draws cyfranogwyr â gwahanol nodweddion.

A5 Bwriedir i'r themâu yn y canllaw hwn gael eu trafod ar draws y rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan yn y cam hwn, yn hytrach na'u bod yn cael eu trafod yn fanwl ym mhob cyfweliad.

B Cyflwyniad yr ymchwilydd (tua 3 munud)

B1 **Diolch a Chyflwyniad**: Cyflwynwch chi eich hun ac IFF Research - asiantaeth ymchwil annibynnol

B2 **Ynglŷn â'r cleient**: Llywodraeth Cymru - rhan o'i rhaglen yw sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn mwyhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill (*Symud Cymru Ymlaen* a *Chenhadaeth ein Cenedl*)

B3 **Ynglŷn â'r gwaith ymchwil a phwrpas y cyfweliad**: Deall y systemau a'r arferion cyfredol sydd ar waith ar draws ALlau Cymru, a sut y gallwn wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal drwy greu model i Gymru.

B4 **Cyfraniadau anhysbys a chyfrinachedd**: Ni fydd awdurdodau lleol nac unigolion wedi'u diffinio yn yr adroddiad, ond mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol ein bod wedi cysylltu â'r holl awdurdodau lleol i gymryd rhan, ac mae'n bosibl y bydd modd iddynt gasglu pa awdurdod lleol ydych chi'n ei gynrychioli wrth ddarllen ein hadroddiad.

B5 **Sut y defnyddir eu gwybodaeth**: Mae IFF Research yn gweithredu'n unol â chanllawiau llym Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil y Farchnad. Dim ond aelodau craidd y tîm ymchwil fydd yn cael mynediad at unrhyw fanylion a ddarperir gennych. N fyddwn yn trosglwyddo unrhyw fanylion personol i'r cleient nac i unrhyw gwmni arall, a bydd yr holl wybodaeth a gesglir gennym yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol, a'i defnyddio i ddibenion ymchwil yn unig.

B6 **Hawl i ddata:** Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, i newid eich data, neu i dynnu'n ôl o'r gwaith ymchwil ar unrhyw bryd. Cewch ragor o wybodaeth am eich hawliau o dan y rheoliadau diogelu data newydd drwy fynd i iffresearch.com/gdpr. Os ydych yn dymuno, gallwn hefyd e-bostio'r wybodaeth hon atoch.

B7 **Os oes amryw o unigolion yn ymwneud â'r drafodaeth:** Gofynnwch i'r unigolion barchu cyfrinachedd y naill a'r llall, ac i beidio â rhannu cyfraniadau unigolion y tu allan i'r drafodaeth hon.

B8 **Sicrwydd:**

- nid oes unrhyw atebion cywir nac anghywir - nid ydym ond yn gofyn i bobl am eu barn a'u safbwyntiau;
- efallai nad ydych chi'n gwybod, neu nad oes gennych chi farn ynghylch rhywbeth - rhowch wybod imi, ac mi symudwn ni ymlaen;
- cysur - rhowch wybod os hoffech gael egwyl ar unrhyw bryd;
- nid archwiliad yw hwn.

B9 **Hyd:** 60 munud

B10 **Nodyn atgoffa ynghylch y recordiad sain**: bydd y drafodaeth yn cael ei recordio er mwyn inni allu casglu eu safbwyntiau'n gywir, fel y gall ymchwilwyr wrando'n ôl wrth ddadansoddi'r data. Mae'r ddyfais recordio wedi'i hamgryptio, felly dim ond tîm yr ymchwil fydd yn gallu cael mynediad at y recordiadau.

B11 **Cadarnhewch eu bod yn fodlon parhau** gan recordio.

B12 **Unrhyw gwestiynau / pryderon?**

C Cyflwyno'r cyfranogwr (tua 5 munud)

C1 **Rolau a chyfrifoldebau'r cyfranogwr**

- Ynglŷn â'i **rôl**
  - Cyfrifoldebau cyffredinol
  - Cyfrifoldebau'n gysylltiedig ag addysg LAC
  - Tîm/gwasanaeth y maent yn gweithio ynddo
  - Hyd amser yn y rôl
- Unrhyw **rolau cyfredol/o'r gorffennol** sy'n gysylltiedig ag addysg LAC

C2 **Cyflwyniad i'r awdurdod lleol**

- **Nodweddion diffiniol yr ALl**
  - Demograffeg
  - Anghenion cymorth plant a theuluoedd
  - Unrhyw ddatblygiadau allweddol sy'n effeithio ar addysg LAC
- **Nodweddion diffiniol darparu gwasanaethau plant** yn yr ALl
  - Nifer yr LAC a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys unrhyw dueddiadau o ran eu nodweddion
  - Nifer yr LAC y tu allan i'r ardal
  - Unrhyw ddatblygiadau allweddol sy'n effeithio ar addysg LAC

D Strwythur gwasanaeth (tua 5-10 munud)

D1 **Disgrifiwch sut mae'r unigolion/timau sy'n gyfrifol am addysg LAC wedi'u trefnu**

- Nifer a rolau'r staff, gan gynnwys timau LACE.
  - A oes unrhyw rolau'n rhan-amser? (OS FELLY: beth yw nifer y staff cyfwerth ag amser llawn?)
  - Beth yw nifer y staff cyfwerth ag amser llawn?
- Ym mha adran y mae'r timau LACE wedi'u lleoli o fewn yr ALl
- Deilliannau targed ar gyfer staff, ee, cyrhaeddiad, llesiant, sefydlogrwydd ac ati.
- Llinellau atebolrwydd i'r staff
- Cynnwys LAC mewn polisi neu arferion
- Cryfderau'r strwythur
- Cyfyngiadau'r strwythur
  - Anghenion hyfforddi'r staff

  - Anghenion eraill o ran adnoddau staff
- Y graddau y mae diwygiadau ADY diweddar wedi effeithio ar rôl LACE
- Sut y caiff timau LACE eu hariannu?
  - Grantiau
  - Cyllideb graidd yr ALI
  - A oes unrhyw adnoddau eraill (ee, Seicolegwyr Addysg) yn cael eu comisiynu ar gyfer asesiadau neu hyfforddiant?

E Hyfforddiant a datblygiad (tua 5 munud)

- Cefndir a hyfforddiant y rhai sy'n gweithio gyda LAC
- Cynigir hyfforddiant ychwanegol sy'n eu galluogi i roi cefnogaeth effeithiol i LAC
  - Cwmpas yr hyfforddiant
  - A ydynt wedi derbyn hyfforddiant ar arferion wedi'u seilio ar drawma ac ymlyniad
  - A oes cynllun hyfforddiant wedi'i gyhoeddi
- **A ydynt yn cynnig/cymryd rhan mewn hyfforddiant aml-asiantaeth**
  - Os felly, pwy sy'n cymryd rhan a phwy sy'n bresennol/yn cyflwyno hyn
  - Os felly, pam ddim Effaith yr hyfforddiant hwn

F Gweithio mewn partneriaeth. (tua 15 munud)

F1 Yn gryno, archwiliwch sut **mae addysg a gofal cymdeithasol yn cydweithio o fewn yr ALI**

- Rhaglenni addysg a gofal cymdeithasol ar wahân neu ar y cyd ar gyfer LAC yn yr ALI?
- Ymglymiad aml-asiantaeth wrth gyflawni a bod yn bresennol mewn cyfarfodydd CAP?

F2 Archwiliwch **sut ac i ba raddau y mae LACE yn gweithio gyda chydweithwyr yn....**

- Derbyniadau
- ADY neu AAA
- Seicoleg addysg
- Gofal cymdeithasol oedolion, hy, anabledd dysgu
- Timau cymorth cynnar
- Gwasanaethau Plant
- Tîm gadael gofal
- Swyddogion Adolygu Annibynnol

F3 **Prif gryfderau a rhwystrau i weithio mewn modd integredig o fewn gwasanaethau**

F4 Archwiliwch sut ac i ba raddau y mae **LACE yn gweithio gyda phartneriaid yn yr ALl (ee, ysgolion, iechyd, yr heddlu)**

- Ysgolion, ee, unigolyn dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion neu rolau eraill
- Unedau Cyfeirio Disgyblion
- Cydweithwyr iechyd, hy Nyrsys LAC, Lleferydd ac Iaith, CAMHS
- Addysg Bellach
- Addysg Uwch
- Darparwyr amgen
- Cryfderau gwaith partneriaeth
- Rhwystrau i waith partneriaeth

F5 Prif gryfderau a rhwystrau i weithio mewn modd integredig ar draws yr ALl

F6 Archwilio sut ac i ba raddau y mae LACE yn gweithio gydag **ALlau eraill** ee, ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal

G Casglu a monitro data (tua 15-20 munud)

G1 **Trosolwg o'r trefniadau i fonitro perfformiad addysg LAC** *(ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan eich ALl, ac sy'n derbyn gofal gan ALlau eraill)*

- **Gwybodaeth a gesglir** *Ar gyfer pob elfen a grybwyllir, gwiriwch pa mor fynych y caiff yr wybodaeth ei chasglu.*
  - Data a deilliannau addysg
    - Ysgolion y mae pob plentyn yn eu mynychu
    - Perfformiad academaidd
    - Gwaharddiadau
    - Cyrhaeddiad fesul cyfnod allweddol
    - Data presenoldeb
    - Statws cymdeithasol / emosiynol ee Holiaduron Cryfderau a Gwendidau
    - Cyrchfannau'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys nifer y NEETs
  - Deilliannau gofal cymdeithasol
    - Nifer y plant sydd yn eich gofal
    - Lle mae plant yn byw
    - Strategaethau ymyrraeth
  - Unrhyw wybodaeth arall y maent yn ei chasglu ar hyn o bryd/yn anelu i'w chasglu
    - Sgiliau a dewisiadau iaith plant
    - A yw'r plant yn gallu derbyn addysg drwy iaith o'u dewis.

- A yw'r data yn cynnwys y cyfnod o enedigaeth neu'r blynyddoedd cynnar (hyd at 3 oed) ac ar ôl 16 oed.
- Sail resymegol ar gyfer y deilliannau hyn
- Pwy sy'n cael mynediad/sydd heb fynediad at yr wybodaeth hon
- Cryfderau
- Cyfyngiadau

- **Dull o gasglu**
  - Cynllun Addysg Personol (CAP)
  - Llais y plentyn
    - Pwy sy'n cael yr wybodaeth? Sut y caiff ei defnyddio
- **Y dull o'i storio**
  - Y gronfa ddata a ddefnyddir
  - A oes gan dimau LACE a gofal cymdeithasol systemau ar wahân? A oes ganddynt fynediad at systemau'r naill a'r llall
  - Cryfderau
  - Cyfyngiadau
- **Data ar berfformiad sicrwydd ansawdd**
  - Y broses SA, gan gynnwys pwy sy'n ymwneud â hynny a graddfeydd amser allweddol
  - Cryfderau
  - Cyfyngiadau
- **Adrodd ar ddata perfformiad**
  - A oes adroddiad blynyddol? Os felly, ar gyfer pwy (y Cyfarwyddwr, aelodau)
  - Pa ddeilliannau a gaiff eu hadrodd? Ai rhai addysgol ydynt yn unig?
  - Unrhyw dueddiadau/mesurau hydredol yn cael eu hadrodd?
- **Sut mae data perfformiad addysg LAC yn cael eu defnyddio.** *Ar gyfer pob un, esboniwch pwy sy'n gyfrifol am gyfathrebu, sut, pwy a chyfyngiadau.*
  - I fesur cynnydd
    - A yw timau LACE yn cyflwyno adroddiad blynyddol? Os felly, i bwy? ee, Bwrdd Rhianta Corfforaethol?
  - Yn sail ar gyfer arferion o fewn y gwasanaeth
  - Yn sail ar gyfer arferion gyda phartneriaid
  - I gysylltu â data eraill, o fewn yr ALl a thu hwnt
  - I gymharu ag ALlau eraill
  - I ddathlu cyflawniadau LAC
- **Awgrymiadau er mwyn gwella'r wybodaeth am berfformiad addysgol LAC**
  - Er mwyn deall cynnydd unigol LAC

H1 Gwirio a ydynt yn gyfarwydd ag argymhellion adroddiad Macdonald - atgoffa os oes angen

- Y farn gyffredinol
- Pa argymhellion sy'n amlwg yn arbennig o werthfawr
- A ydynt yn anghytuno ag unrhyw argymhellion

H2 Mae'r adroddiad yn argymell y dylai pob ALl yng Nghymru fabwysiadu Pennaeth Ysgol Rithiol a sefydlu Ysgolion Rhithwir.

- Safbwyntiau cyffredinol?
- Safbwyntiau ynghylch rôl Pennaeth Ysgol Rithwir
- Teitl?
- Statws/lefel y swydd? I bwy y mae'n adrodd? Pwy sy'n adrodd wrtho/wrthi?
- A ddylai fod yn ofynnol cael SAC?
- A ddylai'r strwythur fod yn gyson ar draws yr holl ALlau?

H3 Mae'r ail argymhelliad yn trafod faint o gyllid y byddai ei angen er mwyn galluogi dull integredig o gefnogi LAC a'r dull o strwythuro hynny.

- Safbwyntiau cyffredinol
- Safbwyntiau ynghylch cyllido rôl Pennaeth Ysgol Rithwir a'r tîm
- Safbwyntiau ynghylch Pennaeth Ysgol Rithwir i reoli LAC

H4 Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud â phwysigrwydd cael data cyson, cyfredol o ansawdd uchel.

- Safbwyntiau cyffredinol
- Unrhyw heriau neu risgiau

H5 **Yn rhan o'r pedwerydd argymhelliad mae angen hyfforddiant, a hynny'n benodol ar arferion wedi'u llywio gan Drawma ac Ymlyniad.**

- Y farn gyffredinol
- Unrhyw hyfforddiant arall a dybir yn angenrheidiol

H6 Mae'r argymhelliad terfynol yn trafod angen i ehangu'r mesurau ar gyfer yr hyn a ystyrir yn ddeilliannau addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

- Safbwyntiau cyffredinol
- Canolbwyntio ar gynnydd vs canlyniadau cyffredinol
- Llwybrau dilyniant yn 16 ac yn 18 oed, gan gynnwys nifer y NEETS
- Mesuriadau llesiant, gan gynnwys gwytnwch
- Cyswllt dilynol yn 21 a 25 oed

I Sylwadau olaf a chloi'r drafodaeth (tua 5 munud)

I1 **Bethsydd eisoes yn gweithio'n** dda yng Nghymru y dylid ei gadw yn y model newydd

I2 Pa arferion **sy'n llai effeithiol** ac y mae angen ymdrin â nhw mewn model newydd.

I3 **Sylwadau terfynol**

I4 Gwirio a oes unrhyw **un arall y dylem siarad â nhw** neu unrhyw ddogfennau **a fyddai'n ddefnyddiol** ar gyfer yr ymchwil. Gwirio swydd-ddisgrifiadau Cydgysylltwyr LACE yn benodol.

I5 Diolch, ac atgoffa ynghylch **cyfrinachedd a'r ffaith bod unrhyw sylwadau a wnaed yn anhysbys**, ac i **gysylltu** os byddant yn meddwl am unrhyw beth arall sy'n bwysig ar gyfer y gwerthusiad.

## Canllaw pwnc enghreifftiol - Trafodaethau â grŵp o bobl ifanc sydd wedi profi gofal

A Pwrpas ac egwyddorion y cyfweliad

A1 Dylid defnyddio'r canllaw hwn ar gyfer un drafodaeth grŵp â phobl ifanc sydd wedi profi gofal. Bydd y grŵp yn cael ei gynnal ddydd Llun, 8 Mawrth am 3pm, ac yn para awr o leiaf. Bydd trafodaethau'n ein helpu i ddeall safbwyntiau pobl ifanc ynghylch y gefnogaeth ym myd addysg sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal, a'u safbwyntiau ynghylch elfennau a gynigir ar gyfer model Cymreig a fydd yn creu ymagwedd integredig at addysg LAC.

A2 Bwriedir i'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio gyda chymysgedd o unigolion â nodweddion a chefndiroedd amrywiol. Nid yw felly'n cynnwys cwestiynau wedi'u gosod ymlaen llaw, ond yn hytrach mae'n rhestru'r themâu a'r is-themâu allweddol y dylid holi cyfranogwyr y grŵp yn eu cylch. Yn lle cwestiynau defnyddir geiriau neu frawddegau byr i gyfeirio at faterion sy'n berthnasol i'r astudiaeth. Bydd yr ymchwilydd wedyn yn gallu penderfynu ar ffurf cwestiynau cychwynnol a dilynol. Mae hyn yn annog yr ymchwilydd i ymateb i'r sefyllfa, ac yn bennaf oll i dermau, cysyniadau, ieithwedd ac ymddygiad y cyfranogwyr.

A3 Nid yw'n cynnwys cwestiynau dilynol fel 'pam', 'pryd', 'sut', ac ati oherwydd bydd cyfraniadau'r cyfranogwyr yn cael eu harchwilio'n llawn mewn ymateb i'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym, er mwyn deall yr hyn sydd wrth wraidd y safbwyntiau a'r profiadau sydd wedi dod i'r amlwg.

A4 Wrth gwestiynu ac ymchwilio bydd ein brawddegau'n cael eu fframio i sicrhau ein bod yn deall sefyllfaoedd cyfranogwyr o'u safbwynt hwy. Bydd ymchwilwyr yn addasu'r dull i fodloni anghenion pob cyfranogwr, hyd y bo modd. Nid yw'r awgrymiadau a gynigir yn hollgynhwysol, ond yn hytrach yn cyfeirio at y mathau o gynnwys y byddai disgwyl inni eu trafod - gallai hyn amrywio ar draws cyfranogwyr â gwahanol nodweddion.

A5 **TASG YMLAEN LLAW**- Byddwn yn annog y bobl ifanc i gwblhau gweithgaredd byr cyn cynnal y grŵp. Gofynnir i'r bobl ifanc ddod ag eitem o'u tŷ, i dynnu llun neu ganfod llun ar-lein sydd yn cynrychioli sut maen nhw'n hoffi dathlu llwyddiant. Er enghraifft, rhuban, i gynrychioli dathlu llwyddiant drwy dderbyn bathodyn neu wobr, ffôn symudol i gynrychioli dathlu llwyddiant drwy alwad ffôn

neu neges-destun anffurfiol, pizza i gynrychioli dathlu llwyddiant dros bryd blasus gyda ffrindiau.

B Cyflwyniad yr ymchwilydd (tua 5 munud)

B1 **Diolch a Chyflwyniad**: Cyflwynwch chi eich hun, y sawl sy'n cymryd nodiadau ac IFF Research - cwmni ymchwil sy'n annibynnol ar y llywodraeth a'u hawdurdod lleol

B2 **Ynglŷn â'r cleient**: Llywodraeth Cymru - rhan o'i rhaglen yw sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael cyfleoedd da mewn bywyd

B3 **Ynglŷn â'r gwaith ymchwil a phwrpas y cyfweliad**:

- I glywed sut rydych chi'n teimlo am y modd y mae oedolion yn yr awdurdod lleol a'ch ysgol yn cefnogi eich addysg a llesiant
- I rannu rhai syniadau er mwyn gwella'r ffordd y mae pobl ifanc fel chi yn cael cefnogaeth yn eich addysg, ac i glywed eich safbwyntiau - boed gadarnhaol neu negyddol - ynghylch y syniadau hynny. Mae'r syniadau hyn yn adeiladu ar safbwyntiau gweithwyr cymdeithasol ac athrawon yr ydym wedi bod yn siarad â nhw yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn, felly mae'n bwysig eich bod yn cael cyfle i gyfrannu.

B4 **Cyfraniadau anhysbys a chyfrinachedd**: Dim ond y bobl yn y grŵp yma fydd yn gwybod eich bod wedi cymryd rhan, a'r hyn rydych chi wedi'i ddweud: ni fyddwn yn enwi unrhyw un mewn unrhyw adroddiadau na dogfennau. Gofynnwch i'r unigolion barchu cyfrinachedd y naill a'r llall, ac i beidio rhannu'r cyfraniadau a wneir gan unigolion yn y drafodaeth hon y tu allan iddi.

B5 **Sut y defnyddir eu gwybodaeth**: Mae IFF Research yn gweithredu'n unol â chanllawiau llym Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil y Farchnad. Dim ond aelodau craidd y tîm ymchwil fydd yn cael mynediad at unrhyw fanylion a ddarperir gennych. N fyddwn yn trosglwyddo unrhyw fanylion personol i'r cleient nac i unrhyw gwmni arall, a bydd yr holl wybodaeth a gesglir gennym yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol, a'i defnyddio i ddibenion ymchwil yn unig.

B6 **Hawl i ddata:** Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, i newid eich data, neu i dynnu'n ôl o'r gwaith ymchwil ar unrhyw bryd. Cewch ragor o wybodaeth am eich hawliau o dan y rheoliadau diogelu data newydd drwy fynd i iffresearch.com/gdpr. Os ydych yn dymuno, gallwn hefyd e-bostio'r wybodaeth hon atoch.

B7 **Sicrwydd:**

- nid oes unrhyw atebion cywir nac anghywir - nid ydym ond yn gofyn i bobl am eu barn a'u safbwyntiau;
- efallai nad ydych chi'n gwybod, neu nad oes gennych chi farn ynghylch rhywbeth - rhowch wybod imi, ac mi symudwn ni ymlaen;
- cysur - rhowch wybod os hoffech gael egwyl ar unrhyw bryd;
- dim cysylltiad â'r awdurdod lleol, y llywodraeth na'r ysgol, felly cewch fod mor onest ag y dymunwch

B8 **Hyd:** 60 munud

B9 **Nodyn atgoffa ynghylch y recordiad sain**: bydd y drafodaeth yn cael ei recordio er mwyn inni allu casglu eu safbwyntiau'n gywir, fel y gall ymchwilwyr wrando'n ôl wrth ddadansoddi'r data. Mae'r ddyfais recordio wedi'i hamgryptio, felly dim ond tîm yr ymchwil fydd yn gallu cael mynediad at y recordiadau.

B10 **Cadarnhewch eu bod yn fodlon parhau** gan recordio.

B11 **Gwiriwch fod pawb wedi dod â'r eitem y gofynnwyd amdani**

B12 **Unrhyw gwestiynau / pryderon?**

C Cyflwyno'r cyfranogwyr (tua 5 munud)

C1 DEFNYDDIO BWRDD GWYN ZOOM - **ysgrifennu eu henw cyntaf a'u hoff fwyd**

C2 **Holwch sut maen nhw'n treulio eu hamser** ee, diddordebau/gweithgareddau, ffrindiau/teulu, y gymuned

D Dathlu llwyddiant (tua 7-10 munud)

D1 **Gweithgaredd cyflwyno -**Dywedwch wrth bawb am afael yn eu heitem, a'r naill ar ôl y llall bydd pawb yn dangos eu heitem ac yn disgrifio sut mae'n cynrychioli'r ffordd maen nhw'n hoffi dathlu llwyddiant, gan ddechrau gyda'r hwylusydd yn cyflwyno ei eitem yntau/hithau.

Rhowch **grynodeb** byr o themâu cyffredin a gwahaniaethau**.**

D2 Archwiliwch sut mae **dathlu llwyddiant yn gwneud iddyn nhw deimlo**

- Cyffrous, hapus, pryderus, anghyffyrddus, niwtral
- Pryd bydd dathlu cyflawniadau yn deimlad da/heb fod cystal
  - Pwy sydd yna
  - Lleoliad
  - Amseru

D3 Wrth feddwl am **lwyddiant yn yr ysgol**, fel rhoi cynnig ar rywbeth newydd, cwblhau cwrs; holwch sut maent eisiau dathlu

- Pwy sy'n cymryd rhan - neb (un wrth un), neu eraill ee, ffrindiau, teulu, aelodau eraill y dosbarth, y pennaeth, athrawon, gweithiwr cymdeithasol
- Sut ydych chi'n cael eich llongyfarch, ee, tystysgrif, cyhoeddiad, parti, digwyddiad

D4 Yn fyr, holwch sut y byddai'n teimlo **i weld cyflawniadau pobl eraill yn cael eu dathlu**

E Helpu timau'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i gydweithio (tua 30-35 munud)

E1 Esboniwch fod yr ymchwil yn holi sut orau i helpu timau'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i gydweithio i fodloni anghenion pobl ifanc fel nhw. **Gan feddwl am eu profiadau eu hunain yn yr ysgol, holwch un peth y maen nhw am ei newid yn y modd y mae oedolion yn eu helpu i lwyddo mewn addysg**.

- Beth fyddai'r newid
- Pwy fyddai'n ymwneud â'r newid
- Sut fydden nhw'n ymwneud â'r newid
- Beth mae'r newid yna'n ei olygu iddyn nhw

E2 Un syniad ar gyfer gwneud hyn yw sefydlu rôl newydd mewn awdurdodau lleol. Byddai'r person yma'n gweithio ar lefel uwch na'r Cydgysylltydd LACE a'r Athro Dynodedig, a byddai ganddo'r grym i drefnu mwy o gymorth i CEYP, ac i annog penaethiaid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n eu cefnogi i wneud yn well ar eu rhan. **Holwch am eu hargraffiadau cychwynnol o'r rôl uwch yma.**

- Yn ei hoffi/ddim yn ei hoffi
- Rhagdybiaethau ynghylch yr hyn y gallai'r person yma ei wneud ar eu rhan

E3 Esboniwch y byddai'r person yma'n gweithio i sicrhau bod **newid ysgolion** yn broses rwyddach, a holwch eu barn ynghylch hynny

- Beth sy'n gweithio'n dda/heb weithio cystal wrth newid ysgolion
- I'r rhai sydd â phrofiad o symud ysgol, holwch beth fyddai wedi gwneud hynny'n **haws**, y byddent am gael cymorth y person lefel uwch yma ar ei gyfer.

E4 Esboniwch y byddai'r person hwn yn annog athrawon a gweithwyr cymdeithasol i ganolbwyntio ar **lesiant** pobl ifanc fel nhw, yn ogystal â chyrhaeddiad addysgol. Wrth gyfeirio at lesiant, yr hyn yr ydym yn ei olygu yw'r cysylltiadau sydd ganddynt â ffrindiau a pherthnasau. **Holwch sut fyddent yn teimlo pe bai athrawon a gweithwyr cymdeithasol yn eu holi mwy ynghylch eu llesiant.**

- Beth fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n fwy/llai cyffyrddus wrth drafod eu llesiant.
- Sut fyddent eisiau trafod eu llesiant, ee, pwy, pryd ac ym mha ffyrdd.
- Pwy fydden nhw'n teimlo'n fwy/llai cyffyrddus yn siarad â nhw am eu llesiant.

E5 **Gofynnwch pa newidiadau eraill yr hoffen nhw eu gweld o ran y modd y mae** timau'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cydweithio

F Sylwadau olaf a chloi'r drafodaeth (tua 3 munud)

F1 **Sylwadau olaf**

F2 **Cwestiynau am yr ymchwil**

F3 Diolch, ac atgoffa ynghylch **cyfrinachedd a'r ffaith bod unrhyw sylwadau a wnaed yn anhysbys**

# Atodiad B - Mesur deilliannau

## Cymharu dulliau o gasglu data plant sy'n derbyn gofal

### Lloegr

Yn Lloegr, cynhelir cyfrifiad blynyddol o blant sy'n derbyn gofal - yr SSDA903.[1] Mae'n casglu data ar yr holl blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, yn ogystal â'r rhai a adawodd y system ofal yn ddiweddar, hyd at 21 oed. Cesglir y data drwy ffurflen ar y we y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei llenwi. Mae'r SSDA903 yn trafod ystod eang o wybodaeth a deilliannau ar agweddau cymdeithasol a llesiant, gan gynnwys:

- Gwybodaeth bersonol a demograffig gan gynnwys statws ceisiwr lloches
- Gwybodaeth am leoliadau ac achosion mabwysiadu gan gynnwys dyddiadau a rhesymau dros 'episodau' gofal
- Gwybodaeth am iechyd, gan gynnwys archwiliadau deintyddol gwybodaeth imiwneiddio
- Camddefnyddio sylweddau ac euogfarnau
- Sgoriau'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ)
- Cyrchfannau'r rhai sy'n gadael gofal

Yn ogystal â'r SSDA903, bydd yr Adran Addysg [2] hefyd yn cyhoeddi ystadegau ynghylch deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal. Ar hyn o bryd, caiff yr ystadegau hyn eu rhyddhau ar ffurf adroddiad blynyddol, ond mae cynlluniau wedi'u hamlinellu i gyhoeddi'r ystadegau drwy lwyfan ryngweithiol. Yn yr adroddiad hwn, caiff deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal eu cymharu yn erbyn plant eraill.

- Statws o ran AAA
- Cyrhaeddiad yng nghyfnodau allweddol 1, 2, 3 a 4
- Cynnydd mewn cyfnodau allweddol - wedi'i fesur ar lefel gyfanredol yn ôl y cynnydd a wnaed rhwng cyfnodau
- Presenoldeb a gwaharddiadau

[1] Department of Education - Children looked after by local authorities in England Guide to the SSDA903 collection 1 April 2020 to 31 March 2021 – version 1.2, October 2020

[2] Department for Education - Outcomes for children looked after by local authorities in England, 31 March 2019, March 2020

- Cyrchfannau ar ôl cyfnod allweddol 4

**Cymru**

Mae Cymru'n defnyddio dull tebyg i'r hyn a ddefnyddir yn Lloegr, ond mae'r ystod o ddeilliannau a fesurir yn fwy cyfyng. Bydd y 'Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth' [3] yn casglu data gan awdurdodau lleol ar blant dan 18 oed a chanddynt gynllun gofal a chymorth, gan gynnwys:

- Gwybodaeth bersonol a demograffig, gan gynnwys categori angen, ffactorau'n ymwneud â'r rhieni a statws ceisio lloches.
- Statws o ran AAA a Phrydau Ysgol am Ddim
- Gwybodaeth iechyd, gan gynnwys archwiliadau deintyddol a statws iechyd meddwl
- Camddefnyddio sylweddau ac euogfarnau
- Cyrhaeddiad yng nghyfnodau allweddol 2,3 a 4
- Presenoldeb a gwaharddiadau

Er mwyn canfod deilliannau addysg, caiff y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ei baru â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) drwy ddefnyddio Rhif Adnabod y Disgybl, gan nad yw'r CYBLD bellach yn cynnwys marciwr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd Adroddiad Syr Alasdair yn argymell y dylid ailystyried y penderfyniad ynghylch y marciwr i blant sy'n derbyn gofal. Cafodd y marciwr ei ddileu am resymau'n ymwneud â GDPR.[4] Gellir dadansoddi

[3]Llywodraeth Cymru -Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, 2019, Mawrth 2020

[4] Tynnwyd tri maes yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn 2019. Cafodd y data eu hepgor gan mai data personol yr oeddent, ac nad oedd ar Lywodraeth Cymru eu hangen mwyach wedi i'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth eu disodli. Yn ôl y gyfraith o dan y GDPR, ni chaiff Llywodraeth Cymru gasglu data personol nad ydym yn eu defnyddio, neu nad oes gennym angen penodol amdanynt y gellir ei gyfiawnhau. Mae'r CYBLD a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y naill a'r llall, yn casglu Rhif Unigryw'r Disgybl (RhUD) ar gyfer pob unigolyn, fel bo modd i Lywodraeth Cymru gysylltu'r data. Gan hynny, byddai casglu data plant sy'n derbyn gofal yn CYBLD ac yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn debygol o achosi anghysondeb a allai beryglu dibynadwyedd a'r gallu i ddefnyddio'r data, o ran pa ffynhonnell fyddai'n cynnig y nifer cywir. Mae casglu'r un data ddwywaith hefyd yn creu baich gweinyddol diangen ar ein hysgolion a'n hawdurdodau lleol, ac mae Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiadau rheolaidd o'i holl gasgliadau data er mwyn lleihau beichiau o'r fath hyd yr eithaf.

cyrhaeddiad fesul cyfnod allweddol yn ôl awdurdod lleol, lle bydd niferoedd sylfaen yn caniatáu.

**Yr Alban**

Ar y cyfan, nid yw'r data a gesglir yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal mor gynhwysfawr â'r data a gesglir yng Nghymru neu yn Lloegr. Ni cheir cyfrifiad o blant sy'n derbyn gofal. Yn lle hynny, rhaid casglu data o wahanol ffynonellau. Mae hyn yn destun pryder neilltuol o ran gofal cymdeithasol, llesiant a chyrchfannau ar ôl addysg, gan ei bod hi'n anodd iawn olrhain hynt yr unigolyn, a gallai'r data fod yn anghyflawn. Y prif fecanwaith ar gyfer casglu data ar ddeiliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yw cysylltu data'r awdurdod lleol â Rhif Ymgeisydd yr Alban (SCN). Drwy wneud hyn, gellir echdynnu data ar y canlynol:

- Math o lety
- Oedran wrth adael yr ysgol
- Cyrhaeddiad mewn cyfnodau allweddol a'r lefel uchaf o gymhwyster
- Presenoldeb a gwaharddiadau
- Cyrchfannau ar ôl yr ysgol

Pennir SCN i bob plentyn wrth ddechrau'r ysgol. Fodd bynnag, ni fydd SCN bob amser yn cael ei bennu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac mae gallu awdurdodau lleol i ddarparu data SCN yn amrywio. Er enghraifft, dim ond 61% o blant yn Ninas Glasgow oedd ag SCN.[5] Mae hyn yn golygu nad yw'r data ond yn cynrychioli is-set o blant sy'n derbyn gofal yn yr Alban, ar y gorau.

[5] https://www.gov.scot/publications/education-outcomes-looked-children-2018-19/pages/8/

**Mesurau a gesglir ar hyn o bryd yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru**

| Categori | Deilliant / newidyn monitro | Dangosyddion enghreifftiol | Casglu Data | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | Cyrhaeddiad | • Darllen, ysgrifennu a mathemateg yng nghyfnodau allweddol 2,3 a 4<br>• Canlyniadau arholiadau cenedlaethol | CYBLD | Caiff Rhif Unigryw'r Disgybl (RhUD) ei baru â'r Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth |
| | Presenoldeb | • Diwrnodiau'n absennol<br>• Diwrnodiau addysg y tu allan i'r ysgol | CYBLD | Caiff Rhif Unigryw'r Disgybl (RhUD) ei baru â'r Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth |
| | Gwaharddiadau | • Gwaharddiadau cyfnod penodol<br>• Gwaharddiadau parhaol | CYBLD | Caiff Rhif Unigryw'r Disgybl (RhUD) ei baru â'r Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth |
| | Statws Prydau Ysgol am Ddim ac AAA | • Cymhwystra i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim<br>• Math o angen ychwanegol<br>• Categori angen | CYBLD | Caiff Rhif Unigryw'r Disgybl (RhUD) ei baru â'r Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth |
| **Gofal cymdeithasol** | Gwybodaeth ddemograffig | • Rhywedd<br>• Dyddiad Geni<br>• Dewisiadau o ran y Gymraeg<br>• Statws ceisio lloches | Cyfrifiad CLA a’r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Cofnodir gwybodaeth ddemograffig safonol yn y Cyfrifiad CLA a’r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Episodau gofal | • Dyddiad wrth dderbyn i'r system<br>• Rhesymau dros gael eu derbyn i'r system/categori camdriniaeth/esgeulustod<br>• Math o ofal a ddarperir<br>• Amser a dreuliwyd y tu allan i'r system | Cyfrifiad CLA<br>Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Mae'r Cyfrifiad CLA yn casglu data ar episodau gofal, gan gynnwys statws cyfreithiol yr episod a chategori'r esgeulustod/gamdriniaeth. Yn ddamcaniaethol, gellid olrhain pob plentyn dros gyfnod a nodi'r cyfnodau y tu allan i'r system ofal.<br><br>Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth hefyd yn casglu data ar y prif reswm dros ddechrau darparu gwasanaethau gofal a chymorth i'r plentyn. |
| | Statws o ran anabledd | • Math o nam<br>• Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth | Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn cofnodi namau corfforol a meddyliol, ac a oes gan blentyn Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth |
| | Sefydlogrwydd y lleoliad gofal | • Nifer y lleoliadau<br>• Math o leoliad | Cyfrifiad CLA | **Yn deillio o ddata ar 'episodau gofal'** |
| | Cyrchfannau ôl-ofal | • Math o lety wrth adael gofal | Cyfrifiad CLA | Bydd trefniadau byw y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu cofnodi pan fydd y gofal yn dod i ben. |
| | Ymwneud â'r system gyfiawnder - tra bo'r plentyn yn derbyn gofal | • Cyfraddau troseddu | Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Bydd plentyn wedi'i gynnwys yn y ffigurau troseddau ieuenctid os oes cynllun wedi'i sefydlu ar ei gyfer gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid |
| | Deilliannau cymdeithasol ac iechyd - tra bo'r plentyn yn derbyn gofal | • Problemau iechyd meddwl<br>• Camddefnyddio sylweddau | Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Problemau iechyd meddwl yn ôl diagnosis ymarferydd meddygol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Diffinnir camddefnyddio sylweddau fel defnydd gormodol rheolaidd o sylweddau seicoweithredol ac/neu ddibyniaeth arnynt<br><br>Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth hefyd yn olrhain deilliannau iechyd cyffredinol ac ymddygiadau fel archwiliadau deintyddol, ac a yw'r plentyn wedi cael ei imiwneiddio. |

## Mesurau yn y dyfodol y dylid eu casglu yn rhan o fodel newydd i Gymru

| Categori | Deilliant / newidyn monitro | Dangosyddion enghreifftiol | Dull posibl o gasglu data | Sail resymegol |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | Cynnydd | • o'r adeg pan gaiff plentyn ei dderbyn i'r system<br>• Rhwng cyfnodau allweddol<br>• Yn seiliedig ar dargedau wedi'u personoli | CAP ar-lein safonedig ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal yng Nghymru | O fewn y CAP dylai fod yn bosibl cofnodi targedau addysg wedi'u personoli, yn seiliedig ar fewnbwn ar y cyd gan y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac olrhain cyrhaeddiad dros amser.<br><br>Does dim rhaid i'r targedau fod yn gysylltiedig ag arholiadau cenedlaethol o reidrwydd, a gallent gynnwys darlun mwy cyfannol o gynnydd addysgol.<br><br>Byddai'r gyfradd ar gyfer 'cyrraedd' targedau yn datblygu i fod yn brif ddangosydd ar gyfer effaith ymyraethau, o ran ychwanegu gwerth. |
| | Sefydlogrwydd lleoliad ysgol | • Nifer yr ysgolion<br>• Math o ysgol | Paru RhDU â'r Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Mae'n debygol y bydd lleoliadau ysgol lluosog ac ansefydlog yn cael effaith niweidiol ar gyrhaeddiad addysgolplant sy'n derbyn gofal.<br><br>Yn ddamcaniaethol, mae hi eisoes yn bosibl olrhain nifer a math y lleoliadau ysgol a gaiff plant sy'n derbyn gofal, drwy baru'r RhDU â datganiadau'r Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gofal a Chymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddeilliant/newidyn yr adroddir amdano ar hyn o bryd, ac nid yw ychwaith yn hawdd cael gafael arno i ddibenion dadansoddi. |
| | Addysgwyd drwy ddarpariaeth amgen (EOTAS) | • P'un a addysgwyd oddi-ar-safle, a thrwy ba fathau o ddarpariaeth amgen | Math o ddarpariaeth addysgol sydd i'w gynnwys yn y Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Nid oes fframwaith cenedlaethol cyfun i olrhain deilliannau plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn cael eu casglu ar ffurflenni CYBLD. Ar ben hynny, nid yw plant sy'n derbyn gofal wedi'i gynnwys fel categori dadansoddi ar gyfer y data EOTAS sydd ar gael ar StatsCymru.<br><br>Heb y data hyn, mae'n amhosib olrhain deilliannau addysg llawer o blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny i ddeall effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth amgen. |
| | Cyrchfannau ar ôl addysg hyd at 21 oed | • Statws NEET<br>• Hyd amser NEET | Ymestyn y Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth hyd at 21 oed, gan gynnwys statws NEET<br><br>Cynnwys dangosydd plant sy'n derbyn gofal/CEYP yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru | Gall deilliannau tymor hwy CEYP ar ôl troi'n oedolyn roi adlewyrchiad cywirach o lwyddiant cymharol unrhyw ymyraethau yn ystod plentyndod.<br><br>Hyd 2016-17, roedd SSDA903 yn cofnodi statws NEET ar gyfer CEYP ar eu pen-blwydd yn 19 oed. Peidiwyd â chasglu'r data hyn pan ddisodlwyd SSDA903 gan y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.<br><br>Mae StatsCymru yn cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET. Mae hyn yn seiliedig ar ddata a gesglir o CYBLD a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae statws plant sy'n derbyn gofal/CEYP wedi'i gynnwys fel newidyn yn y ffynonellau data hyn, felly nid oes modd creu amcangyfrif ar gyfer CEYP yn yr ystod oedran hwn. |
| | Cyrchfannau ôl-ofal hyd at 21 oed | • Math o lety | Ymestyn y Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth hyd at 21 oed, | Gall deilliannau tymor hwy CEYP ar ôl troi'n oedolyn roi adlewyrchiad cywirach o lwyddiant cymharol unrhyw ymyraethau yn ystod plentyndod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ar hyn o bryd, mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn cofnodi'r math o lety ar gyfer CEYP wrth i'w statws fel plentyn sy'n derbyn gofal ddod i ben. Ar ôl hynny, nid oes unrhyw fframwaith cyson cenedlaethol i olrhain y deilliant hwn ar gyfer CEYP. |
| | Ymwneud â'r system gyfiawnder - hirdymor | • Cyfraddau troseddu | Ymestyn y Cyfrifiad CLA a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth hyd at 21 oed, | Gall deilliannau tymor hwy CEYP ar ôl troi'n oedolyn roi adlewyrchiad cywirach o lwyddiant cymharol unrhyw ymyraethau yn ystod plentyndod.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata cenedlaethol yn cael eu casglu'n gyson ar CEYP mewn perthynas â'r system gyfiawnder. |
| | Deilliannau cymdeithasol ac iechyd - hirdymor | • Problemau iechyd meddwl<br>• Camddefnyddio Sylweddau | Ymestyn y Cyfrifiad CLA a Phlant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth hyd at 21 oed, | Gall deilliannau tymor hwy CEYP ar ôl troi'n oedolyn roi adlewyrchiad cywirach o lwyddiant cymharol unrhyw ymyraethau yn ystod plentyndod.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata cenedlaethol yn cael eu casglu'n gyson ar CEYP mewn perthynas â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. |
| | Llesiant emosiynol | • Sgoriau'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau | Dylai dangosyddion llesiant ddod yn ddeilliant statudol i bob plentyn ysgol yng Nghymru.<br>CAP ar-lein safonedig i bawb yng Nghymru | Wrth symud tuag at ddarlun mwy cyfannol o fesur deilliannau plant sy'n derbyn gofal a CEYP, mae'n rhaid canolbwyntio ar lesiant cyffredinol. Os bydd y weithred o fesur llesiant yn datblygu i fod yn statudol, dylid cymhwyso hynny i'r cohort cyfan, nid i blant sy'n derbyn gofal yn unig.<br>Mae awdurdodau lleol yn cymhwyso dulliau amrywiol i fesur llesiant, gan gynnwys Proffiliau Boxall a Graddfeydd Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin.<br>Un o'r dulliau hynny a ddefnyddir yn eang yng Lloegr, ac y gellid hefyd ei ddefnyddio yng Nghymru, yw'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ). |

## Atodiad C - Rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir

Cafodd y swydd-ddisgrifiad enghreifftiol hon ei drafftio'n seiliedig ar yr adolygiad o ddeunydd darllen ac ar ymchwil uniongyrchol gyda Chydgysylltwyr LACE a rhanddeiliaid eraill o fewn awdurdodau llawn i gyfrifoldebau rôl o'r fath, y gofynion y dylai'r deilydd swydd eu bodloni a'r setiau sgiliau y dylai feddu arnynt. Y mae hefyd wedi'i lywio gan ddadansoddiad o swydd-ddisgrifiadau y bu modd i IFF gael gafael arnynt ar gyfer rolau tebyg yn Lloegr, yr Alban ac Awstralia.

Sylwch mai pwrpas y swydd-ddisgrifiad enghreifftiol hwn yw creu darlun o'r hyn y gallai'r rôl ei gynnwys, a'r math o unigolyn a allai fod yn briodol ar gyfer y swydd. Enghreifftiau yw teitl y swydd, y strwythur adrodd, y tâl, a gwybodaeth fanwl arall, ac ni fwriedir iddynt gael eu hystyried yn argymhelliad ar gyfer cyfnod peilot nac yn arfer safonol i'r dyfodol. Yn naturiol, bydd yr union ofynion a chyfrifoldebau'n amrywio yn ôl awdurdod lleol, yn dibynnu ar strwythurau presennol, ac ar faint y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal.

| **1 Manylion y Swydd** | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | Rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir |
| Yn adrodd wrth: | Cyfarwyddwr Addysg<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant |
| Gwasanaeth: | Ysgol Rithwir Plant sy'n Derbyn Gofal |
| Graddfa gyflog: | Yn cyfateb â chyflogau lleol Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth |

| **2 Pwrpas y Swydd** |
|---|
| Rôl y sawl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir yw goruchwylio a hyrwyddo buddiannau pob plentyn sy'n derbyn gofal o fewn ei ysgol rithwir. Bydd hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a leolir oddi mewn ac oddi allan i ffiniau'r awdurdod lleol, a dylai hefyd gynnwys rhai a oedd gynt yn derbyn gofal, a rhai ar ymylon gofal, hyd at 24 oed. Bydd yn gweithio ar lefel uwch, strategol ac yn rheoli a chydweithio â rhanddeiliaid perthnasol i wella deilliannau cyffredinol plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Bydd deilydd y swydd yn adrodd wrth y Cyfarwyddwr Addysg a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant ar y cyd (neu wrth y deilydd swydd perthnasol mewn adran Addysg a Gwasanaethau Plant integredig). O ran y penderfyniadau a wneir ynghylch plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, bydd yr un pwys arnynt â phenderfyniadau gan benaethiaid eraill.<br><br>Byddant yn rheoli tîm amlddisgyblaeth o weithwyr proffesiynol addysg a gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Mae'r rôl yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r deilydd swydd weithredu ar ran plant a leolir yr tu allan i'w ardal awdurdod lleol, gan olygu bod cydweithio â chynghorau eraill |

a'u timau/prosesau lleol yn rhan annatod o'r swydd.

Dyma'r dyletswyddau'r rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Ysgol Rithwir:

- Goruchwylio a monitro pob plentyn sy'n derbyn gofal a CEYP y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Cynllunio'n strategol i wella deilliannau cyffredinol plant sy'n derbyn gofal
- Cydweithio â phenaethiaid a gweithwyr proffesiynol eraill mewn addysg a gwaith cymdeithasol, a dylanwadu arnynt, er mwyn cynrychioli buddiannau plant sy'n derbyn gofal
- Rheoli tîm amlddisgyblaeth
- Ymyrraeth uniongyrchol mewn achosion penodol

## 3 Canlyniadau

Disgwylir i ddeilydd y swydd gyflwyno adroddiad ffurfiol yn rheolaidd (chwe-misol o leiaf) i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar y deilliannau canlynol:

- Gwella cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal
- Sicrhau y bodlonir anghenion llesiant a chymdeithasol plant sy'n derbyn gofal y mae'n gyfrifol amdanynt
- Gwella effeithiolrwydd ymyraethau i gychwyn a nodi arfer gorau
- Sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol a thimau sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu swydd
- Parhau i oruchwylio a gweithredu ar ran pob plentyn sy'n derbyn gofal, p'un a yw wedi'i leoli oddi mewn neu oddi allan i ffiniau'r awdurdod lleol.
- Monitro ac ysgogi deilliannau hirdymor plant sy'n derbyn gofal

## 4 Gofynion

Mae angen i ddeilydd y swydd allu arddangos y cymwysterau a'r profiad canlynol:

Angenrheidiol

- SAC neu brofiad proffesiynol cyfwerth
- Profiad sylweddol o weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion neu leoliadau addysg eraill
- Profiad mewn rôl arweiniol uwch
- Gwybodaeth amlwg am bolisi cyfredol y llywodraeth yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal ac addysg

Dymunol

- Profiad o rôl arweiniol uwch mewn ysgol neu leoliad addysg arall ee, Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, Pennaeth Adran / Blwyddyn ac ati.
- Cymhwyster ôl-radd

## 6 Sgiliau ac ymddygiadau sy'n benodol i'r swydd

**Arweinyddiaeth**
Disgwylir i ddeilydd y swydd gydweithio â phenaethiaid ysgol eraill ac arweinwyr lefel uwch yn yr awdurdod lleol, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym myd addysg ac yn y Gwasanaethau Plant, a dylanwadu arnynt. Gan hynny, mae'n hanfodol bod deilydd y swydd yn gallu cynrychioli lleisiau plant sy'n derbyn gofal mewn amgylchiadau a allai fod yn heriol.

**Strategaeth**
Mae'n rhaid i ddeilydd y swydd allu datblygu strategaethau trosfwaol a chychwyn polisïau i sicrhau bod mesurau deilliant eang yn cael eu bodloni. Disgwylir i ddeilydd y swydd ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro a nodi achosion effeithiol o weithredu, yn ogystal â chymhwyso arfer gorau o bob rhan o'r sector.

**Creadigrwydd**
Mae anghenion plant sy'n derbyn gofal yn gymhleth ac amrywiol. Yn ogystal â hynny, bydd deilydd y swydd yn gweithio gydag ystod oedran eang, o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio i'r naill blentyn yn y naill leoliad, yn briodol ar gyfer plentyn arall. Mae'r gallu i fod yn ystwyth, ac i gydweithio a gweithio'n greadigol â'r rhanddeiliaid perthnasol i greu'r ymyraethau a'r strategaethau gorau yn hollbwysig.

**Rheoli a goruchwylio**
Bydd deilydd y swydd yn rheoli tîm o Gydgysylltwyr LACE, ac yn atebol am berfformiad cyffredinol gwasanaeth neu adran. Mae'r gallu felly i gefnogi datblygiad proffesiynol ac ysbrydoli tîm yn rhan allweddol o'r rôl. Mae'n bwysig bod deilydd y swydd yn gallu rheoli cyllideb a'i gwario yn y modd mwyaf effeithiol posibl.

**Gwybodus a chydwybodol**
Ar gyfer y swydd, mae angen dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ogystal â'r gallu i edrych ar ddeilliannau eang yr holl gymuned o blant sy'n derbyn gofal y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae hi felly'n hollbwysig bod gan ddeilydd y swydd ddealltwriaeth gref o effaith profiadau yn ystod plentyndod ar anghenion penodol plant unigol, yn ogystal â'r gallu i harneisio adnoddau'r gymuned a gweithwyr proffesiynol er mwyn ysgogi gwelliannau. Wrth wneud hynny, dylai deilydd y swydd allu sicrhau cysondeb a pharhad, a chodi uchelgeisiau plant sy'n derbyn gofal.

## Atodiad Ch - Canllawiau ar Gynlluniau Peilot a Gwerthuso

Mae'r adroddiad terfynol yn trafod argymhellion i ALlau a Llywodraeth Cymru fesur deilliannau plant sy'n derbyn gofal, ac i weithredu cydrannau eraill mewn system integredig a nodwyd yn y gwaith ymchwil. Yn yr atodiad hwn trafodir sut i dreialu a gwerthuso model newydd cyn rhoi model cenedlaethol ar waith.

**Mireinio nodau a mecanweithiau dull arweinyddiaeth adferol yng Nghymru**

Mae'r Ddamcaniaeth Newid yn creu darlun gweledol o'r modd y bwriedir i beilot effeithio ar blant sy'n derbyn gofal a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r gofal hwnnw. Nod y Ddamcaniaeth Newid yw rhoi esboniad syml o'r berthynas rhwng cyflawni'r peilot a'r rhagdybiaethau sydd wrth wraidd ei weithrediad, yr adnoddau a neilltuir a'r canlyniadau disgwyliedig o safbwynt plant sy'n derbyn gofal a sefydliadau cymorth. Mae'r ffigur isod yn cynrychioli Damcaniaeth Newid gychwynnol, ac fe'i trafodir yn fanylach isod. Wrth werthuso'r peilot dylid diweddaru'r model er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu cydrannau'r peilot a'r dull o'i gyflawni, a allai esblygu dros amser.

*Y Cyd-destun*


Mae blwch y cyd-destun, i'r chwith o'r Ddamcaniaeth Newid yn rhoi crynodeb byr o gyd-destun gweithredu'r timau gofal cymdeithasol ac addysg, gan roi syniad o faint y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, a'r modd y maent yn amrywio. Mae angen ystyried y cyd-destun wrth ddylunio'r peilot a'r gwerthusiad.

*Mewnbwn*

Yn y golofn mewnbwn ar ochr chwith y Ddamcaniaeth Newid nodir yr adnoddau - y cyllid a'r rhanddeiliaid - y byddai angen eu hymrwymo er mwyn cyflawni'r peilot, ac a ddisgwylir er mwyn cyflawni'r gweithgareddau allweddol sydd eu hangen i sicrhau deilliannau i blant sy'n derbyn gofal a sefydliadau**.**

Ar hyn o bryd mae'n cynnwys rôl arweinydd strategol, i ysgogi arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu cliriach yn y peilot. Y mae hefyd yn cynnwys y cymorth y byddai ar yr arweinydd strategol ei angen, gan gynnwys systemau llywodraethu ac atebolrwydd, cymorth arbenigol, ac ymgysylltiad y gymuned gyfan. Byddai union nifer yr unigolion a fyddai'n darparu cymorth arbenigol, a phwy fyddai'r unigolion hynny, a'r modd y byddai'r gymuned ehangach yn cael ei hadlewyrchu, yn dibynnu ar gynigion ALlau Cymru ynghylch sut i gynnal eu peilot. Mae'r mewnbwn hefyd yn cynnwys y buddsoddiad ariannol i ALlau gymryd rhan mewn peilot, ac i ddylunio, cynnal a gwerthuso eu peilot. Yn dibynnu ar y modd y mae ALl peilot yn darparu cymorth ar hyn o bryd, gallai'r rhai o'r adnoddau hyn eisoes fod ar gael.

**Ffigur 9 Drafft o Ddamcaniaeth Newid ar gyfer peilot arweinyddiaeth adferol**



*Mecanweithiau*

Mae colofnau'r mecanweithiau yn crynhoi'r modd yr ydym yn disgwyl i'r cynlluniau peilot ddefnyddio'r adnoddau a fuddsoddir yn y peilot, fel bo modd sicrhau'r deilliannau a fwriedir i blant sy'n derbyn gofal a'r sefydliad. Nid rhestr gynhwysfawr mo hon, ond dyma'r gweithgareddau craidd y byddai angen i gynllun peilot eu cynnwys, fel isafswm, yn ein tyb ni. Gallai'r union fecanweithiau esblygu, yn seiliedig ar gynigion ALlau ar gyfer cyflawni eu peilot. Yn dibynnu ar y modd y mae ALl peilot yn darparu cymorth ar hyn o bryd, gallai'r rhai o'r mecanweithiau hyn eisoes fod ar waith.

Er enghraifft, ar ben uchaf y golofn mecanweithiau, mae'r Ddamcaniaeth Newid yn cynnwys dau weithgaredd i'w hyrwyddo gan yr arweinydd strategol, fel bo modd cael amodau a fydd yn grymuso ymarferwyr i ddarparu cymorth uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn: dull adfero o arwain a chraffu ar ansawdd CAPau a phrosesau sy'n canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal. Mae'r Ddamcaniaeth Newid yn rhagdybio y bydd ymarferwyr wedi'u grymuso a CAPau o safon uchel yn cyfrannu at sicrhau bod cyfran fwy o blant sy'n derbyn gofal yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd, at welliannau mewn addysg, gwaith cymdeithasol ac/neu fesurau llesiant a phrosesau pontio llyfnach i blant sy'n derbyn gofal. Pwrpas y gwerthusiad fyddai monitro'r gweithgareddau hyn a'r deilliannau a nodir yn y Ddamcaniaeth Newid, er mwyn deall a yw'r ddamcaniaeth yn dal dŵr, a'r rhesymau am hyn.

Mae codau lliw'r bocsys mewnbwn a mecanweithiau yn cyfeirio at gydrannau - darnau jig-so - y model ar gyfer sicrhau dull mwy integredig o weithredu ar gyfer deilliannau plant sy'n derbyn gofal. Er gwybodaeth, mae'r rhain wedi'u cynnwys ar waelod y Ddamcaniaeth Newid, ar y llaw chwith.

*Canlyniadau*

Deilliannau yw'r newidiadau tymor byr i dymor canolig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, o ganlyniad i'r mecanweithiau. Yn y pen draw, yr effaith hirdymor fydd gael arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu clir a chyson er mwyn sicrhau deilliannau addysg plant sy'n derbyn gofal ym mhob ALl yng Nghymru.

Disgwyliwn y bydd gweithgareddau ar y cyd gan sefydliadau a phlant sy'n derbyn gofal - y mecanweithiau - yn arwain at:

- Newid cadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys
    - Bod cyfran fwy o blant sy'n derbyn gofal yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd

- Gwelliannau o ran mesurau addysg, gwaith cymdeithasol a llesiant
- Pontio llyfnach i blant sy'n derbyn gofal, rhwng blynyddoedd ac i ysgolion newydd

- Newid cadarnhaol o ran sefydliadau, gan gynnwys
    - Cynyddu hyder ysgolion a'r ALl wrth roi cymorth i blant sy'n derbyn gofal.
    - Gwella gwaith integredig ar raddfa'r ALl ac ar raddfa ranbarthol
    - Mwy o gysondeb o ran darpariaeth ar draws ALlau a ffiniau
    - Arbed costau yn sgil sefydlu system fwy cyson ac effeithlon

Agwedd sy'n bwysig yn y Ddamcaniaeth Newid yw'r ymadwaith rhwng deilliannau plant sy'n derbyn gofal a deilliannau sefydliadau; mae'n annhebygol y ceir deilliannau i blant sy'n derbyn gofal os na sicrheir deilliannau'r sefydliadau.

**Ystyriaethau'r peilot**

Mae cyd-destun yn bwysig, felly dylid cynnwys ffactorau cyd-destunol pob peilot wrth ei werthuso, gan na fydd y gwerthusiad yn cymharu'r cynlluniau peilot ar sail gyfatebol. Er enghraifft, maint yr awdurdod a lefel yr integreiddio rhwng gwasanaethau, nifer y plant sy'n derbyn gofal a'u hanghenion.

Yn rhan o'r holl gynlluniau peilot, dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad clir o'r deilliannau yr hoffai weld cynnydd yn eu herbyn, a'i gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau peilot fonitro'r deilliannau hynny a threfnu gwerthusiadau o'r holl gynlluniau peilot. Yn ddelfrydol, byddai deilliannau'n cynnwys yr holl ddeilliannau ehangach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu datblygu ledled Cymru (gweler Atodiad B). Efallai na fydd hi'n bosibl nodi deilliannau tymor hwy yn y graddfeydd amser hyn, yn enwedig oherwydd cyfansoddiad y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal mewn rhai ardaloedd. Yn lle hynny, dylai cynlluniau peilot felly olrhain cyfeiriad y daith, a chanfyddiadau o fod ar y trywydd iawn i wireddu'r deilliannau tymor hwy hynny. Waeth beth yw cyfansoddiad y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal, dylai cynlluniau peilot ymrwymo i ddull o fesur cynnydd addysgol eu plant sy'n derbyn gofal, a hefyd i dreialu'r broses adrodd ehangach a ddaw yn ei sgil. Er enghraifft, dangosyddion cyd-destunol a mesurau deilliant ehangach.

I gefnogi dysgu ymhlith y cynlluniau peilot, dylid cael mecanwaith ffurfiol i rwydweithio a rhannu cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd. Er enghraifft, sianel rhannu gwybodaeth ar Microsoft Teams y mae gan bob ALlau peilot fynediad ati, neu

weithdai peilot rheolaidd wedi'u hwyluso gan Lywodraeth Cymru, neu werthuswyr cynlluniau peilot, a fyddai'n helpu i gynnwys y mecanweithiau hyn wrth werthuso.

Byddai'r ardaloedd nad ydynt yn cymryd rhan yn y cynlluniau peilot yn grŵp cymharol - yr ardaloedd sy'n parhau yn ôl yr arfer ac y bydd yr holl ardaloedd peilot yn cael eu cymharu yn eu herbyn. Byddai cynnwys ambell ALl sy'n parhau â'r drefn arferol ac sy'n monitro'r un mesurau â'r cynlluniau peilot yn arfer da, ac o gymorth i gael dealltwriaeth well o'r modd y mae plant sy'n derbyn gofal a darpariaeth gwasanaeth yn elwa ar y dulliau peilot.